# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
| --- | --- |
| **PWYLLGOR ARCHWILIO** | **AUDIT COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 23 MEDI 2014 am 2.00 o'r gloch** | **TUESDAY, 23 SEPTEMBER, 2014 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

Jim Evans, Richard Owain Jones, Dafydd Rhys Thomas

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Lloyd Hughes (Cadeirydd/Chair), John Griffith (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Vaughan Hughes

**Grwp Chwyldroad / Revolutionist Group**

Jeff Evans

**Heb Ymaelodi / Unaffiliated**

R Llewelyn Jones

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Mr Richard Barker, Mrs Sharon Warnes

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 22 GORFFENNAF, 2014** (Tudalennau 1 - 8)

Bydd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf, 2014 yn cael eu cyflwyno i'w cadarnhau.

3 **Y DATGANIAD CYFRIFON 2013/14 AC ADRODDIAD ISA 260**

- Cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon am 2013/14.
- Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol ynglyn â'r Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol (Adroddiad ISA 260).

*ADRODDIADAU I DDILYN*

4 **Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2013/14** (Tudalennau 9 - 24)

Cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2013/14.

5 **ARCHWILIO ALLANOL - ARDYSTIO GRANTIAU A DYCHWELIADAU 2012/13** (Tudalennau 25 - 54)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol ynglyn ag Ardystio Grantiau a Dychweliadau 2012/13.

6 **ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH BERFFORMIAD** (Tudalennau 55 - 58)

Derbyn diweddariad ar Raglen Waith Perfformiad Archwilio Allanol.

7 **CYNNYDD AR GASGLU DYLEDION** (Tudalennau 59 - 62)

Cyflwyno adroddiad cynnydd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro.

8 **CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU'R CYNGOR** (Tudalennau 63 - 66)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro.

9 **ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2013/14** (Tudalennau 67 - 118)

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch am 2013/14.

10 **OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS YNG NGHYMRU - CRYNODEB O BERFFORMIAD 2013/14** (Tudalennau 119 - 136)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro.

11 **DIOGELU DATA A LLYWODRAETHU GWYBODAETH** (Tudalennau 137 - 142)

Derbyn diweddariad gan y Pennaeth Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro ar gynnydd mewn perthynas â'r Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth.

12 **ASESIAD CORFFORAETHOL**

Derbyn diweddariad ar lafar gan y Dirprwy Brif Weithredwraig ar y paratoadau ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol.

13 **MEYSYDD SY'N DESTUN PRYDER A AMLYGWYD GAN ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 143 - 150)

Derbyn diweddariad gan y Dirprwy Brifweithredwraig ynglyn â delio gyda'r meysydd hynny sy'n destun pryder a amlygwyd gan Archwilio Mewnol.

14 **ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 151 - 156)

Cyflwyno adroddiad cynnydd Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Awst, 2014.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd John Griffith (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jeff Evans, R.Llewelyn Jones.<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker & Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro<br>Rheolwr Archwilio Dros Dro (JF)<br>Rheolwr Yswiriant a Risg (JJ) (ar gyfer eitem 7)<br>Rheolwr Busnes Trawsnewid a Llywodraethu (ET)<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol) (BD) (ar gyfer eitemau 5 a 6)<br>Cyfrifydd Dros Dro (RGJ) (ar gyfer eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Jim Evans, Richard Owain Jones, Dafydd Rhys Thomas, H.Eifion Jones (Deilydd Portffolio Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor), Y Cynghorydd Alwyn Rowlands (Deilydd Portffolio ar gyfer Perfformiad, Trawsnewid, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol), Mr Andy Bruce (Swyddfa Archwilio Cymru), Mr Joe Hargreaves (PwC), Bev Symonds (Rheolwr Sgriwtini) |

---

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb oedd yn bresennol a diolch i'w ragflaenydd fel Cadeirydd, y Cynghorydd R. Llewelyn Jones am ei waith a'i arweiniad yn ystod ei gyfnod yn y swydd honno.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd Mr Richard Micklewright, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro ddiddordeb yn eitem 10 ar y rhaglen.

Datganodd Mr John Fidoe, Rheolwr Archwilio Dros Dro ddiddordeb yn eitem 12 ar y rhaglen ac aeth allan o'r cyfarfod yn ystod ystyried y mater.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:

- 10 Ebrill, 2014 (Arbennig)
- 30 Ebrill, 2014 (Arbennig)
- 8 Mai, 2014 (ethol Cadeirydd/Is-Gadeirydd)

**3 ADOLYGU'R DATGANIAD O GYFRIFON 2013-14**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro oedd yn rhoi amlinelliad o'r meysydd allweddol yn y Datganiad Cyfrifon 2013/14.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro bod y broses o gwblhau'r Datganiad o Gyfrifon drafft yn unol â'r amser cau statudol ar ddiwedd mis Mehefin wedi bod yn broses heriol, ond fe lwyddwyd i gau'r cyfrifon erbyn yr amser cau a chafodd y Datganiad drafft ei arwyddo gan y Swyddog Adran 151 Dros Dro ar 30 Mehefin. Bydd y Datganiad o Gyfrifon yn awr yn destun archwiliad allanol cyn ei ailgyflwyno i gyfarfod mis Medi o'r Pwyllgor Archwilio

ynghyd â barn yr Archwilwyr arno. Rhoddodd y Swyddog grynodeb o'r alldro refeniw a chyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14 fel y cawsant eu hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith ar 9 Mehefin.

Dywedodd y Cyfrifydd Dros Dro (Cau Cyfrifon) bod angen diolch yn fawr i staff y Tîm Gwasanaeth Cyllid am eu hymdrechion i sicrhau cwblhau'r cyfrifon drafft o fewn yr amser penodedig a chyfeiriodd at y pethau yr oedd eu hangen wrth gau'r cyfrifon a beth fydd yr archwilwyr yn ei archwilio o ran cywirdeb datganiadau ariannol ac agweddau ansoddol eu cyflwyniad.

Cadarnhaodd Mr. Joe Hargreaves, PwC bod y gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi dechrau ac yn mynd yn ei flaen ac y bydd unrhyw faterion fydd yn codi o'r gwaith hwnnw yn cael ei adrodd yn llawn i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Medi.

Ategodd y Cadeirydd y gosodiadau a wnaed ynglŷn â'r angen i ganmol y Gwasanaeth Cyllid am allu cau'r cyfrifon ar amser a gwahoddodd y Pwyllgor i wneud ei sylwadau ar y wybodaeth a gyflwynwyd.

Yn y drafodaeth a ddilynodd, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau ynglŷn â'r materion a ganlyn -

- Dyledion Amheus – mynegwyd pryder mewn perthynas â balans dyledwyr tymor byr y Cyngor ar £29.3m ac roedd teimlad bod hynny'n ormodol yn arbennig ar amser pan mae'r Awdurdod dan fwy a mwy o bwysau i gynhyrchu arbedion ac i wneud i'r adnoddau sydd ganddo fynd ymhellach. Ceisiodd yr Aelodau gael eglurhad o'r sefyllfa o ran ffynhonnell y dyledion; unrhyw fesurau a gymerwyd neu a gynlluniwyd i adennill yr arian sy'n ddyledus a'r cyfnod o amser y gadawyd i'r dyledion gasglu.

  Roedd y Pennaeth Swyddogaeth a Swyddog Adran 151 Dros Dro yn cydnabod y pryder a dywedodd bod proses gadarn wedi ei rhoi yn ei lle i fynd i'r afael â'r mater yn y misoedd i ddod ac roedd cysylltiad â'r UDA a'r Aelodau ynglŷn â hyn, ond oherwydd bod y mater o ddyledion amheus wedi ei nodi, ac er mwyn bod yn hollol gywir, rhaid gwneud darpariaeth ar eu cyfer yn y cyfrifon. Dywedodd y Swyddog y gallai'r rheswm dros beidio â chasglu dyledion fod oherwydd nifer o resymau ac fel arfer fe ddylai fod yna broses ar gyfer dod â dyledion amheus yn eu blaen i osgoi iddynt gronni dros amser. Bydd adroddiad ar y prosiect ar gyfer delio â'r mater yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi ac fe ellir dod â'r adroddiad hefyd i'r Pwyllgor Archwilio os yw'r Aelodau yn dymuno hynny. Yr amcan ar hyn o bryd yw canolbwyntio ar rai dyledion o werth uchel a fydd, os gellir eu datrys, yn dod â'r cyfanswm i lawr yn sylweddol.

  Dywedodd Mr. Joe Hargreaves, PwC bod darpariaeth o £4.4m ar gyfer dyledion amheus/ tymor byr wedi ei wneud yn Natganiad Cyfrifon 2012/13. Roedd hwn wedi codi tua £1.2m yn y cyfnod ers hynny. O safbwynt archwiliad, bydd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus yn cael ei harchwilio'r flwyddyn hon fel sy'n arferol, er ei fod yn swm mawr nid yw'n cael ei ystyried fel cynnydd o bwys yn seiliedig ar y niferoedd. O ran gwneuthuriad y ddyled o £29.3m, mae'r cyfrifon yn cynnwys nodyn datgelu sy'n gosod allan y categoriau eang o ddyledwyr.

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r sefyllfa o safbwynt yr atebolrwydd pensiynau net a'r gwaethygiad ymddangosiadol yn y sefyllfa bensiynau. Dywedodd Mr. Joe Hargreaves, PwC fod Cynllun Pensiwn Gwynedd wedi ei ailbrisio'n ffurfiol ers y Datganiad Cyfrifon diwethaf ac mae'r atebolrwydd wedi cynyddu. Roedd ffactorau ynglŷn â hyn wedi ei gynnwys yn y prisiad actiwaraidd. Bydd yr archwilwyr yn archwilio'r tybiaethau hynny ac y maent eisoes wedi asesu'r symiau sy'n berthnasol iddo. Bydd yr Archwilwyr hefyd yn archwilio'r wybodaeth y mae'r Awdurdod yn ei darparu i Gynllun Pensiynau Cyngor Gwynedd. Eglurodd y Cyfrifydd Dros Dro (Cau Cyfrifon) y ffactorau oedd yn cael effaith ar berfformiad y Gronfa Bensiwn yn ogystal â'r asesiadau ar wahanol ddarnau y mae'r sefyllfa atebolrwydd yn seiliedig arno fel y'i hadlewyrchir yn y cyfrifon. Cyfeiriodd y Rheolwr Archwilio at y cyflwyniad ar Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd a wnaed i'r Pwyllgor Archwilio'r flwyddyn ddiwethaf a dywedodd mai'r bwriad oedd adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio yn flynyddol ar berfformiad y gronfa bensiwn.

- Pa mor ddigonol oedd y ddarpariaeth a wnaed yn y cyfrifon ar gyfer Arfarnu Swyddi a Thâl Cyfartal. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro bod yr Awdurdod wedi gosod o'r neilltu swm i gynnwys costau Tâl Cyfartal. Bu'n llwyddiannus yn ei gais i Lywodraeth Cymru i gyfalafu unrhyw gostau fel bod unrhyw wariant

a dalwyd allan y flwyddyn ddiwethaf yn cael ei ariannu o adnoddau cyfalaf y Cyngor gyda hynny'n golygu mai ond ychydig iawn y bydd yn rhaid ei gymryd o'r arian refeniw a roddwyd o'r neilltu. Mae'r arian hwnnw i bob pwrpas ar gael ar gyfer unrhyw hawliadau yn y dyfodol.

- Y rhesymeg dros gadw Cronfa Yswiriant Fewnol oedd yn ymddangos fel pe bai wedi diffygio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac y gwnaed ychydig iawn o alw arno. Gofynnwyd a allai'r adnoddau o fewn y gronfa hon gael eu cyfeirio i bwrpas mwy defnyddiol. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro bod y Gronfa yn darparu arian wrth gefn y gallai'r Cyngor dynnu ohono i gyfarfod â hawliadau fyddai fel arall yn cael eu talu gan ddarparwr yswiriant allanol ac y byddai'n rhaid talu premiwm am hynny. Mae'n ffordd o reoli cyfrifoldebau a risgiau lle mae'r arian a delir allan yn isel. Eglurodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant bwrpas y Gronfa yswiriant mewnol o gymharu â'r diogelwch a ddarperir gan yswiriant allanol yr awdurdod. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro y bydd hyd a lled gwahanol ffynonellau arian wrth gefn y Cyngor a'i falansau a'r rhesymau dros eu cael yn destun adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi ac fe ellir dod â'r adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio hefyd pe bai'r Aelodau'n dymuno hynny.

- Gofynnwyd a oedd y datganiadau a wnaed yn yr adroddiad bod yr ansicrwydd ynglŷn â lefelau'r cyllid yn y dyfodol i lywodraeth leol yn cael ei farnu i fod yn ddigonol i allu rhoi syniad y gallai asedau'r Cyngor gael eu heffeithio oherwydd yr angen i gau cyfleusterau a gostwng lefelau'r gwasanaethau o gadw mewn cof leihad dangosol o 4.5% yn y grant gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro bod y proses cyfrifon yn gofyn am i farn gael ei wneud a safbwynt gael ei fynegi ar ddichonolrwydd ariannol y Cyngor ac mai'r farn a fynegir o gymryd i ystyriaeth y peirianwaith a'r prosesau sydd gan y Cyngor yn eu lle i fynd i'r afael â'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu, yw ei fod yn parhau i fod yn endid ariannol dichonol.

- Ceisiwyd cael eglurhad ynglŷn â'r sefyllfa staffio a'r gwahaniaeth ymddangosiadol rhwng y sefyllfa bresennol lle mae'r Cyngor yn cyflogi mwy o staff nag yr oedd yn ei wneud flwyddyn yn ôl a thanwariannau mewn gwasanaethau sydd i'w cyfrifo'n rhannol amdanynt yn yr adroddiad ar swyddi gwag sydd heb eu llenwi. Eglurodd y Deilydd Portffolio Adnoddau Dynol beth oedd y sefyllfa a chadarnhaodd bod staff yn gwneud mwy gyda llai a'u bod yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol e.e. trwy fabwysiadu arferion gweithio'n hyblyg.

  **Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r eitemau allweddol oedd wedi eu hamlinellu ynddo a hefyd y sylwadau a wnaed.**

  **CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro i ddarparu i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Medi – y canlynol:**

- **Adroddiad cynnydd ar y prosiect oedd â'r dasg o fynd i'r afael â sefyllfa a balans dyledwyr y Cyngor.**

- **Adroddiad ar ystod a maint cronfeydd wrth gefn y Cyngor a'r balansau a'r rhesymeg dros eu cael.**

**4 DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU A SICRWYDD A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2013-14**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr oedd yn cynnwys yn Atodiad B y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft am 2013-14. Ynghlwm wrth Atodiad A i'r adroddiad oedd y Cynllun Gweithredu Llywodraethu a Sicrwydd oedd yn crynhoi'r cynnydd hyd yn hyn o ran y camau oedd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion llywodraethu sylweddol a nodwyd fel rhai a oedd angen sylw. Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y drafft cyfredol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn parhau i fod yn destun ymgynghoriad a her ac y bydd yn cael ei ddiweddaru fel bydd angen ar gyfer canlyniadau'r hunanasesiad corfforaethol ac unrhyw newidiadau hyd at ddyddiad arwyddo'r cyfrifon. Bydd yn cael ei anfon at i swyddogion ac aelodau am sylwadau cyn cael ei gyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor Archwilio i'w gymeradwyo yn ei gyfarfod mis Medi.

Rhoddodd y Rheolwr Trawsnewid a Llywodraethu gyflwyniad gweledol i'r Pwyllgor ar ganlyniad y gweithdy hunanasesu a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf a'r themâu a'r negeseuon oedd yn deillio o'r digwyddiad hwnnw. Cyfeiriodd at y cynllun gweithredu yn Atodiad A a dywedodd bod y meysydd

DRAFT

côd gwyrdd yn tystiolaethu i'r cynnydd sylweddol a wnaed hyd yn hyn er bod angen gweld gwelliant pellach o ran y meysydd oedd yn goch ac ambr. Bydd Cynllun Gweithredu diwygiedig wedi ei ddiweddaru'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi.

Bu'r Aelodau yn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd ac amlygwyd y canlynol fel pwyntiau i'w nodi:

- Sgorau hunanasesu adrannol o'r gweithdy hunanasesu ar hyn yr oeddent yn ei olygu.
- Yr angen am Gynllun Gweithredu newydd fyddai'n fwy manwl o ran y deilliannau a ddisgwylir, effaith y deilliannau hynny a'r amseroedd ar gyfer eu cyflawni. Awgrymodd yr Aelodau nad yw fformat y Cynllun Gweithredu cyfredol yn galluogi iddynt gael teimlad o'r hyn y bwriedir i'r newidiadau eu cyflawni gyda'r symudiad i fyny o goch i ambr ac ambr i wyrdd a'r gwahaniaeth gwirioneddol y bydd hynny'n ei wneud. Ceisiodd yr Aelodau gael sicrwydd bod yr agweddau rheini'n cael eu hystyried a'u monitro. Cadarnhaodd y Rheolwr Trawsnewid Busnes a Llywodraethu y bydd y model Cynllun Gweithredu am y flwyddyn nesaf yn cynnwys yr elfennau hynny.
- Y dylai uwch reolwyr gymryd perchnogaeth o'r Cynllun Gweithredu o ran sicrhau bod y neges o ran y gwaith sydd eto i'w wneud yn cael ei raeadru i lawr i reolwyr canol a'u staff.
- Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â chanlyniad yr arolygon boddhad staff a chwsmer yng nghyswllt beth ellid ei wneud i wella'r meysydd hyn eto ymhellach.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r diweddariad ar lywodraethu fel yr oedd yn cael ei adlewyrchu gan y Cynllun Gweithredu a'r angen i'r cynllun fod yn fwy penodol ar ddeilliannau ac amserlenni.**
- **I nodi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2013-14 fel y'i cyflwynwyd.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 5 ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2013-14

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro yn cynnwys yr adolygiad blynyddol o reoli'r trysorlys a dangosyddion pwyllog a thrysorlys am 2013-14 yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Rheoli'r Trysorlys a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer arian cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol.

Cadarnhaodd yr Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol) bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio gyda'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2013-14 fel y'i mabwysiadwyd gan y Cyngor ym Mawrth 2013, roedd y sefyllfa alldro i raddau helaeth yn unol â'r dangosyddion trysorlys pwyllog a gymeradwywyd ar ddechrau'r flwyddyn ac nid oedd unrhyw wahaniaethau o bwys o'r diweddariadau a roddwyd yn ystod y flwyddyn.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys am 2013-14 fel yr oeddynt i'w gweld yn yr adroddiad.**
- **Derbyn yr adolygiad Rheoli'r Trysorlys Blynyddol 2013-14 a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau pellach**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 6 RHEOLI'R TRYSORLYS CHWARTER 1 - 2014/15

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro yn cynnwys adolygiad o'r gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn ystod chwarter cyntaf 2014-15.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r diweddariad a roddwyd.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

7 **RHEOLI RISG**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor adroddiad yn rhoi diweddariad gan y Rheolwr Risg ac Yswiriant ar y sefyllfa rheoli risg.

Dywedodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant wrth yr Aelodau - oherwydd yr anawsterau gydag ymwreiddio arferion rheoli risg yn y Cyngor, bydd adolygiad o'r trefniadau rheoli risg cyfredol yn cael ei gynnal gan gwmni allanol fydd yn archwilio'r agweddau oedd wedi eu hamlinellu yn adran 2.2 yr adroddiad. Cafodd y Gofrestr Risg Corfforaethol ei hadolygu gan y Penaethiaid a'r UDA ym Mehefin 2014 ac roedd y risgiau oedd wedi eu rhestru yn adran 3.1 yr adroddiad yn rhai a nodwyd fel rhai risg uchel. Yn dilyn gwaith i liniaru'r risgiau, roedd y risgiau oedd wedi ei rhestru yn adran 3.5 yr adroddiad wedi eu gostwng i risgiau statws canolraddol.

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad a gwneud y sylwadau a ganlyn ar y wybodaeth a gyflwynwyd:

- Mynegwyd pryder a siomedigaeth nad oedd unrhyw gynnydd gweladwy wedi ei wneud ers y diweddariadau blaenorol o ran symud ymlaen ag arferion rheoli risg ar draws yr Awdurdod a gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â'r disgwyliadau o safbwynt ymwreiddio rheoli risg o fewn y Cyngor.
- Ceisiwyd cael eglurhad o'r rhesymau o symud risgiau cyllidebol YM08 ac YM33 at i lawr. Awgrymwyd bod y rhain yn parhau i fod yn risgiau lefel uchel o ystyried eu bod yn dibynnu ar gyflawni'r rhaglen arbedion.
- Roedd pryder fod y risg YM31 mewn perthynas â diogelu data yn parhau i gael ei gategoreiddio fel risg uchel er iddo gael ei amlygu gan y Pwyllgor hwn fel maes oedd angen gweithredu adferol ar unwaith. Awgrymwyd bod y cyfrifoldeb am sicrhau bod y mater hwn yn cael sylw a'i ddatrys yn cael ei gymryd ar lefel gorfforaethol.
- Nodwyd y dylai rhoi sylw i risg YM49 mewn perthynas â chasglu incwm mewn ffordd effeithiol wrthbwyso risg YM47 mewn perthynas â bod heb ddigon o gyllideb i fodloni'r ymrwymiadau presennol.

  Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod cynnydd wedi ei wneud yn yr ystyr bod Cofrestr Risg Gorfforaethol wedi ei sefydlu a'i bod yn awr yn cael ei hystyried yn fisol gan y Pwyllgor Gwaith yn anffurfiol mewn ymgynghoriad â'r UDA. O safbwynt diogelu data, mae Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth wedi ei sefydlu ac mae'n gweithio i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â risg YM31 ac mae llawer o gynnydd wedi ei wneud gyda hyn. Dywedodd yr Arweinydd hefyd ei fod yn dymuno sicrhau'r Pwyllgor Archwilio bod gweithdrefnau bidio cyfalaf newydd wedi eu cyflwyno a phan fo angen adnoddau cyfalaf, yn ogystal â'r prosesau arferol, bydd y Gofrestr Risg Corfforaethol yn cael ei defnyddio i werthuso blaenoriaethau.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r diweddariad a'r sefyllfa y mae'n ei hadlewyrchu.**
- **Gofyn i'r Dirprwy Brif Weithredwr fynychu'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio i adrodd ar y sefyllfa mewn perthynas â rhoi sylw i faterion diogelu data a Llywodraethu Gwybodaeth gyda'r disgwyl y bydd cynnydd sylweddol wedi ei wneud mewn perthynas â'r mater hwn.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Dirprwy Brif Weithredwr i roi adroddiad ar gynnydd ar y Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod nesaf.**

8 **ARCHWILIO ALLANOL – DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD**

- Cafwyd diweddariad gan Mr. Andy Bruce, Swyddfa Archwilio Cymru ar statws y rhaglen Waith Perfformiad a thynnodd sylw'r Aelodau at ail-ddynodi'r allbwn archwilio mewn perthynas â'r archwiliad o'r cynllun gwella a'r archwiliad asesu perfformiad. Rhoddodd y Swyddog ddiweddariad hefyd ar statws darn o waith nad oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad mewn perthynas â threfniadau chwythu'r chwiban ar draws Awdurdodau Lleol y ceir atborth lleol yn ei gylch.

  Ceisiodd Aelod o'r Pwyllgor gael eglurhad a fyddai'r adolygiad lleol o adnoddau rheoli ariannol yn cynnwys y trefniadau ar gyfer gosod cyllidebau sail ac mewn meysydd lle yn hanesyddol y

cafwyd tanwariant a gorwariant, ac a oedd y cyllidebau craidd rheini yn briodol. Dywedodd Mr. Andy Bruce y byddai'r adolygiad yn canolbwyntio ar reolaeth ariannol o ran cynllunio a'r wybodaeth yr oedd yn seiliedig arni, a'r rhesymeg am benderfyniadau. Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro bod y gwaith maes ar gyfer yr adolygiad o safbwynt Môn wedi dechrau. O ran y gyllideb, roedd angen adolygu'r prosesau oedd yn ymwneud â gosod y gyllideb. Roedd y broses o osod cyllideb 2015/16 eisoes wedi dechrau. Bydd y gyllideb drafft pan gaiff ei chyflwyno yn yr hydref yn cynnwys y mater o gyllidebau sy'n cael eu tanddefnyddio. Mae'r Adran Gyfrifeg yn adolygu'r holl gyllidebau manwl ar gyfer pob canolfan gost a gwasanaeth i nodi patrymau o danwario, a hefyd yn adolygu gwariant ar gyfer penawdau penodol ar draws y gwasanaethau.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

- Cyflwynwyd a nodwyd Tystysgrif Cydymffurfiaeth Cynllun Gwella 2014/15.

- Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor yr adroddiad Gwella Blynyddol yn ymgorffori'r gwerthusiad archwiliad allanol o ba mor dda y gweithredodd Cyngor Sir Ynys Môn ei gynlluniau i wella yn ystod 2012/13. Cadarnhaodd Mr. Andy Bruce bod yr adroddiad yn gyffredinol yn un cadarnhaol yn ei gasgliadau a'i fod yn tystiolaethu i gynnydd parhaol yr Awdurdod o fewn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth gyda'r amod ynglŷn â heriau oedd i'w cyfarfod mewn perthynas â sicrhau capasiti a sefydlogrwydd yn y gwasanaeth cyllid corfforaethol a rhoi sylw i wendidau gyda rheoli'r system ledjer ariannol.

  Amlygodd y Pwyllgor y patrwm o gynnydd o ran y boblogaeth y gofelir amdanynt a'r cyfraddau uwch o blant ar y gofrestr diogelu plant yn erbyn cynlluniau'r Cyngor i wario llai bob blwyddyn ar y Gwasanaethau Plant fel maes oedd angen ei fonitro'n agos.

  **Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

  **DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**9 ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol yn nodi gwaith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 30 Mehefin 2014. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth mewn perthynas â chanlyniad yr adroddiadau adolygu archwilio mewnol a ryddhawyd ers yr adroddiad cynnydd blaenorol a'r meysydd oedd wedi eu cynnwys ynghyd â phryderon a data archwilio cyfredol yng nghyswllt cyfraddau gweithredu ar argymhellion archwilio mewnol.

Bu'r Aelodau yn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a cheisiwyd cael eglurhad mewn perthynas â rhai meysydd o safbwynt gweithredu'r trefniadau a argymhellwyd o ran y gyflogres a'r angen i ystyriaeth gael ei roi i gynnwys llywodraethwyr ysgol mewn unrhyw drefniadau chwythu'r chwiban. Tynnodd y Pwyllgor sylw yn arbennig at yr adran oedd yn nodi'r pryderon archwilio cyfredol o amgylch rheoli risg, rheoli gwybodaeth, llywodraethu a'r fframwaith caffael corfforaethol (adran 6 yr adroddiad) fel un oedd yn dangos gwendid uwch reolaeth greiddiol ar draws nifer o gategorïau gwasanaeth o ran gwerthfawrogi a chymhwyso polisïau, rheolau, prosesau a phrotocolau fel oedd angen neu fel a awgrymwyd gan argymhellion archwilio blaenorol ac/neu gyfredol ac i raeadru'r gwerthfawrogiad hwnnw yn ehangach i staff adrannol. Awgrymwyd y dylai'r diffyg hwn gael ei ddwyn i sylw'r Uwch Dîm Rheoli a bod y Pwyllgor Archwilio yn cael diweddariad ar yr holl feysydd o dan Adran 6 yr adroddiad oedd yn dogfennu pryderon parhaol yr archwilwyr ac argymhellion archwilio oedd heb eu gweithredu, yr amserlen ar gyfer datrys y materion hyn a'r rheolwr/swyddog oedd yn atebol. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Pwyllgor gael gwybodaeth am gyfrifoldebau uwch reolwyr i'w alluogi i fod yn glir ynglyn â phwy sy'n gyfrifol am beth fel y gall fod wedi ei sicrhau y bydd y materion a amlygwyd yn cael eu dwyn ymlaen.

**Penderfynwyd :-**

- **Derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**
- **Gofyn i'r Dirprwy Brif Weithredwr fynychu'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio i adrodd ar y sefyllfa mewn perthynas â'r meysydd a ddynodwyd fel rhai o bryder parhaol**



DRAFT

**i'r archwilwyr, y camau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â hwy, yr amserlenni ynglŷn â hyn a'r rheolwr/swyddog oedd yn gyfrifol.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Y Dirprwy Brif Weithredwr i roi adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod nesaf yn unol â'r penderfyniad uchod a chyda gwybodaeth am gyfrifoldebau uwch reolwyr.**

**10 GWEITHWYR ASIANTAETH – ADOLYGIAD O'R TREFNIADAU**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad Rheolwr Archwilio Mewnol yng nghyswllt trefniadau presennol ar gyfer caffael a defnyddio staff ymgynghoriaeth/asiantaeth ar draws y Cyngor a'r costau oedd ynglŷn â hynny. Roedd yr adroddiad yn dogfennu casgliadau'r adolygiad archwilio a wnaed gan roi sylw i ymwybyddiaeth polisi wrth gyflogi staff asiantaeth/ymgynghoriaeth a pha mor ddigonol oedd y rheolau mewnol ynglŷn â'u cyflogi a hefyd gydymffurfio â'r rheolau hynny.

Yn dilyn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd yr oedd Aelodau'r Pwyllgor amlygu'r pwyntiau canlynol:-

- Yr anhawster o ran cysoni maint y gwariant ar staff asiantaeth/ymgynghoriaeth a'r llacrwydd yn y trefniadau oedd yn ymwneud â'u cyflogi yn wyneb y toriadau cyllidebol caled y mae'r Cyngor yn gorfod eu gwneud.
- Tra bod cyflogi staff asiantaeth yn cyfarfod ag angen ar rai adegau, dylai'r Awdurdod geisio lleihau ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth mewn meysydd allweddol a cheisio nodi patrymau lle y mae bylchau o ran sgiliau a,
- Dylai'r Awdurdod ystyried ailgyflwyno cynllun hyfforddi graddedigion i feithrina datblygu arbenigedd mewnol/lleol mewn meysydd lle mae bylchau wedi'u nodi o ran y sgiliau.

  Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol wrth y Pwyllgor bod yr adolygiad wedi ei anfon ymlaen i'r UDA ar 7 Gorffennaf a bod yr UDA wedyn wedi trafod y mater gyda'r Penaethiaid ac wedi cytuno y bydd y Rheolwr Archwilio Mewnol yn cyfarfod â'r Penaethiaid Gwasanaeth i egluro'r adolygiad a materion o gydymffurfio â pholisi oedd yn codi o hynny. Mae'r UDA hefyd wedi penderfynu y bydd recriwtio staff asiantaeth yn cael ei ail-ganoli o dan yr Adran Adnoddau Dynol ac y bydd AD yn penderfynu a fydd staff asiantaeth yn cael eu cyflogi ai peidio yn dilyn cyfeirio at y polisi. Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod strategaeth ar gyfer delio â chyflogi staff asiantaeth wedi ei chynnwys o fewn y Strategaeth Arbedion/Effeithlonrwydd am y flwyddyn nesaf.

  **Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r camau oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion oedd wedi eu hamlygu gan yr adolygiad archwilio mewnol.**

  **CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Y Rheolwr Archwilio Mewnol i roi dadansoddiad pellach i'r Pwyllgor o'r contractwyr a'r staff hunangyflogedig oedd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor**

*Oherwydd bod y cyfarfod yn awr wedi parhau am 3 awr yn unol â gofynion para 4.1.10 y Cyfansoddiad gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau oedd yn bresennol a oeddent yn dymuno i'r cyfarfod barhau. Pleidleisiodd yr Aelodau oedd yn bresennol i'r cyfarfod barhau.*

**11 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Penderfynwyd dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

**12 CONTRACT RHEOLI GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL**

*Nid oedd y Rheolwr Archwilio Mewnol yn bresennol yn ystod y drafodaeth ar y mater hwn.*

Cafwyd adroddiad llafar gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro yn dweud bod y contract cyfredol ar gyfer rheoli gwasanaeth archwilio mewnol yr Awdurdod yn dod i ben ym Mehefin 2014. Yn dilyn ystyried y mater a'r ystyriaethau sy'n berthnasol, fe

gytunwyd gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr y byddai'r contract cyfredol gyda Baker Tilly yn cael ei ymestyn hyd ddiwedd mis Mawrth 2015.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r penderfyniad a gymerwyd i ymestyn y contract rheoli gwasanaeth archwilio mewnol gyda Baker Tilly hyd ddiwedd mis Mawrth 2015.**

**Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **23 MEDI 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2013-14** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **CYFLWYNO DRAFFT Y DATGANIAD LLYWODRAETHU I'W GYMERADWYO** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **DIRPRWY BRIF WEITHREDWR** |
| **GWEITHREDU:** | **CYMERADWYO'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL** |

## 1. Cefndir

1.1 Hwn yw'r adroddiad i alluogi cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r drafft cyfredol yn fersiwn wedi ei ddiweddaru o'r drafft a roddwyd o flaen y Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf, ac yn ymgorffori sylwadau'r Pwyllgor Archwilio ynghyd â'r rhai gan swyddogion ac aelodau.

## 2. Yr Angen am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol

2.1 Rhaid i'r Cyngor adolygu, o leiaf unwaith y flwyddyn, effeithiolrwydd ei system o reolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu a chyhoeddi datganiad ar yr adolygiad ar yr un pryd â'r Datganiad Cyfrifon.

2.2 Mae'r gofyniad hwn yn seiliedig ar y Datganiad ganC/SOLACE o 2007 ar Lywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol. Mae bellach yn ofyniad cyfreithiol yn Lloegr ac ers 2011, bu ganddo bron yr un statws yng Nghymru. Y disgwyl yw y bydd pob awdurdod lleol yn mabwysiadu cod llywodraethu lleol yn seiliedig ar fframwaith CIPFA/SOLACE ac yn cynnal adolygiad yn erbyn y fframwaith a'r cod lleol. Mae'r Cod Llywodraethu Lleol yn ymddangos ar wefan y Cyngor yn http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/llywodraethu-corfforaethol

## 3. Rôl y Pwyllgor Archwilio

3.1 Mae cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (cyn iddo gael ei arwyddo gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr) o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio.

"3.4.8.1.1. (viii) sicrhau bod gan yr awdurdod system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ei gwneud hi'n haws iddo gyflawni ei swyddogaethau ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol. Adolygu effeithiolrwydd y rheolaeth fewnol o leiaf unwaith y flwyddyn a chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer ei gynnwys gyda Datganiad Cyfrifon yr awdurdod."

3.2 Gellir diweddaru'r disgwyliad trwy ddilyn yr awgrym o'r cyfrifoldebau canlynol ynglyn a'r DLIB yn y diweddariad i arweiniad CIPFA ar bwyllgorau archwilio:

- "To review the Annual Governance Statement prior to approval and consider whether it properly reflects the risk environment and supporting assurances, taking into account internal audit's opinion on the overall adequacy and effectiveness of the council's framework of governance, risk management and control."

**4. Newidiadau a'r camau nesaf**

4.1 Dyma'r prif newidiadau o'r draft y rhoddwyd ystyriaeth iddo ym Mis Gorffennaf:

- cynnwys eitem ychwanegol ar y rhestr o faterion llywodraethu o sylwedd - y mater o gydymffurfio a pholisïau a godwyd gan Archwilio Mewnol;
- cynllun gweithredu ar y materion llywodraethu o sylwedd;
- diweddariad i'r adran ar drefniadau rheoli;
- cwblhau'r nifer fechan o fylchau;
- newidiadau mewn ymateb i sylwadau yn y gweithdy hunan-asesiad a rhai swyddogion ac eraill yr ymgynghorwyd a hwy.

4.2 Rydym yn paratoi'r cynllun gweithredu manwl mewn ymgynghoriad â'r grŵp swyddogion sy'n ymwneud a'r asesiad corfforaethol a byddwn yn dod a'r cynllun yn ôl i'r pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf yn gyson â'i benderfyniad yn ei gyfarfod diwethaf.

**5. Argymhelliad**

5.1 Bod y Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan gyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w lofnodi.

**EINIR WYN THOMAS** **16 MEDI 2014**
**Rheolwr Busnes Trawsnewid a Llywodraethu Corfforaethol**

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL– 2013-14

## 1 CEFNDIR

Hwn yw'r Datganiad Llywodraethu cyntaf ar gyfer y Cyngor a etholwyd ar wardiau newydd ym Mai 2013 ar ddiwedd cyfnod o ymyrraeth llywodraeth. Mae'n gosod allan y trefniadau llywodraethu oedd yn eu lle ar gyfer y flwyddyn gan ganolbwyntio ar faterion llywodraethu arwyddocaol cyfredol mewn perthynas â chaniatáu i'r awdurdod gyflawni ei weledigaeth. Mae'n tynnu sylw at newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ac mae'n cynnwys gwerthusiad byr lle mae gwendidau neu welliannau sylweddol yn cael eu nodi.

Mae agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi cael eu cryfhau a'u moderneiddio yn ystod y blynyddoedd diweddar ar draws nifer o themâu llywodraethu, ac fe ymgorfforwyd y rhain yn y Cynllun Trawsnewid ar gyfer yr awdurdod a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2013 yn gosod yr agenda ar gyfer ei waith hyd at 2016. Fe'i cynlluniwyd fel rhaglen o newid yn cael ei yrru gan y Cyngor ei hun. Ein gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn, erbyn 2016:

***"Yn Gyngor proffesiynol a threfnus sydd ag ymagwedd eangfrydig ac arloesol, sydd wedi ymrwymo i ddatblygu pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o safon, a werthfawrogir yn fawr gan ein dinasyddion."***

Rydym hefyd yn pwysleisio y bydd sicrwydd a llywodraethiant yn allweddol i sicrhau y caiff y cynllun corfforaethol ei wireddu.

"Wrth wneud hynny, byddwn yn –

- darparu fframwaith rheoli perfformiad integredig, gan gysylltu'r Cynllun Corfforaethol i'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol i lawr at y broses o bennu'r gyllideb flynyddol ac adolygiadau datblygiad perfformiad unigol
- casglu a defnyddio gwybodaeth i fonitro ein perfformiad a chymryd camau i wella lle mae angen gwneud hynny
- cefnogi datblygiad prosesau'r Cyngor o ran gwneud penderfyniadau democrataidd a sgriwtini
- cryfhau ein hymgysylltiad gyda dinasyddion Ynys Môn a'u cyfraniad nhw at brosesau'r Cyngor o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau
- parhau i gryfhau ein prosesau sy'n ymwneud â chyllid ac adrodd ar y gweithlu a'i fonitro
- sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer delio â'n heriau ariannol, gan sicrhau fod gwasanaethau'n trawsnewid a bod arloesedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud"

Y chwe thema allweddol i gefnogi'r weledigaeth yw:

- **Proffesiynol a Threfnus**
- **Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig**
- **Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned**
- **Gwerthfawrogi a Datblygu'n Pobl**
- **Wedi Ymrwymo i Bartneriaeth**
- **Cyflawni**

Drafft

Mae'r Datganiad Llywodraethu yn asesu'r trefniadau yn erbyn y chwe egwyddor llywodraethu:

| |
|---|
| Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar ddeilliannau i'r gymuned a chreu gweledigaeth i'r ardal leol |
| Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi'u diffinio'n glir |
| Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad |
| Gwneud penderfyniadau tryloyw sydd yn seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cael eu sgriwtineiddio'n effeithiol a rheoli risg |
| Datblygu capasiti a gallu aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol |
| Ymgysylltu gyda phobl leol a chydranddeiliaid eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cadarn. |

## 2 CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol a'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Hefyd mae dyletswydd ar y Cyngor dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau bod gwella parhaus yn digwydd o ran y modd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth weithredu'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau iawn ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithredu ei swyddogaethau yn effeithiol, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu côd llywodraethu corfforaethol lleol sy'n gyson gydag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government'. Ceir copi o'r côd lleol ar ein gwefan yn <http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/llywodraethu-corfforaethol/> .Mae'r datganiad hwn yn egluro sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r côd ac yn ateb gofynion ymarfer priodol anstatudol sy'n annog cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac yn ateb gofynion rheoliad 4(2) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

## 3 PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a gwerthoedd, sy'n rhoi cyfeiriad i ac sy'n rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau, a thrwy'r rheiny mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu gyda'r gymuned ac yn ei harwain. Dylai alluogi'r awdurdod i fonitro pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac yn ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno, ac wedi'i dylunio i reoli risg hyd at lefel resymol. Does dim modd iddi gael gwared â phob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, y gall ei rhoi o ran effeithiolrwydd. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus, wedi'i dylunio i ganfod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, asesu pa mor debygol yw i'r risgiau hynny ddigwydd a'r effaith os byddant yn digwydd, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae’r fframwaith llywodraethu wedi bod yn ei lle yn y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014, ac mae’n parhau i fod yn berthnasol hyd at ddyddiad cymeradwyo’r Datganiad Cyfrifon. Nodir yn y ddogfen lle cyflwynwyd trefniadau newydd yn ystod y flwyddyn.

## 4 Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Disgrifir y fframwaith cyfredol fel mae’n berthnasol i bob un o’r chwe egwyddor Llywodraethu Gorfforaethol yn yr atodiadau i’r Cod Llywodraethu Lleol sydd ar gael yn <http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/perfformiad-a-llywodraethu/llywodraethu-corfforaethol/> .

Mae’r crynodeb sy’n dilyn yn pwysleisio’r gwendidau a’r gwaith a wnaed i ddatblygu a chryfhau’r fframwaith yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14.

**Egwyddor Un: Canolbwyntio ar bwrpas yr awdurdod ac ar ddeilliannau i’r gymuned a chreu gweledigaeth i’r ardal leol.**

**Thema Allweddol: Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a’r Gymuned**
**Wedi Ymrwymo i Bartneriaeth; Cyflawni**

Roedd Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2012-15 yn parhau i arwain gwaith y Cyngor hyd nes mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol (2013-17) ar gyfer y Cyngor newydd ym mis Rhagfyr 2013. Dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) bod y Cynllun yn disgrifio blaenoriaethau'r Cyngor yn gryno ac yn glir ac yn egluro sut y mae'r blaenoriaethau yn adlewyrchu barn y cyhoedd yn ogystal â rhai'r Cyngor a phartneriaid eraill. Mae'r Cynllun Trawsnewid, a oedd yn allweddol i'r gwelliannau llywodraethu yn 2013, yn parhau i gefnogi trawsnewid yr Awdurdod i gyflawni ei weledigaeth a'i flaenoriaethau. Er bod yr agweddau strategol yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Corfforaethol newydd mae'r agweddau eraill yn helpu i flaenoriaethu gwaith Byrddau Trawsnewid yr Awdurdod.

Roedd y Cynllun Strategol Integredig Sengl a ddatblygwyd o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi’i sefydlu erbyn 1 Ebrill 2013 yn ôl y gofyn, gan ddisodli'r Strategaeth Gymunedol a'r strategaethau ar gyfer Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; Plant; a Diogelwch Cymunedol. Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd bellach ar waith ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd ac mae Cynlluniau Integredig Sengl ardal y ddau gyngor yn cael eu cyfuno i roi ffocws newydd ar y prif flaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar y cyd.

Cymeradwywyd cyllideb flynyddol a Strategaeth ar gyfer Cyllideb Refeniw Tymor Canol ym Mawrth 2013 a’i ddiweddaru yn Chwefror 2014 yn dilyn ymgynghori cyhoeddus. Rydym yn parhau i wneud toriadau ar draws gwasanaethau’r Cyngor. Roedd y broses gyllidebol yn cynnwys trafodaeth gyhoeddus ar ddigonolrwydd yr arian wrth gefn; cadernid amcangyfrifon a threfniadau rheoli trysorlys yn ôl y disgwyl. Ni wnaed llawer o gynnydd yn ystod y flwyddyn ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol, ac mae angen ei datblygu o hyd. Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar Strategaeth Effeithlonrwydd i nodi a chadarnhau'r arbedion sydd eu hangen i sicrhau cyllideb gytbwys. Mae'r toriadau parhaus i’r cyllid a’r galw cynyddol am wasanaethau ac ar gyfer gwell perfformiad yn her sylweddol i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig.

Cyhoeddwyd Datganiad Cyfrifon gyda barn archwilio ddiamod ar ddiwedd mis Medi 2013. Amlygodd Llythyr Archwilio Blynyddol yr archwiliwr fod gwall wrth gynhyrchu'r cyfrifon drafft a oedd wedi arwain at gamddatganiad o sylwedd, oedd wedi ei gywiro wedi hynny, gan gynnig gwelliannau ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Draft

Cyngor Sir Ynys Môn

Cymeradwywyd adroddiad y Cynllun Gwella (Adolygiad Perfformiad) gan y Cyngor Sir ym mis Hydref 2013. Mae'r Cynllun yn edrych yn ôl er mwyn asesu ein perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau a'r targedau fel y cawsant eu nodi yn ein Cynllun Busnes Corfforaethol 2012-13. Cafodd hyn ei asesu gan SAC yn ei Lythyr Asesiad Gwella a dywedwyd bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Cafwyd gweithdy Hunanasesiad Corfforaethol ym mis Gorffennaf 2014 ac fe gynhwysir y casgliadau mewn datganiad o'r hunan asesiad

Mae trefniadau llywodraethu partneriaeth yn eu lle ar sail achos wrth achos, ond nid oes fframwaith partneriaeth cynhwysol yn ei le. Mae hyn wedi ei nodi fel gwendid wrth i bartneru a chomisiynu ddod yn fwy o flaenoriaeth i'r Cyngor, ac mae rhaglen waith yn cael ei gynllunio. Fodd bynnag, mae trefniadau llywodraethu a chraffu ar waith ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd newydd a'r Uned Partneriaeth ar y Cyd cysylltiedig. Mae cynllun trawsnewid yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod y trefniadau hyn yn effeithiol a bod y bartneriaeth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i amcanion y sefydliadau cyfansoddol.

Mae cynnydd yn cael ei wneud ar y ffordd y mae safonau ansawdd gwasanaeth yn cael eu gosod a'u mesur, ac anghenion gwybodaeth yn cael eu hasesu a'u gwella. Cryfhawyd y broses o osod targedau yn ystod y flwyddyn er bod lle i wella. Roedd gwendidau o ran rheoli perfformiad ac atebolrwydd wedi cyfrannu at y diffygion yn Addysg a'r Gwasanaethau Plant yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae bellach yn cael ei gydnabod bod gwelliannau o ran cynllunio ac atebolrwydd wedi gwella'r rhagolygon ar gyfer y gwasanaethau allweddol hyn. Bydd arferion da yn y gwasanaethau hyn eu hymestyn i rannau eraill o'r Cyngor.

Roedd Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ei le drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys cardiau sgorio chwarterol, heriau hanner blwyddyn i Wasanaethau ac adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Gwaith ac i'r Pwyllgor Sgriwtini. Mae'r fframwaith yn parhau i gael ei datblygu i ganolbwyntio ar hunanasesiad gan Benaethiaid Gwasanaeth, ac ar y meysydd allweddol o risg a thrawsnewid. Mae hefyd yn canolbwyntio ar welliannau i adrodd ar y gweithlu a gwybodaeth ariannol. Yn ystod hydref 2013, cynhaliwyd cyfres o Adolygiadau Gwasanaeth a oedd yn cwmpasu cyllidebau a pherfformiad a oedd yn hysbysu proses y gyllideb.

Roedd trefniadau Rheolaeth Ariannol yn eu lle trwy'r flwyddyn, er bod gwendidau wedi eu hadnabod yn yr hen ledjer ariannol a systemau cysylltiedig a ddefnyddiwyd i gau'r cyfrifon ar gyfer 2012-13. Bwriad gweithredu system ariannol newydd a aeth yn fyw ym mis Ebrill 2013 oedd datrys y gwendidau hyn, ond mae gweithredu'r system wedi arwain at oedi a gwallau wrth wneud a chofnodi rhai trafodion. Yr effaith oedd bod bylchau mewn rheolaethau ariannol a diffyg cydymffurfio â rheolaethau system. Mae adnodd ychwanegol wedi ei gyflwyno i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd, mae'r sefyllfa yn cael ei arolygu a Chynllun Gweithredu yn ei le i ddatrys unrhyw faterion sy'n weddill.

Roedd y gwaith a gynlluniwyd ar ddatblygu strategaeth gomisiynu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau caffael wedi cael ei ohirio. Mae gwendidau o gydymffurfiaeth a Gwerth am Arian yn ymwneud â Chaffael a derbyniwyd adroddiad beirniadol gan ymgynghorydd yn ystod y flwyddyn. Rhaglen Wella ar gyfer Caffael ar y gweill.

Mae Archwilio Mewnol yn adolygu ac yn adrodd ar brosesau sy'n cefnogi cyflawni amcanion y Cyngor ac mae eu hadroddiad blynyddol yn rhan bwysig o'r adolygiad o effeithiolrwydd a ddisgrifir yn Adran 5 y Datganiad hwn.

Bu rheoli hawliadau grant yn wendid ers nifer o flynyddoedd ac roedd amod ar dystysgrif yr archwilydd ar ran uchel o'r hawliadau yn 2013. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i fonitro. Mae cynllun gweithredu mewn lle a chyhoeddir cyfarwyddiadau gweithredu newydd gyda hyn.


Draft

## Egwyddor Dau: Aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni pwrpas cyffredin gyda swyddogaethau a rolau wedi'u diffinio'n glir.

## Thema Allweddol: Proffesiynol a Threfnus

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu trefn Pwyllgor Gwaith gydag Arweinydd a etholir gan y Cyngor ynghyd a Phwyllgor Gwaith o hyd at chwe aelod a benodir gan yr Arweinydd. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniadau ar faterion strategol allweddol ac yn gyfrifol am weithredu'r polisïau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor. Mae gan bob Cynghorydd bortffolio i swyddogaeth benodol y Cyngor. Mae dau bwyllgor sgriwtini yn dal y Pwyllgor Gwaith i gyfrif, mae'r rhain yn cynnwys cynghorwyr nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith. Mae pwyllgorau rheoleiddio yn cynnwys Cynllunio, Trwyddedu, Apeliadau ac Archwilio, ynghyd â nifer o bwyllgorau eraill a sefydlwyd at ddibenion penodol.

Mae'r trefniadau ar gyfer pwyllgorau a'r cynllun dirprwyo i swyddogion ac aelodau wedi eu cynnwys yng nghyfansoddiad y Cyngor. Gwnaed newidiadau sylweddol i'r strwythur pwyllgorau ac i'r swyddogaeth sgriwtini dros y blynyddoedd diwethaf yn arbennig felly wrth baratoi ar gyfer etholiadau Mai 2013 a'r gostyngiad yn nifer yr aelodau o ddeugain i ddeg ar hugain ac ar gyfer wardiau aml-aelod.

Mae Protocol Perthynas newydd rhwng Aelodau a Swyddogion ac yn ystod 2013 cytunwyd ar raglen, gyda chefnogaeth CLILC i gynorthwyo i ddatblygu'r Pwyllgor Gwaith a'r ffordd y mae aelodau ac uwch swyddogion yn cydweithio; mae hyn yn cynnwys swyddogaethau allweddol yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

Cwblhawyd strwythur uwch reoli'r Cyngor yn ystod 2012. Gwnaed adolygiad o'r haen nesaf – y Penaethiaid Gwasanaeth yn 2013-14 ac arweiniodd hyn at ostyngiad o chwe swydd ar y lefel hon. Roedd y dasg wedi ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2013.

Mae'r strwythur Uwch Reoli yn cynnwys Prif Weithredwr sydd wedi ei ddynodi'n Bennaeth y Gwasanaeth Tâl; Dirprwy Brif Weithredwr sy'n gyfrifol am arwain ar swyddogaethau mewnol y Cyngor ac am sicrhau llywodraethu corfforaethol da; a thri Chyfarwyddwr sy'n arwain y rhaglenni ar gyfer eu grŵp o wasanaethau, gan gymryd cyfrifoldeb am bolisi, cynllunio a pherfformiad y swyddogaethau hynny. Y pum swyddog hyn yw Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) yr Awdurdod.

Y ddau Bennaeth Swyddogaeth ar gyfer Adnoddau ac ar gyfer Busnes y Cyngor yw'r Prif Swyddog Cyllid (PSC) dynodedig a'r Swyddog Monitro. Mae'r ddau swyddog yn adrodd i'r Dirprwy Brif Weithredwr sy'n gyfrifol am reoli eu perfformiad ac am gydlynu eu swyddogaethau llywodraethu o fewn y fframwaith llywodraethu corfforaethol, perfformiad a rheoli newid.

Y model rheoli a gytunwyd yw bod yr UDA yn arwain ar ddatblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor ac yn cael eu dal i gyfrif yn y swyddogaeth honno; a bod rôl weithredu gan y tîm rheoli ehangach. Mae'r PSC a'r Swyddog Monitro yn mynychu cyfarfodydd yr UDA yn ôl y galw ac yn aelodau allweddol o'r tîm Penaethiaid Gwasanaeth. Mae ganddynt fynediad parod at y Prif Weithredwr a'r UDA a'i aelodau unigol. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gofyn i'r Prif Weithredwr adolygu cyfrifoldebau a chyfansoddiad yr UDA.

Mae'n ofynnol bod pob awdurdod lleol yn asesu eu trefniadau yn flynyddol yn erbyn Datganiad CIPFA ar Swyddogaeth y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol ac yn adrodd ar ei gydymffurfiaeth neu'n egluro unrhyw drefniadau gwahanol. Ers Ionawr 2013, mae'r model rheoli a gymeradwywyd yn fodel gwahanol i'r hyn a ragwelir gan Ddatganiad CIPFA ond bwriedir iddo gael yr un effaith. Mae effeithiolrwydd y protocol ar gyfer papurau

pwyllgor wedi cael ei hadolygu, ac fe'i diwygiwyd a'i roi ar waith ym mis Chwefror 2014.Bydd effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn cael ei adolygu gan y rheolwyr yn Hydref 2014.

Mabwysiadodd y Cyngor y Safonau Archwilio Mewnol mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yn Ebrill 2013 Mae yna hefyd ddisgwyliad bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â Datganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae trefniadau'r Cyngor yn gyson â'r egwyddorion a nodwyd yn y datganiad. Cynhelir adolygiad o effeithiolrwydd Archwilio Mewnol.

Roedd rhai gwasanaethau corfforaethol wedi eu cryfhau fel rhan o'r ymateb i'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol yn 2009. Yn ystod y flwyddyn, o ganlyniad i'r toriadau yn y gyllideb, ac anawsterau o ran recriwtio, mae nifer o wasanaethau corfforaethol yn awr yn edrych ar ffyrdd o reoli'r galw cleient gan swyddogaethau rheng flaen ac maent ar hyn o bryd yn destun adolygiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

Telir lwfansau i aelodau yn ôl trefn leol sy’n seiliedig ar benderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Cyhoeddwyd adroddiadau penodol i’r Cyngor hwn ynglŷn â’r flwyddyn dan sylw. Y Cyngor Llawn sy’n penderfynu ar faterion dewisol ac mae’r cynlluniau, a’r taliadau a wnaed i aelodau dan y cynllun, wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mabwysiadwyd Datganiad Polisi Tâl ym Mawrth 2012 yn ôl y galw ac fe’i diweddarwyd ym Mawrth 2013 a 2014.

## Egwyddor Tri: Hyrwyddo gwerthoedd yr awdurdod ac arddangos gwerthoedd llywodraethu da trwy gynnal safonau uchel o ymddygiad.

## Thema Allweddol: Proffesiynol a Threfnus

Mae’r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2012-15 yn nodi gwerthoedd y Cyngor a daeth y rheini’n rhan greiddiol o Weledigaeth y Cynllun Trawsnewid a’r Diwylliant Trawsnewid. Mae'r chwe thema allweddol yn sail i'r ffordd gorfforaethol o weithio a rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd llywodraethu da yn y Cynllun Corfforaethol newydd.

Mae’r Côd Lleol Llywodraethu Corfforaethol wedi ei ddiweddaru yn Hydref 2013.

Mae nifer o godau ymddygiad a phrotocolau yn eu lle fel rhan o’r Cyfansoddiad i sicrhau safonau uchel o ymddygiad ac ymarweddiad. Mae Polisi i Rwystro Twyll a Llygredd yn y Cyfansoddiad ynghyd â chynlluniau atodol.

Mae Pwyllgor Safonau gweithgar ac effeithiol wedi’i sefydlu ac fe adroddodd ar ei waith mewn adroddiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn. Bu hanes o gwynion yn erbyn aelodau'r cyngor, yn aml gan aelodau eraill. Mae nifer y cwynion hyn wedi gostwng yn sylweddol iawn heb unrhyw gwynion a gadarnhawyd yn ystod y flwyddyn, a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyfeirio at welliant mawr mewn safonau o fewn y cyngor sydd wedi arwain yn naturiol at ostyngiad mewn materion ymddygiad a chwynion yn cael eu codi.

**Egwyddor Pedwar: Cymryd penderfyniadau tryloyw sydd ar sail tystiolaeth ac yn cael eu sgriwtineiddio'n effeithiol a rheoli risg.**

**Thema Allweddol: Arloesol, Uchelgeisiol ac Iach**

Mae'r trefniadau ar gyfer dirprwyo penderfyniadau gweithredol i Aelodau unigol yn cael dealltwriaeth draws yr Awdurdod ac fe ailgyhoeddwyd canllawiau ym mis Awst 2013. Bydd ei effeithiolrwydd yn cael ei adolygu gan y rheolwyr yn yr hydref.

Yn 2012, cyflwynodd y Cyngor systemau newydd i sicrhau mynediad hawdd i bapurau a chofnodion y Cyngor ac o fis Mai 2013 mae aelodau a'r cyhoedd wedi cael budd llawn y mynediad at bapurau pwyllgor a'r wybodaeth gefndirol. Mae gan aelodau fynediad uniongyrchol i'r systemau electronic yn ystod y cyfarfodydd.

Cryfhawyd rôl y swyddogaeth sgriwtini fel rhan o raglen waith y Comisiynwyr a chyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol ym mis Mai yn gosod allan y gwaith a wnaed gan y Pwyllgorau yn ystod y flwyddyn. Roedd sgriwtini hefyd yn destun Astudiaeth Gwella genedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn gynnar yn 2013 a chynhaliodd y Cyngor hunanwerthusiad fel rhan o'r astudiaeth. Mae canlyniadau'r hunanwerthusiad yn dangos canfyddiad nad yw sgriwtini eto'n cefnogi'n gadarnhaol y Cyngor a'i Wasanaethau. Bydd canlyniadau'r hunanwerthusiad yn cael ei ystyried yng nghyd-destun newidiadau a wnaed ers Mai 2013 a'r adroddiad a'r canllawiau cenedlaethol sydd i ddod. Ers Mehefin 2013 lleihawyd nifer y pwyllgorau sgriwtini o bump i ddau ac mae effeithiolrwydd y newid yn cael ei adolygu. Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr yn gweithio gyda Sgriwtini er mwyn cyflwyno dull gweithio mwy corfforaethol, gyda'r bwriad bod Sgriwtini yn ychwanegu gwerth i berfformiad gwasanaethau ac i'r Cyngor gyflawni ei amcanion. Mae grŵp gweithio wedi ei greu i adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgorau Sgriwtini.
Bu trefniadau Rheoli Risg yn datblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac fe ail-gadarnhawyd a mabwysiadu'n ffurfiol y polisïau a'r arweiniad ym mis Medi 2012. Parheir i fewnosod y trefniadau yn y gwasanaethau ac yn gorfforaethol ond mae cynnydd yn araf. Mae adnoddau ychwanegol wedi eu hadnabod i gefnogi cynnydd.

Bu rheoli newid yn wan o fewn yr awdurdod a doedd rheoli prosiect ddim wedi ei sefydlu. Yn ystod y flwyddyn, cymerwyd camau breision i ddatblygu fframwaith rheoli rhaglen a phrosiect newydd ac i greu capasiti i gefnogi'r Cynllun Trawsnewid. Mae effeithiolrwydd y fframwaith yn cael ei adolygu.

Mae Pwyllgor Archwilio effeithiol yn ei le. Cwblhaodd y pwyllgor hunanasesiad yn ystod y flwyddyn gan adrodd ar ei waith ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae trefniadau tryloyw a hygyrch ar gyfer delio gyda chwynion a daeth Polisi Pryderon a Chwynion newydd i rym yn Ebrill 2013 yn seiliedig ar y polisi safonol a ddatblygwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae Archwilio Mewnol wedi cynnal profion sampl o gydymffurfiaeth ac mae adroddiad wedi ei gynhyrchu. Cafodd y meysydd gwasanaeth lle'r oedd diffyg cydymffurfio sylw yn gorfforaethol trwy Gynllun Gweithredu y cytunwyd arno. Roedd nifer y cwynion i'r Ombwdsmon unwaith eto yn gymharol isel, a dim un ohonynt wedi ei ymchwilio.

Cyngor Sir Ynys Môn

Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi diweddaru ac ail-lansio ei Bolisi ar Rannu Pryderon i gydymffurfio â'r prawf cyfreithiol statudol newydd. Mae'r Polisi wedi cael mwy o amlygrwydd ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, cydnabyddir bod diffygion, sef bod angen gweithdrefn ddogfenedig, mae angen i gynyddu ymwybyddiaeth / hyfforddiant ac i ddatblygu cronfa ddata gorfforaethol ganolog i ddal y wybodaeth a sicrhau ei bod yn cael ei dadansoddi a'i hadrodd yn briodol. Y bwriad yw y byddir yn hyfforddi cyn bo hir ar gyfer rheolwyr canol trwy'r Gynhadledd Rheolwyr Canol ac y bydd delio â chwynion datgelu camarfer yn ffurfio rhan o'r hyfforddiant sgiliau ymchwilio sy'n cael ei drefnu ar hyn o bryd.

## Egwyddor Pump: Datblygu capasiti a gallu Aelodau a swyddogion i fod yn effeithiol.

## Thema Allweddol: Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl

Yn ystod y flwyddyn enillodd y Cyngor y Siartr Gymreig ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau a ddatblygwyd gan CLILC ac awdurdodau i gynnig canllaw, ysgogiad a chydnabyddiaeth i awdurdodau sy'n dymuno cynnig lefel uchel o gefnogaeth i'w haelodau. Mae disgrifiadau swydd wedi bod yn eu lle i aelodau ers 2012 ac mae nifer o aelodau wedi cwblhau adolygiadau datblygu personol. Cyflwynwyd rhaglen gynefino i aelodau newydd o fis Mehefin 2013 ymlaen. Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sy'n goruchwylio'r meysydd hyn ac y mae'r Cadeirydd yn gweithredu fel Pencampwr Datblygu Aelodau. Mae disgrifiadau swydd / person ac adolygiadau datblygiad personol ar gyfer Aelodau etholedig bellach wedi cael eu hymestyn i gynnwys y saith aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau. Adolygwyd disgrifiadau swydd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn ddiweddar i roi ystyriaeth i faterion yn codi. O 2014, mae aelodau hefyd yn paratoi adroddiadau blynyddol unigol sy'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Cwblhawyd Strategaeth Adnewyddu Ddemocrataidd yn ystod y flwyddyn wrth baratoi ar gyfer yr etholiadau a gynhaliwyd ym Mai 2013. Cyfrannodd y Strategaeth at gynnydd yn nifer yr ymgeiswyr yn yr etholiad a'r canran a bleidleisiodd. Mae pryder o hyd am ddiffyg amrywiaeth yr ymgeiswyr a'r aelodaeth.

Mae gennym Strategaeth Pobl a strategaethau ar gyfer Datblygu'r Gweithlu, Talent, a Chynllunio Olyniaeth ac mae gan y Cyngor achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl. Roedd rhaglen anwytho staff yn ei le i staff a rheolwyr trwy'r flwyddyn.

Bwriadwyd bod y cynllun corfforaethol ar gyfer Adolygu Datblygiad Personol wedi ei sefydlu yn gadarnach yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynllun yn berthnasol i'r holl staff gan gynnwys Uwch Reolwyr. Fel mae'n digwydd disgynnodd y raddfa cydymffurfiaeth yn is na'r blynyddoedd a fu, yn rhannol oherwydd newidiadau rheolwyr. Gosodwyd targed o 70% i sicrhau graddfa uwch yn ystod 2014-15. Mae trefniadau yn cael eu gwneud i dargedu hyfforddiant a datblygiad ar sail fwy cyson a gyda ffocws pendant, sydd â chysylltiad â'r broses werthuso, wrth i gyllidebau leihau.

O ganlyniad i'r flaenoriaeth a roddwyd i gwblhau'r prosiect Arfarnu Swyddi corfforaethol, roedd llai o gynnydd ar ddatblygu'r cynlluniau Adnoddau Dynol corfforaethol. Byddwn yn diweddaru'r strategaethau i gynnwys anghenion y Cynllun Trawsnewid a chanlyniadau'r arolwg staff.

Mae fforwm Rheolwyr Canol bywiog ac mae'r Clwb Sbardun yn cynnig sesiynau dysgu ac ysbrydoli sydd ar gael i'r holl staff. Fel rhan o weithgaredd y Cynllun Trawsnewid a gweithgaredd ymgysylltu â staff, rhoddwyd cyfle i unigolion ar draws yr awdurdod i weithio ar brosiectau a strategaethau corfforaethol.



Draft

## Egwyddor Chwech: Ymgysylltu gyda phobl leol a chydranddeiliaid eraill er mwyn sicrhau atebolrwydd cadarn.

## Thema Allweddol: Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned

Roedd y Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned a baratowyd yn 2011 yn ei lle o hyd ac fe'i cefnogwyd gan y Canllawiau ar Ymgynghori ac Ymgysylltu â Staff. Mae'r strategaeth wedi dyddio bellach a bwriedir ei ddisodli gan Siartr Gofal Cwsmer ynghyd â'r Strategaeth Cyfathrebu Gorfforaethol. Cyflawnwyd ymgynghori cyhoeddus effeithiol fel rhan o'r prosesau cynllunio corfforaethol a gosod y gyllideb, yn ogystal ag yn datblygu strategaethau ar gyfer darparu gwasanaethau allweddol yn y dyfodol. O ganlyniad i weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cronfa o ddinasyddion sydd wedi gwirfoddoli i gynorthwyo'r Cyngor fel ymgyngoreion yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Menter Môn drwy'r prosiect Lleisiau Lleol i wneud y gorau o gyfleoedd ymgynghori.

Mae trefniadau mewn lle ar gyfer ymgysylltu gyda grwpiau o gydranddeiliaid sy'n cynnwys Siartr Cynghorau Cymuned a Chompact Sector Gwirfoddol.

Cynhaliodd y Cyngor arolwg o'i thrigolion yn 2012 ond mae bellach yn defnyddio canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Cymru i gael adborth ar sail gymharol yn flynyddol ar draws awdurdodau Cymru. Mae'r arolwg 2014 yn dangos bod 59% o ymatebwyr Ynys Môn yn cytuno bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae'r gyfradd hon yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac yn welliant sylweddol ar y llynedd (48%). Dangosodd yr arolwg fod ychydig yn fwy o ymatebwyr yn cytuno nac yn anghytuno bod y Cyngor yn dda am roi gwybod i bobl sut mae'n perfformio - hefyd yn well na'r cyfartaledd a chynnydd sylweddol ar y llynedd.

Mae trefniadau mewn grym i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Archwilio Allanol, rheoleiddwyr allanol a CLILC. Cryfhawyd y rhain yn ystod y cyfnodau diweddar o ymyrraeth ac mae angen eu cynnal fel rhan o'r trefniadau llywodraethu i'r dyfodol.

Roedd Strategaeth Gyfathrebu mewn grym ar gyfer y flwyddyn. Mae pedair rhan i'r strategaeth: Ymgysylltu a'r Dinesydd a'r Gymuned; Y Wasg; Brand y Cyngor; a Chyfathrebu Mewnol. Daeth Cyfathrebu Mewnol yn faes creiddiol i'w ddatblygu yn y Cynllun Trawsnewid.

Cyhoeddwyd adroddiadau blynyddol ar eu gwaith gan Sgriwtini yn ogystal â'r Pwyllgorau Safonau ac Archwilio. O Mehefin 2014, mae aelodau unigol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol hefyd.

Denodd arolwg staff cyntaf y Cyngor ers rhai blynyddoedd gyfradd ymateb o 32% ac roedd y canlyniadau yn galonogol. O'r staff hynny a ymatebodd, mae'r rhan fwyaf (71%) yn falch o weithio i'r Cyngor ac 75% yn fodlon gyda'r Cyngor fel cyflogwr. Mae 89% o'r staff yn mwynhau eu gwaith y rhan fwyaf o'r amser a 85% yn fodlon ar eu swydd. Mae'r arolwg wedi amlygu bod angen gwaith ar bob lefel i sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, i gyfathrebu ac ymgynghori yn well ar faterion pwysig sy'n effeithio ar staff ac i roi gwybod iddynt am benderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar Ynys Môn yn ei chyfanrwydd.

Mae trefniadau sefydlog ar gyfer ymgysylltu â staff: gyda'r Undebau Llafur trwy'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol a chyfarfodydd llai ffurfiol, a chyfathrebu gyda staff yn gyffredinol trwy, er enghraifft fwletinau staff misol. Mae ymgynghori â rheolwyr a staff a chant eu cynnwys yn y penderfyniadau fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid.



Draft

## 5 ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd wedi ei siapio gan waith rheolwyr o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan adroddiad blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:
- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd o fewn y flwyddyn neu yn ymwneud a'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn y Cynllun Trawsnewid;
- adolygiad o'r chwe thema sy'n sail gwerthoedd yr awdurdod;
- adolygu adborth gan Estyn ac AGGCC a'r byrddau adfer perthynol ar y gwaith gwella ynglŷn ag Addysg a Gwasanaethau Plant;
- cyfres o gyfweliadau gyda swyddogion allweddol;
- trafodaeth gyda, a chael sylwadau gan, grwpiau o swyddogion ac aelodau gan gynnwys yr UDA a'r Pwyllgor Gwaith.

Mae adolygiadau a monitro cyson yn golygu:
- gweithgaredd rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol i'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- Archwilio Mewnol, y mae eu gwaith yn cymryd ystyriaeth o risgiau sydd wedi eu hadnabod, trwy archwiliadau cyson o'n prif systemau, sefydliadau, prosiectau o sylwedd a phrif brosesau llywodraethu gan gynnwys rheoli risg, yn gyson efo'r cynllun archwilio mewnol, ac yn cynnwys gwaith 'dilyn-i-fyny' i sicrhau fod uwch swyddogion yn cyflwyno'r argymhellion sydd wedi eu cytuno;
- asesiad blynyddol Archwilio Mewnol gan archwilwyr allanol y Cyngor;
- gwaith Pwyllgorau Sgriwtini a phwyllgorau eraill y Cyngor gan gynnwys ei bwyllgorau Archwilio a Safonau,
- barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ynghyd ag asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill,
- monitro cyson gan aelodau ac uwch-reolwyr o wella perfformiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a'r cynlluniau a'r strategaethau cefnogol.

Cymeradwyir y polisïau allweddol, ac unrhyw addasiadau iddynt gan y Pwyllgor Gwaith, ac fe'u mabwysiadir yn ffurfiol gan y Cyngor Sir fel bo'r angen.

Ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd gweithdy Hunanasesiad Corfforaethol gan Uwch Aelodau a Swyddogion, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y Datganiad Llywodraethu a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gwybodaeth arall. Byddwn yn ymgynghori ar ganlyniadau'r hunanasesiad a'i wneud ar gael i staff a cydranddeiliaid. Mae hefyd wedi llywio'r Datganiad hwn a'r Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig.]

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Archwilio am farn ar effeithlonrwydd a chyflawnrwydd y fframwaith a sylwadau ar fersiwn ddrafft o'r DLlB hwn cyn cyflwyno drafft terfynol yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio i'w gytuno.

Drafft

## 6 MATERION LLYWODRAETHU O SYLWEDD

Gwnaed cynnydd rhagorol ar draws nifer o themâu llywodraethu yn ystod y flwyddyn gan arwain at Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) gan Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn casglu y "bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15. Canfuwyd bod:

- "y Cyngor yn gwneud cynnydd cyson o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd blaenoriaeth ar gyfer 2012-13 ond mae angen rhagor o welliannau mewn rhai gwasanaethau allweddol."
- "bod gweithdrefnau mwy trylwyr a chyson a datblygu trefniadau llywodraethu wedi cryfhau gallu'r Cyngor i werthuso a gwella gwasanaethau"; ac
- "os ydynt yn cael eu cyflawni'n effeithiol, y dylai cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella a'i drefniadau i gynorthwyo gwelliannau ei helpu i ymateb i'r heriau ariannol a heriau eraill sydd i ddod."

Hefyd gwnaethant y cynnig: "Er mwyn gwneud cynnydd a chyflawni amcanion y Cynllun Trawsnewid, dylai'r Cyngor:

- sicrhau digon o gapasiti, gallu a sefydlogrwydd yn ei wasanaeth cyllid corfforaethol; a
- nodi a gwella gwendidau o ran rheoli'r system cyfriflyfr ariannol."

Mae adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd ar y fframwaith ar gyfer rheolaeth fewnol. Mae'n nodi un adolygiad a wnaed yn ystod y flwyddyn a dderbyniodd raddfa sicrwydd "coch". Mae'r adroddiad yn ymwneud â thaliadau credydwyr a wnaed trwy'r system CIVICA newydd a gyflwynwyd ar ddechrau'r flwyddyn, gan nodi rhai bylchau rheolaeth a rhywfaint o fethiannau cydymffurfio â rheolau. Rhoddwyd lefel sicrwydd o goch/amber ar adroddiadau ar ddau system arall sy'n seiliedig ar CIVICA (dyledwyr a ledjer) am resymau tebyg. Mae adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd yn nodi pump o feysydd lle y byddai gwendidau o sylwedd mewn rheolaeth yn rhwystro'r Cyngor rhag dibynnu'n rhesymol ar y systemau o reolaeth fewnol ar gyfer y systemau a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Y meysydd hyn oedd:

- Parhad Busnes;
- Rheoli Risg;
- Llywodraethu: cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol allweddol;
- Rheoli Gwybodaeth; a
- Chyflwyno Systemau, yn arbennig ynglŷn â chyflwyno systemau ariannol allweddol.

Gwnaed cynnydd da ar nifer o'r camau a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2012-13 fel Materion Arwyddocaol:

- Rydym wedi sefydlu Byrddau Rhaglen Trawsnewid; Swyddfa Rheoli Rhaglen Corfforaethol a threfniadau llywodraethu cysylltiedig;
- Gwnaed cynnydd ar ddiogelwch data a rheoli asedau gwybodaeth, ond mae mwy eto i'w wneud;

ond mae cynnydd yn arafach ar gynllunio ar gyfer a chyflawni arbedion sydd eu hangen yn y Cyngor, er y cynnydd sy'n cael ei wneud yn awr.

Mae cynnydd hefyd yn arafach ar rai o'r meysydd eraill yn y Cynllun Gweithredu Llywodraethu ac Aswiriant:

- Rheoli Risg, er bod y fframwaith wedi ei gytuno'n ffurfiol bellach;
- Parhad Busnes;
- Cydymffurfio efo polisïau corfforaethol allweddol;
- Systemau Gwybodaeth.

Adlewyrchir yr eitemau hyn yn adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol, yn yr hunan asesiad neu yn yr AGB a'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu am 2014-15.

Yn seiliedig ar yr adolygiad a amlinellir uchod, ac yn benodol, adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol; yr hunan asesiad corfforaethol, ac Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru mae'r materion canlynol wedi eu nodi fel y materion llywodraethu o sylwedd ynglŷn â chyflawni gweledigaeth yr awdurdod:

| **Materion Llywodraethu o Sylwedd** | |
|---|---|
| **Mater** | **Gweithredu sydd wedi ei adnabod** |
| *Yr angen i gynllunio a chyflawni'r arbedion sydd eu hangen yn y Cyngor* | *Datblygu Strategaeth Cyllideb Tymor Canol yn seiliedig ar y cynlluniau cyfredol a'r rhagamcanion*<br><br>*Sefydlu Strategaeth Effeithlonrwydd fel rhan o gynlluniau strategol creiddiol y Cyngor*<br><br>*Cyflwyno Polisi a Strategaeth Gomisiynu a Chaffael* |
| *Cymryd y camau technegol a strwythurol yn erbyn prosesu data personol heb ganiatâd neu yn anghyfreithlon ac yn erbyn colli neu ddifrodi data personol ar ddamwain* | *Cwblhau'r cynllun gweithredu sydd wedi ei gytuno*<br><br>*Gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar yr ail-arolwg sydd ar y gweill ynghyd a'r ymateb i'w hadroddiad* |
| *Capasiti Gwasanaethau Corfforaethol i gynnwys Cyllid, TGCh, Cyfraith, AD a sgriwtini* | *Adolygu trefniadau cyfredol a'r rhai i'r dyfodol*<br><br>*Mae'r gwasanaethau yn drafftio "cynnig" y gwasanaethau corfforaethol i'w drafod ac er mwyn sicrhau adnoddau ar gyfer blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth* |
| *Systemau Ariannol, yn benodol y system ledjer* | *Cynllun Gweithredu i'w gyflwyno yn dilyn adolygiad ôl-gyflwyno* |
| *Rheoli Risg* | *Rhaglen o waith yn yr Hydref* |
| *Caffael* | *Rhaglen Gwella Caffael yn cael ei drefnu* |
| *Cydymffurfio gyda pholisïau corfforaethol allweddol* | *Adnabod y polisiau perthnasol*<br>*Cytuno ffurf gorfforaethol ar gyfer y polisïau perthnasol*<br>*Pennu system ar gyfer rheoli polisïau a chyfarwyddiadau gweithredu* |

Mae cynllun gweithredu manwl ar gael ar wefan y Cyngor.

## 7 ARDYSTIO'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Rydym wedi ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr **adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio a bod y trefniadau **yn parhau i'w hystyried yn addas i bwrpas yn gyson â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi cael sylw a'r rhai sydd i'w trafod yn benodol trwy weithredu o'r newydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.

Rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i ymdrin â'r gwendidau hyn a'r rhai eraill a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i wella ymhellach ein trefniadau llywodraethu ac aswiriant yn y flwyddyn sydd i ddod. Fe fyddwn yn monitro gweithrediad y gwelliannau trwy'r Pwyllgor Archwilio ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
| **-------------------------------------** | **-------------------------------------** |
| **Arweinydd y Cyngor** | **Prif Weithredwr** |
| **Dyddiad:** | **Dyddiad:** |

**Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn**

Drafft

This page is intentionally left blank

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2012-13

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Blwyddyn archwilio:** 2012-13

**Cyhoeddwyd:** Gorffennaf 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:**

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Tudalen 26

Lluniwyd y ddogfen hon PricewaterhouseCoopers LLP (‘PwC’) ar ran yr Archwilydd Penodedig

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Penawdau | 5 |
| Crynodeb o ganlyniadau gwaith ardystio | 7 |
| Argymhellion | 20 |
| Ffioedd | 27 |

# Crynodeb

1. O dan Baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os yw'n ofynnol gan gorff llywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grant, yn trefnu i ardystio hawliadau a ffurflenni (y cyfeirir atynt fel hawliadau grant o hyn ymlaen).
2. Nod ein gwaith oedd ardystio hawliadau unigol ac ateb y cwestiwn:

   'A oes gan Gyngor Sir Ynys Môn (yr Awdurdod) drefniadau digonol ar waith i sicrhau y cynhyrchir hawliadau grant cydgysylltiedig, cywir, ac amserol a ddogfennwyd yn gywir?'
3. Rydym wedi cwblhau'r archwiliad a deuwn i'r casgliad, er bod gan yr Awdurdod drefniadau digonol ar waith, ar y cyfan, ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno ei hawliadau grant ar gyfer 2012-13, fod lle i wella. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod i wneud y gwelliannau hyn ar gyfer 2013-14. Mae ein casgliad ar gyfer 2012-13 yn seiliedig ar y canfyddiadau cyffredinol canlynol:
   - Bu'r Awdurdod yn gweithio'n agos gyda ni er mwyn sicrhau bod rhestr gywir a chyfredol o grantiau 2012-13 ar gael drwy gydol y flwyddyn; ac
   - Mae lle i wella trefniadau'r Awdurdod ar gyfer cyflwyno ei hawliadau grant i'w harchwilio. Ac eithrio'r hawliadau am grant Budd-dal Tai, Budd-dal y Dreth Gyngor a Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, mae nifer y canfyddiadau sylweddol yn fach. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion er mwyn i'r Awdurdod wella ei berfformiad o ran rheoli cynlluniau grant a'u hawliadau cysylltiedig ymhellach
4. Ardystiwyd 39 o hawliadau grant a ffurflenni ariannol ar gyfer 2012-13 a oedd yn werth cyfanswm o £88,609,446 – 10 hawliad yn fwy na 2011-12 ac roedd cyfanswm eu gwerth tua £32,397,2998 yn fwy. O'r 39 o hawliadau grant a ardystiwyd, roedd pedwar yn ymwneud â blynyddoedd ariannol cynharach. Roedd y rhain yn werth cyfanswm o £27,298,295.
5. Cyflwynodd yr Awdurdod 62 y cant o'i hawliadau grant ar gyfer 2012-13 i ni ar amser. Gallwn gadarnhau ein bod wedi ardystio pob un o'r hawliadau, am gyfanswm cost archwilio o tua £163k. Lleihaodd yr addasiadau archwilio a nodwyd yn ystod yr archwiliadau y swm a hawliwyd gan yr Awdurdod £254,258.
6. Roedd 1:1.5 o'r hawliadau wedi'u hamodi neu wedi'u haddasu; mae hyn yn waeth na chyfartaledd Cymru, sef 1:3 ar gyfer 2012-13.

# Penawdau



| | | |
|---|---|---|
| **Cyflwyniad a chefndir** | **Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau'r gwaith o ardystio hawliadau a ffurflenni grant yr Awdurdod ar gyfer 2012-13**<br>• Fel archwilwyr penodedig yr Awdurdod, gofynnir i ni, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, ardystio hawliadau grant a wnaed gan yr Awdurdod.<br>Ar gyfer 2012-13, ardystiwyd 39 o hawliadau a ffurflenni grant a oedd yn werth cyfanswm o £88,609,446. O'r 39 o hawliadau grant a ardystiwyd, roedd pedwar yn ymwneud â blynyddoedd ariannol cynharach. Roedd y rhain yn werth cyfanswm o £27,298,295.<br>• Roedd gan yr Awdurdod gydgysylltydd grantiau penodedig a fu'n gweithio'n agos gyda ni er mwyn sicrhau bod rhestr gywir a chyfredol o grantiau 2012-13 ar gael drwy gydol y flwyddyn.<br>• Rhoddwyd protocol cydweithio ar waith cyn dechrau'r gwaith.<br>• Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn fel y gallwn roi adborth ar y cyd i'r swyddogion hynny sy'n gyfrifol am reoli grantiau fel y gallwn gydweithio er mwyn nodi rhagor o welliannau y gellir eu gwneud i'r prosesau sydd ar waith. | Tudalennau 7-19 |
| **Hawliadau yn dod i law yn amserol** | • Dengys ein dadansoddiad mai dim ond 62 y cant o'r grantiau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a dderbyniwyd erbyn terfyn amser yr Awdurdod. O'r hawliadau a gyflwynwyd yn hwyr i'w harchwilio, ni dderbyniwyd wyth tan bythefnos ar ôl terfyn amser yr Awdurdod, ac nid oedd y pum hawliad arall ond ychydig bach yn hwyr yn dod i law.<br>• Yn y dyfodol, dylai'r cydgysylltydd grantiau sicrhau y caiff pob hawliad am grant ei gyflwyno erbyn y terfynau amser ac, yn hollbwysig, fod ymatebion i ymholiadau archwilio yn cael eu rhoi o fewn dau ddiwrnod gwaith fan bellaf. Rydym yn cydnabod ei bod yn cymryd mwy o amser i ymdrin ag ymholiadau archwilio sy'n ymwneud â gwariant trydydd partïon. Fodd bynnag, mae angen ateb ymholiadau yn amserol er mwyn bodloni dyddiad cau'r archwilydd ar gyfer ardystio. | Tudalennau 7 – 11 |

| | | |
|---|---|---|
| **Canlyniadau'r gwaith ardystio** | **Gwnaethom gyhoeddi tystysgrifau diamod ar gyfer 11 o grantiau a ffurflenni ond roedd angen rhoi barn amodol mewn 24 o achosion (62 y cant)**<br>• Rydym wedi gwneud chwe argymhelliad er mwyn i'r Awdurdod wella ei berfformiad o ran rheoli cynlluniau grant a'u hawliadau cysylltiedig ymhellach.<br>• Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Awdurdod i wneud y gwelliannau hyn ar gyfer 2013-14.<br>• Ceir tabl manwl o'n hargymhellion ar dudalennau 20 i 26. | Tudalennau 7–19 |
| **Addasiadau archwilio** | **Roedd angen gwneud addasiadau i 14 o grantiau a ffurflenni'r Awdurdod o ganlyniad i waith ardystio'r archwilydd eleni**<br>• Roedd chwe addasiad sylweddol (h.y., mwy na £10,000) fel y dangosir ar dudalennau 8 i 11.<br>• Mae addasiad net y 14 o grantiau yn cyfateb i ostyngiad o £254,258 yn yr arian sy'n daladwy i'r Awdurdod. Heb gynnwys yr addasiadau sylweddol, mae addasiad net y chwe grant arall yn cyfateb i gynnydd o £5,051. | Tudalennau 7 – 11 |
| **Trefniadau'r Awdurdod** | **Mae gan yr Awdurdod drefniadau digonol ar gyfer paratoi ei grantiau a'i ffurflenni a chynorthwyo ein gwaith ardystio ond mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn rhai meysydd**<br>• Dylid rhoi gweithdrefnau ychwanegol ar waith er mwyn sicrhau y cydymffurfir yn llawn â rheolau cynlluniau grant.<br>• Dylai'r Awdurdod roi systemau a rheolaethau ar waith er mwyn sicrhau, lle y trosglwyddir grant i drydydd parti i'w wario, fod y sefydliad yn cydymffurfio â rheolau cynlluniau grant drwy gadw cofnodion digonol o wariant. | Tudalennau 20 – 26 |
| **Ffioedd** | **Ein ffi gyffredinol am ardystio grantiau a ffurflenni ar gyfer 2012-13 yw £163,206 sy'n fwy na'n hamcangyfrif gwreiddiol, sef rhwng £120k a £140k. Mae hyn i'w briodoli i'r cynnydd yn nifer y grantiau a'r ffurflenni sydd angen eu hardystio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.** | Tudalennau 27 – 28 |

# Crynodeb o ganlyniadau gwaith ardystio

**7.** Mae'r dudalen ganlynol yn cynnwys crynodeb o ganlyniadau allweddol ein gwaith ardystio ar grantiau a ffurflenni'r Awdurdod ar gyfer 2012-13, sy'n dangos lle y gwnaed diwygiadau archwilio o ganlyniad i'n gwaith neu lle y bu'n rhaid i ni amodi ein tystysgrif archwilio.

**8.** Mae amodi'n golygu bod materion wedi'u nodi o ran cydymffurfiaeth yr Awdurdod â gofynion cynllun na ellid eu datrys drwy wneud addasiad. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n debygol y bydd angen i'r corff perthnasol sy'n talu grant gael rhagor o wybodaeth gan yr Awdurdod i fodloni ei hun bod cyfanswm y grant a hawliwyd yn briodol.

| Gwybodaeth allweddol ar gyfer 2012-13 |
|---|
| **Yn gyffredinol, gwnaethom ardystio cyfanswm o 39 o grantiau a ffurflenni:** |
| roedd 11 yn ddiamod heb unrhyw ddiwygiad |
| roedd pedwar yn ddiamod ond roedd angen diwygio'r ffigurau terfynol rhywfaint |
| roedd angen amodi ein tystysgrif archwilio ar gyfer 14 ohonynt |
| roedd 10 yn ddiamod ond roedd angen diwygio'r ffigurau terfynol rhywfaint |

| Cyf – Para 8 | Grantiau a ffurflenni | Dyddiad derbyn disgwylied ig yr hawliad | Daeth yr hawliad i law | Hwyr | Tystysgrif a amodwyd | Addasiad (>£10,000) | Addasiad (<£10,000) | Tystysgrif ddiamod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RG02 | Cymunedau yn Gyntaf - Amlwch (Craidd) | 31/07/2013 | 22/02/2013 | Na | | | | |
| RG02 | Cymunedau yn Gyntaf - Amlwch (Di-graidd) | 31/07/2013 | 22/02/2013 | Na | | | | |
| RG02 | Cymunedau yn Gyntaf - Amlwch (Strategaeth Ymadael) | 31/07/2013 | 25/07/2013 | Na | | £12,754 | | |
| RG02 | Cymunedau yn Gyntaf - Swyddfa ganolog | 31/07/2013 | 17/04/2013 | Na | | | £0 | |
| RG02 | Cymunedau yn Gyntaf - Morawelon a London Road (Craidd) | 31/07/2013 | 27/09/2013 | Ie | | | | |
| RG02 | Cymunedau yn Gyntaf - Morawelon a London Road (Di-graidd) | 31/07/2013 | 05/09/2013 | Ie | | | | |
| RG02 | Cymunedau yn Gyntaf - Porth-y-felin | 31/07/2013 | 23/07/2013 | Na | | | | |
| RG02 | Cymunedau yn Gyntaf - Ward Tudur | 31/07/2013 | 15/07/2013 | Na | | | £0 | |
| RG01 | Cymunedau yn Gyntaf - Amlwch (Canlyniadau) | 31/07/2013 | 02/07/2013 | Na | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RG01 | Cymunedau yn Gyntaf - Porth-y-felin (Canlyniadau) | 31/07/2013 | 22/10/2013 | Ie | | | | |
| BEN01 | Budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor 12-13 | 30/04/2013 | 29/04/2013 | Na | | £29,355 | | |
| LA01 | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | 31/05/2013 | 06/06/2013 | Ie | | (214,995) | | |
| PEN05 | Ffurflenni pensiynau athrawon | 30/06/2013 | 24/05/2013 | Na | | | £0 | |
| EDU15 | Grant Effeithiolrwydd Ysgolion 12-13 | 30/09/2013 | 08/10/2013 | Ie | | | | |
| EDU18 | Grant Gwella Adeiladau Ysgolion Trosiannol | 30/09/2013 | 15/10/2013 | Ie | | (30,305) | | |
| EDU44 | Cymraeg mewn Addysg | 30/09/2013 | 06/11/2013 | Ie | | | | |
| EYC01 | Dechrau'n Deg | 30/09/2013 | 30/09/2013 | Na | | | £0 | |
| EYC14 | Teuluoedd yn Gyntaf (Cymorth) | 30/09/2013 | 19/07/2013 | Na | | | (£3,255) | |
| HC02 | Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau: Refeniw | 30/09/2013 | 03/07/2013 | Na | | | £0 | |
| HC03 | Adsefydlu Pobl ag Anableddau Dysgu | 31/08/2013 | 08/01/2014 | Ie | | | | |
| RG19 | Ardaloedd Adfywio Strategol<br>Gwella Effeithlonrwydd Ynni Canolfan Fusnes Ynys Môn | 30/09/2013 | 05/09/2013 | Na | | | | |
| RG19 | Ardaloedd Adfywio Strategol | 30/09/2013 | 27/09/2013 | Na | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Canolfannau Hamdden Amlwch a Chaergybi | | | | | | | |
| RG19 | Ardaloedd Adfywio Strategol<br>Grant Eiddo a'r Amgylchedd | 30/09/2013 | 01/10/2013 | Ie | | | | |
| RG19 | Ardaloedd Adfywio Strategol<br>Strydluniau a Gwaith Amgylcheddol Biwmares, Bae Trearddur ac Amlwch | 30/09/2013 | 27/09/2013 | Na | | | | |
| RG19 | Ardaloedd Adfywio Strategol<br>Gwella Effeithlonrwydd Ynni a Pherfformiad yng Nghanolfannau Hamdden Llangefni a Chaergybi | 30/09/2013 | 03/09/2013 | Na | | | | |
| TRA16 | Grant ar gyfer Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol | 30/09/2013 | 02/07/2013 | Na | | | | |
| TRA23 | Teithio am Ddim | 30/09/2013 | 16/10/2013 | Ie | | | | |
| TRA26 | Maes Awyr Môn | 31/10/2013 | 23/07/2013 | Na | | | | |
| LA12 | Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | 31/10/2013 | 29/10/2013 | Na | | | | |
| HOU03 | Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai | 30/09/2013 | 29/04/2013 | Na | | | £8,306 | |
| EDU43 | Llwybrau dysgu | 31/10/2013 | 02/10/2013 | Na | | | £0 | |
| SOC07 | Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | 28/09/2013 | 27/09/2013 | Na | | | £0 | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EUR01 | Datblygu amgylchedd arfordirol Ynys Môn | 21/10/2013 | 02/12/2013 | Ie | | | | |
| EUR01 | Cronfa fuddsoddi leol Gogledd-orllewin Cymru 12-13 | 21/01/2014 | 27/01/2014 | Ie | | | | |
| EUR01 | Seilwaith Strategol ar Safleoedd ac mewn Adeiladau ar Ynys Môn 12 - 13 | 21/01/2014 | 28/01/2014 | Ie | | | | |
| BEN01 | Budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor 11-12 | 30/04/2012 | 30/04/2012 | Na | | (£56,118) | | |
| EDU15 | Grant effeithiolrwydd ysgolion 11-12 | 30/09/2012 | 26/09/2012 | Na | | | | |
| EUR01 | Cronfa fuddsoddi leol Gogledd-orllewin Cymru 11-12 | 03/04/2013 | 10/04/2013 | Ie | | | | |
| EUR01 | Seilwaith Strategol ar Safleoedd ac mewn Adeiladau ar Ynys Môn 11-12 | 21/01/2013 | 26/03/2013 | Ie | | | | |
| | **Cyfanswm** | | | | **24** | **(£259,309)** | **£5,051** | **11** |

**9.** Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r materion allweddol y tu ôl i'r addasiadau neu'r amodi a nodwyd ar dudalennau 7 i11.

| Cyf | Sylwadau i grynhoi | Diwygio |
|---|---|---|
| 1 | **Cymunedau yn Gyntaf - Amlwch (Strategaeth Ymadael)**<br>• Cymeradwywyd taliadau dileu swydd gwerth £12,753.26 gan Lywodraeth Cymru, ac fe'u gwnaed ym mis Medi 2013, y tu allan i'r cyfnod sy'n cael ei ardystio. Cafwyd arian ychwanegol gwerth £12,754.00 gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2013. | £12,754 |

| Cyf | Sylwadau i grynhoi | Diwygio |
|---|---|---|
| 2 | **Cymunedau yn Gyntaf - Swyddfa ganolog**<br>• Dileu gwariant a hawliwyd ddwywaith drwy gamgymeriad £12,512.06<br>• Gwnaed diwygiad o £349.68 er mwyn cywiro cyfanswm y gwariant a ddyrannwyd ar draws pob categori. | Dd/G – Amodwyd yr hawliad. Nid yw'r gwariant anghymwys hwn yn effeithio ar yr hawl i gael grant gan fod cyfanswm y gwariant yr aed iddo gan yr Awdurdod yn fwy na'r gwariant grant a gymeradwywyd. |
| 3 | **Cymunedau yn Gyntaf - Morawelon a London Road (Craidd)**<br>• Ni allai'r bartneriaeth ddarparu anfoneb ar gyfer un eitem gwerth £110.23 a ddewiswyd fel rhan o'r profion sylweddol a gynhaliwyd gennym. | Dd/G – Amodwyd yr hawliad. |
| 4 | **Cymunedau yn Gyntaf - Morawelon a London Road (Di-graidd)**<br>• Roedd un eitem o wariant gwerth £160.00 a ddewiswyd fel rhan o'r profion sylweddol a gynhaliwyd gennym yn anghymwys.<br>• At hynny, nodwyd gorddatganiad o £567.00 yn y rhestr fanwl o gostau Gweithwyr Ieuenctid a roddwyd i ni gan y bartneriaeth. | Dd/G – Amodwyd yr hawliad. Nid yw'r gwariant anghymwys hwn yn effeithio ar yr hawl i gael grant gan fod cyfanswm y gwariant yr aed iddo gan yr Awdurdod yn fwy na'r gwariant grant a gymeradwywyd. |

| Cyf | Sylwadau i grynhoi | Diwygio |
| --- | --- | --- |
| 5 | **Cymunedau yn Gyntaf - Ward Tudur**<br>• Nodwyd bod un eitem o wariant gwerth £250 i'w phriodoli i gyfraniad a wnaed at ginio Nadolig ar gyfer gwirfoddolwyr y bartneriaeth. Nid yw'r eitem hon yn gymwys yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd yn y cyfarwyddiadau ardystio.<br>• Diwygiwyd cyfanswm y gwariant a ddyrannwyd ar draws pob categori £187.20. | Dd/G – Amodwyd yr hawliad ar gyfer y sylw cyntaf. Ni ddiwygiodd yr Awdurdod yr hawliad ar gyfer y sylw cyntaf. Nid effeithiodd yr ail sylw ar y swm a hawliwyd am ei fod yn ailddosbarthiad o wariant. |
| 6 | **Ardrethi Annomestig Cenedlaethol**<br>• Nid oedd gostyngiad mewn Gwerth Ardrethol y rhoddwyd gwybod amdano gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi'i brosesu. Nodwyd bod y rheolwyr wrthi'n cysoni cyfanswm y Gwerth Ardrethol yn ôl rhestrau Asiantaeth y Swyddfa Brisio â chyfanswm Gwerth Ardrethol eiddo a gynhwysir yn system Northgate yr Awdurdod.<br>• Nodwyd gwallau o ran gweithredu'r rhyddhad canlynol;<br>- Rhyddhad elusennol gorfodol.<br>- Rhyddhad atodol dewisol – Llinellau 17 a 18<br>• Nodwyd hefyd fod ceisiadau am daliad wedi'i ohirio wedi'u derbyn a'u cymeradwyo ond nad oedd Llinell 1 yr hawliad wedi'i diwygio er mwyn adlewyrchu hyn.<br>• Diwygiwyd yr hawliad mewn perthynas ag addasiad â llaw a gyhoeddwyd a oedd yn ymwneud â rhyddhad gorfodol ar gyfer Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol. | (£214,995) |

| Cyf | Sylwadau i grynhoi | Diwygio |
|---|---|---|
| 7 | **Grant Effeithiolrwydd Ysgolion 2012-13**<br>• Nodwyd na chafodd tanwariant o £634.77 gan ysgolion uwchradd o ran y Grant Amddifadedd Disgyblion a ddyrannwyd iddynt ei gynnwys yn y gwaith cyfrifo er mwyn pennu swm y tanwariant sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru. Dylid lleihau swm y gwariant yr aed iddo o £637,286.11 i £636,651.34, a dylid cynyddu'r tanwariant sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru i £6,398.66 o £5,763.89.<br>• Nid yw'r Cyngor wedi gallu rhoi tystiolaeth i ni i ddilysu bod y gwariant £2,613.60 yr aed iddo gan ysgolion, er mwyn prynu dwy raglen, wedi'i dalu.<br>• Swm yr arian grant a ddirprwyir yn uniongyrchol i ysgolion yw £417,775 (56% o gyfanswm yr arian), sy'n llai na'r isafswm trothwy o 75% sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.<br>• Nid yw'r Cyngor wedi gallu rhoi tystiolaeth i ni fod y cynllun gwariant a baratowyd ac a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer y grant wedi'i adolygu a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Nid yw ein hardystiad yn amodol yn hyn o beth. | Dd/G – Amodwyd yr Hawliad. |
| 8 | **Ffurflen Pensiynau Athrawon**<br>• Cyfrifwyd y ffigur ar gyfer cyflog cyfrannol drwy grosio i fyny gyfraniadau'r cyflogwr gan na all y system gyflogres a ddefnyddir gan yr Awdurdod ddarparu adroddiad ar gyflog cyfrannol i ategu'r ffurflen hawlio.<br>• Nodwyd bod y cyfraniadau sy'n ymwneud â dau o'r 20 o athrawon a brofwyd gennym wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r gyfradd haenog anghywir. Mae'r ddau achos yn ymwneud ag athrawon cyflenwi yr oedd eu cyflogau cyfwerth ag amser llawn yn seiliedig ar yr amser a gofnodwyd ar eu taflenni amser. | Dim effaith ar swm y cyfraniadau a dalwyd. |
| 9 | **Grant Gwella Adeiladau Ysgolion Trosiannol**<br>• Fe'i diwygiwyd er mwyn dileu gwariant anghymwys yr aed iddo yn 2011/12 | (£30,305) |

| Cyf | Sylwadau i grynhoi | Diwygio |
|---|---|---|
| 10 | **Cymraeg mewn Addysg**<br>• Mae Paragraff 20 o'r Cyfarwyddiadau Ardystio yn nodi na ddylid defnyddio arian grant o'r Grant Cymraeg mewn Addysg i helpu i gaffael cyfarpar TGCh na thalu costau cysylltedd. O'r profion a gynhaliwyd gennym ar brif ddogfennau, nodwyd gwariant gwerth £2,937 sy'n ymwneud â chyfarpar TGCh. Mae'r gwariant hwn yn ymwneud â phrosiectau Canlyniadau Ychwanegol 2, y mae grant gwerth £17,000 wedi'i ddyrannu i'r Awdurdod ar eu cyfer ac y mae wedi gwario £18,949 mewn perthynas â hwy. Nid yw'r ffurflen hawlio wedi'i diwygio o ran y canfyddiad hwn. | Dd/G – Ni ddiwygiodd yr Awdurdod yr hawliad. |
| 11 | **Dechrau'n Deg**<br>Gwnaed diwygiad o £1,234 er mwyn cywiro cyfanswm y gwariant a ddyrannwyd ar draws pob categori. | Ailddosbarthu gwariant, felly dim effaith. |
| 12 | **Teuluoedd yn Gyntaf**<br>• Diffyg gweithdrefnau digonol ar gyfer monitro trydydd partïon.<br>• Gwnaed diwygiad o £3,255 er mwyn dileu gwariant anghymwys yr aed iddo yn 2013/14; | (£3,255) |
| 13 | **Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau**<br>• Gwnaed diwygiad o £553 er mwyn cywiro cyfanswm y gwariant a ddyrannwyd ar draws pob categori. | Ailddosbarthu gwariant, felly dim effaith. |
| 14 | **Adsefydlu Pobl ag Anableddau Dysgu**<br>• Ni allai'r Cyngor roi copi wedi'i lofnodi i ni o Gytundeb Lefel Gwasanaeth sydd ar waith gyda thrydydd parti.<br>• Mae'r Cyngor wedi dosrannu costau staff ar gyfer pedwar aelod o staff i wariant cymwys o dan weithgareddau a ariennir drwy grant. Dyrennir costau staff ar sail amcangyfrif o amser ac nid ar sail dyraniad amser penodol drwy ddefnyddio taflenni amser. Felly, ni allai'r Cyngor roi tystiolaeth i ategu canran yr amser staff a ddosrannwyd. | Dd/G – Amodwyd yr Hawliad. |

| Cyf | Sylwadau i grynhoi | Diwygio |
|---|---|---|
| 15 | **Ardaloedd Adfywio Strategol: Grant Eiddo a'r Amgylchedd**<br>• Ni ellid nodi tri o'r chwe phrosiect a arweinir gan Gyngor Sir Ynys Môn a gafodd arian o'r cynllun grant Eiddo a'r Amgylchedd yn 2011/12 ar y gofrestr asedau, a hynny am fod y prosiectau wedi'u cynnwys fel rhan o gynlluniau mwy o faint. Fodd bynnag, nid oes unrhyw drywydd archwilio er mwyn nodi o fewn pa gynlluniau y maent wedi'u cynnwys. Ers hynny mae'r Awdurdod wedi newid ei weithdrefn ar gyfer cofnodi asedau sefydlog ac roedd yn bosibl olrhain pob prosiect a ariannwyd yn 2012/13 i'r gofrestr asedau. | Dd/G – Amodwyd yr Hawliad. |
| 16 | **Grant ar gyfer Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol**<br>• Gallai'r Awdurdod ddarparu tystiolaeth o'r swm cymeradwy o arian grant a roddwyd i'r consortiwm yn gyffredinol ar gyfer cynlluniau Cyfalaf a Refeniw yn ymwneud â Diogelwch ar y Ffyrdd. Fodd bynnag, ni allai'r Awdurdod ddarparu tystiolaeth i ategu'r symiau hyn a ddyrannwyd i bob Awdurdod o fewn y consortiwm. O ganlyniad, ni allwn gytuno ar y ffigur ar gyfer cyfanswm y dyraniad ar y datganiad alldro. | Dd/G – Amodwyd yr Hawliad. |
| 17 | **Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy**<br>• Wrth brofi prif ddogfennau nodwyd eitem o wariant anghymwys gwerth £27,944 a oedd yn ymwneud â gwaredu gwastraff.  At hynny, nodwyd rhagor o wariant anghymwys wrth brofi taliadau mewnol a oedd yn gysylltiedig â cherbydau fflyd a oedd yn cyfateb i £2,244.21.<br>• Nid yw'r gwariant anghymwys hwn yn effeithio ar yr hawl i gael grant gan mai cyfanswm y gwariant yr aed iddo gan yr Awdurdod mewn perthynas â'r rhaglen uchod yn ystod y cyfnod hawlio oedd £2,286,265.43, sy'n dangos gorwariant o £422,471.43 o gymharu â'r gwariant grant a gymeradwywyd, sef £1,863.794.00. | Dd/G – Amodwyd yr Hawliad.<br>Nid yw'r gwariant anghymwys hwn yn effeithio ar yr hawl i gael grant am fod cyfanswm y gwariant yr aed iddo gan yr Awdurdod yn fwy na'r gwariant grant a gymeradwywyd. |

| Cyf | Sylwadau i grynhoi | Diwygio |
|---|---|---|
| 18 | **Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai**<br>• Nodwn mai'r swm a dalwyd gan yr Awdurdod ar y ffurflen hawlio yw £1,885,950. Dengys cofnodion sylfaenol yr awdurdod y dylai'r swm hwn fod yn £1,885,975, gwahaniaeth o £25. Nid yw'r Awdurdod wedi diwygio ffurflen 2012/13 o ran y gwahaniaeth hwn.<br>• Dylid defnyddio'r gofyniad ariannu cyfalaf agoriadol fel sail i gyfrifo cell 0385 yn hytrach na'r gofyniad ariannu cyfalaf cymhorthdal agoriadol.<br>• Gwnaed nifer o ddiwygiadau oherwydd gwerthoedd anghywir a nodwyd yn y papurau gwaith ac yn hawliad y flwyddyn flaenorol. | £8,306 |
| 19 | **Llwybrau Dysgu**<br>• Roedd y gwaith a wnaed ar gyfer hawliad eleni yn cynnwys cadarnhad bod Cytundebau Lefel Gwasanaeth a lofnodwyd ar gael ar gyfer pob un o'r tri sefydliad partner. Fodd bynnag, nodwyd bod arian wedi'i wario cyn i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gael ei lofnodi ar gyfer un partner.<br>• Gwnaed diwygiad er mwyn capio swm y gwariant cymwys er mwyn adlewyrchu'r grant a ddyrannwyd. Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar yr hawl i gael grant. | Dd/G – Amodwyd yr Hawliad. |
| 20 | **Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol**<br>• Wrth brofi prif ddogfennau nodwyd gwahaniaeth o £3 rhwng balans yr anfoneb, sef £1,947, a'r swm a gofnodwyd yn y cyfriflyfr cyffredinol, sef £1,950. Cyfanswm y gwariant yr aed iddo gan yr Awdurdod ar y rhaglen uchod yn ystod y cyfnod hawlio £313,752.53, sy'n fwy na'r gwariant grant a gymeradwywyd, sef £309,710. | Dd/G – Amodwyd yr Hawliad.<br>Nid yw'r gwariant anghymwys hwn yn effeithio ar yr hawl i gael grant am fod cyfanswm y gwariant yr aed iddo gan yr Awdurdod yn fwy na'r gwariant grant a gymeradwywyd. |
| 21 | **Datblygu Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn**<br>• Cynhwyswyd eitemau o wariant nas talwyd tan ar ôl diwedd y cyfnod hawlio yn y swm a hawliwyd. | Dd/G – Amodwyd yr Hawliad. |

| Cyf | Sylwadau i grynhoi | Diwygio |
|---|---|---|
| 22 | **Grant Effeithiolrwydd Ysgolion 2011-12**<br>• Nodwyd gennym fod isafswm y gwariant yr aed iddo gan yr Awdurdod mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal, sef £16,348, yn llai na'r swm a oedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru, sef £19,351.<br>• Nodwyd nad yw canrannau'r gwariant yr aed iddo mewn perthynas â meysydd blaenoriaeth Llythrennedd, Rhifedd a Thlodi yn ddim amgen nag amcangyfrifon o'r gyfran o bob cod cost sy'n ymwneud â phob blaenoriaeth. Felly, ni fu'n bosibl i ni gadarnhau a yw'r symiau a ddangosir ar gyfer pob maes â blaenoriaeth yn ôl y ffurflen hawlio yn gywir.<br>• Ni fu'n bosibl i'r Awdurdod ddarparu tystiolaeth bod yr arian a ddirprwywyd i ysgolion wedi'i wario at y dibenion y cafodd ei roi ar eu cyfer.<br>• Ni fu'n bosibl i'r Awdurdod ddarparu tystiolaeth bod yr arian a ddatganolwyd i bartneriaid cydweithredu wedi'i wario at y dibenion y cafodd ei roi ar eu cyfer.<br>• Mae'r Awdurdod wedi dirprwyo 70% o'r cyllid i ysgolion yn hytrach na 75%. Nid yw'r Awdurdod wedi esbonio pam yn union y gwnaeth hyn i Lywodraeth Cymru, ond mae wedi hysbysu'r tîm archwilio bod y canlyniad a gyflawnwyd drwy ddefnyddio'r arian grant yn ganolog yn hytrach nag mewn modd dirprwyedig yn union yr un peth a bod y gweithgareddau a gyflawnwyd yn unol â'r cynllun gwreiddiol. Fe'n hysbyswyd bod y lefel is o ddirprwyo i'w phriodoli i'r ffaith bod yr Awdurdod wedi talu'n ganolog am nifer o'r gweithgareddau.<br>• Ni fu'n bosibl i ni nodi a oedd 10 o'r 25 o eitemau a brofwyd yn gymwys (a oedd yn werth £121,658.22 allan o £184,312.16) am nad oedd digon o wybodaeth i gadarnhau natur y gwariant hwn.<br>• Oherwydd y problemau a gafwyd ac a nodwyd uchod, ni fu'n bosibl i ni benderfynu ar y dosbarthiad cywir ar gyfer 22 o'r 25 o eitemau a brofwyd.<br>• Ni fu'n bosibl i ni gadarnhau a yw dosraniadau i'r hawliad ar gyfer 10 o'r 25 o eitemau a brofwyd (sy'n werth £103,810.33 allan o £184,312.16) yn deg am nad yw'r Awdurdod wedi rhoi rhesymeg ddigonol dros y dull dosrannu a fabwysiadwyd. | Dd/G – Amodwyd yr Hawliad. |

| Cyf | Sylwadau i grynhoi | Diwygio |
| --- | --- | --- |
| 23 | **Cronfa fuddsoddi leol Gogledd-orllewin Cymru 11-12**<br>• Ar gyfer dwy anfoneb a samplwyd, ni fu'n bosibl i ni olrhain yr anfonebau gwreiddiol ar gyfer gwariant o £838 ac £20 er bod yr awdurdod yn gallu rhoi copïau heb eu hardystio i ni.<br>• Ar gyfer dwy o'r eitemau a samplwyd o fewn is-gategori costau staff, nodwyd treuliau cyflog a dalwyd yn 2011 ac a hawliwyd yn 2012. Roedd y swm dan sylw yn cyfateb i £10,759.12.<br>• Cynhaliwyd profion ar y broses o gaffael dau gontract gwariant cyfalaf i weld a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau'r grant perthnasol a chanllawiau'r awdurdod ei hun. Gwnaethom nodi, er bod y contractau wedi'u caffael yn unol â Phrotocol Prosesu Grant Cronfa Fuddsoddi Leol Gogledd-orllewin Cymru, nad oedd y broses o gaffael un o'r contractau yn cydymffurfio â rheolau caffael mewnol yr awdurdod, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddi fod yn destun gweithdrefnau tendro llawn. Ni wnaeth yr awdurdod hyn ond cafodd dri dyfynbris ar gyfer y contract.<br>• Nodwn nad oedd y Cyngor wedi rhoi'r hawliad grant i'r archwilwyr tan 15fed Ebrill 2013, sy'n fwy na'r amser paratoi a awgrymir yn y cyfarwyddiadau ardystio, sef pythefnos, ac ar ôl y dyddiad cau ar gyfer Adroddiad y Cyfrifwyr, sef chwe wythnos ar ôl diwedd y cyfnod hawlio. | Dd/G - Amodwyd yr Hawliad. |
| 24 | **Seilwaith Strategol ar Safleoedd ac mewn Adeiladau ar Ynys Môn 11-12**<br>• Talwyd £74,379 ymlaen llaw am wasanaeth nad yw wedi'i ddarparu ac ni roddir unrhyw awgrym o ran pryd y caiff ei ddarparu neu a gaiff ei ddarparu ar ôl i'r prosiect ddod i ben.<br>• Nodwn nad oedd y Cyngor wedi rhoi'r hawliad grant i'r archwilwyr tan 15fed Ebrill 2013, sy'n fwy na'r amser paratoi a awgrymir yn y cyfarwyddiadau ardystio, sef pythefnos. | Dd/G - Amodwyd yr hawliad |
| 25 | **Budd-dal Tai a Chymhorthdal Treth yr Awdurdod 11-12 a 12-13**<br>Nodwyd sawl mater gennym wrth ardystio'r hawliad hwn. Nodwyd y materion hyn yn fanwl yn y llythyr a anfonwyd gyda'r hawliad wedi'i ardystio..<br><br>Mae'r materion hyn a nodwyd yn ystod archwiliadau 2011-12  a 2012-13 yn cael eu trafod ar wahân gyda staff Budd-daliadau Tai'r Awdurdod. | (£26,763) |
| | **Cyfanswm effaith y diwygiadau ar yr Awdurdod** | **(£254,258)** |

# Argymhellion

**10.** Rydym wedi rhoi sgôr risg i bob argymhelliad ac wedi cytuno ar y camau y bydd angen i reolwyr eu cymryd. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr argymhellion hyn yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

| Blaenoriaeth 1 | Blaenoriaeth 2 | Blaenoriaeth 3 |
|---|---|---|
| Materion sy'n hanfodol ac yn berthnasol i'ch trefniadau cyffredinol ar gyfer rheoli grantiau a ffurflenni neu gydymffurfio â gofynion cynlluniau. Rydym o'r farn y gallai'r materion hyn olygu nad ydych yn bodloni gofyniad cynllun grant neu'n lleihau (lliniaru) risg. | Materion sy'n cael effaith bwysig ar eich trefniadau ar gyfer rheoli grantiau a ffurflenni neu gydymffurfio â gofynion cynlluniau, ond nad oes angen gweithredu arnynt ar unwaith. Mae'n bosibl eich bod yn dal i fodloni gofynion cynllun yn llawn neu'n rhannol neu'n lleihau (lliniaru) risg yn ddigonol ond erys y gwendid yn y system. | Materion a fyddai, pe caent eu cywiro, yn gwella eich trefniadau ar gyfer rheoli grantiau a ffurflenni neu gydymffurfio â gofynion cynlluniau yn gyffredinol, ond nad ydynt yn hanfodol i'r system gyffredinol. Ar y cyfan mae'r rhain yn faterion sy'n ymwneud ag arfer gorau y credwn y byddent o fudd i chi petaech yn eu cyflwyno. |

| Mater | Goblygiad | Argymhelliad | Blaenoriaeth | Sylw | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Ni pharatowyd yr hawliad yn gywir.<br>E.e.:<br>• Rhifyddeg<br>• Dosraniad/ amcangyfrifedig/ Defnyddiwyd cyfraddau canrannol<br>• Croniadau/sail arian parod<br>• Taliadau ar y cyfrif<br>• Dosbarthiad anghywir | • Gellir amodi hawliadau<br>• Gall Llywodraeth Cymru adennill y grant<br>• Os caiff ei amodi bydd angen i Lywodraeth Cymru adennill unrhyw orhawliad<br>• Efallai nad yw'r Awdurdod wedi hawlio'r swm cyfan y mae'n gymwys i'w gael<br>• Nid yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant | A1 Er mwyn cadarnhau bod ffurflenni hawlio wedi'u cwblhau'n llawn a'u bod yn unol â'r canllawiau cwblhau dylai pob ffurflen a gwblhawyd gael ei gwirio'n annibynnol yn erbyn dogfennaeth ategol er mwyn lleihau'r risg na chaiff gwall ei ganfod. | 2 | Mae gweithdrefn sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob hawliad terfynol a gyflwynir i'w archwilio gael ei adolygu'n annibynnol. Caiff y weithdrefn bresennol hon ei diweddaru er mwyn adlewyrchu materion a godwyd a'i hailddosbarthu i'r tîm gyda phwyslais penodol ar groniadau. Disgwylir y bydd papurau gwaith archwilio wedi'u llunio ar yr adeg hon er mwyn sicrhau bod dogfennaeth ategol yn cael ei gwirio a'i chysoni â'r hawliad ac amodau'r grant a'r cyfarwyddiadau ardystio. Nodir hyn yn y ddogfen gweithdrefnau ddiwygiedig. | Cydgysylltydd Grantiau<br>31 Rhagfyr Medi 2014 |

| Mater | Goblygiad | Argymhelliad | | Blaenoriaeth | Sylw | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diffyg tystiolaeth ategol i ategu'r hawliad am arian<br>E.e.:<br>• Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth<br>• Nid oes unrhyw anfonebau ar gael<br>• Ni ddarparwyd unrhyw bapurau gwaith i ategu'r dosraniad | • Gellir amodi hawliadau<br>• Os caiff ei amodi bydd angen i Lywodraeth Cymru adennill unrhyw orhawliad<br>• Nid yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant<br>• Nid oes unrhyw drywydd archwilio i gadarnhau bod arian cyhoeddus wedi'i ddefnyddio'n briodol | A2 | Dylai'r Awdurdod roi systemau a rheolaethau ar waith er mwyn sicrhau bod yr hawliad wedi'i ategu'n llawn gan ddogfennaeth briodol megis argraffiadau cyfriflyfr/anfonebau/cyfrifiad o ddosraniadau. | 2 | Ar gyfer 2013-14 ymlaen mae pob anfoneb bellach yn cael ei sganio ar system Civica ac, felly, gellir ei hadalw'n hawdd lle mae'r Awdurdod yn mynd i wariant yn uniongyrchol. Lle mae Sefydliadau 3ydd Parti yn mynd i wariant dylid cyflwyno tystiolaeth o'u gwariant fel rhan o'r broses fonitro y cyfeirir ati yn A4.<br><br>Dylai'r dosraniad o gostau gael ei ategu gan bapurau gwaith a chaiff hyn ei gynnwys mewn cyfarwyddiadau grant diwygiedig. | Rheolwyr Prosiect a Cyfrifwyr Grantiau<br>Yn Parhau |

| Mater | Goblygiad | Argymhelliad | | Blaenoriaeth | Sylw | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Heb ei gymeradwyo cynhwyswyd gwariant anghymwys.<br>E.e.:<br>• Nid yw'r gweithgaredd yn y cynllun y cytunwyd arno<br>• Mae gwerth y gweithgaredd yn fwy na'r hyn a nodir yn y cynllun y cytunwyd arno<br>• Mae'r gweithgaredd y tu allan i'r cyfnod hawlio | • Gellir amodi hawliadau<br>• Gall Llywodraeth Cymru adennill y grant<br>• Os caiff ei amodi bydd angen i Lywodraeth Cymru adennill unrhyw orhawliad<br>• Efallai fod yr Awdurdod yn hawlio grant ar gyfer rhandaliadau a gafwyd eisoes<br>• Nid yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant<br>• Atelir y taliad<br>• Caiff y grant ei atal neu ei leihau mewn blynyddoedd i ddod | A3 | Dim ond gwariant cymwys yr aed iddo o fewn y cyfnod hawlio y dylid ei gynnwys yn yr hawliad. Dylid ceisio cyngor Llywodraeth Cymru cyn cwblhau hawliad os oes unrhyw amheuaeth ynghylch cymhwysedd y gwariant.<br><br>Dylai'r Awdurdod sicrhau y caiff telerau ac amodau'r arian grant eu hadolygu'n ofalus er mwyn nodi unrhyw ofynion ychwanegol/penodol y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy. Dylid rhoi systemau a phrosesau ar waith fel y bo'n briodol er mwyn lleihau'r risg na chaiff y gofynion hyn eu bodloni. | 1 | Bydd Cyfrifwyr Grantiau yn sicrhau y caiff telerau ac amodau pob grant eu cadw ar ffeil ac y cyfeirir atynt wrth gwblhau'r hawliadau. Bydd y Cydgysylltydd Grantiau yn ceisio cyngor gan y corff ariannu perthnasol ar gymhwysedd gwariant a gynhwyswyd yn y datganiad ar ddiwedd y flwyddyn os oes unrhyw amheuaeth ynghylch cymhwysedd. Caiff cyfarwyddiadau grant eu hadolygu hefyd er mwyn cyfyngu'r gwariant ar gyfer cynnal profion i'r trafodion grant yn hytrach na'r canolfannau cost cyfan er mwyn lleihau'r risg y caiff gwariant anghymwys ei gynnwys. | Cydgysylltydd Grantiau<br>31 Rhagfyr Medi 2014 |

| Mater | Goblygiad | Argymhelliad | Blaenoriaeth | Sylw | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|
| Ni chaiff trydydd partïon eu monitro<br>E.e.:<br>• Nid oes unrhyw systemau ar waith rhwng yr Awdurdod a'r trydydd parti er mwyn sicrhau bod grant wedi'i ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd<br>• Nid yw trefniadau monitro ar waith neu mae'r trefniadau yn anghyson. | • Gellir amodi hawliadau<br>• Nid yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant<br>• Nid oes unrhyw drywydd archwilio i gadarnhau bod arian cyhoeddus wedi'i ddefnyddio'n briodol | A4 Dylai fod gan yr Awdurdod weithdrefnau digonol ar waith i fodloni ei hun, ei archwilydd a'r corff sy'n talu'r grant mai dim ond gwariant yr aed iddo gan drydydd partïon sydd wedi'i gynnwys yn yr hawliad. Gall gweithdrefnau o'r fath gynnwys cael datganiadau a ardystiwyd yn annibynnol gan drydydd partïon; rhoi cytundebau Lefel Gwasanaeth a lofnodwyd ar waith gyda phob partner; sicrhau bod adroddiadau monitro chwarterol yn cael eu darparu gan bartner yr Awdurdod; ymweliadau achlysurol â phartneriaid a hapwirio cymhwysedd ar sail sampl; cytuno ar dargedau a dangosyddion perfformiad allweddol gyda phartneriaid er mwyn monitro canlyniadau. | 1 | Pan fydd systemau monitro yn methu, codir y mater gyda'r Rheolwyr Prosiect yn unigol a bydd y Cydgysylltydd Grantiau yn rhoi systemau monitro ar waith. Ymdrinnir â mater Monitro gan 3ydd Partïon fel rhan o'r Gweithdy Archwilio ac yn y Protocol Grantiau. Bydd Rheolwyr Prosiect yn sicrhau cydymffurfiaeth. | Rheolwyr Prosiect a Cyfrifwyr Grantiau<br>Yn Parhau |

| Mater | Goblygiad | Argymhelliad | | Blaenoriaeth | Sylw | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Diffyg cydymffurfiaeth â rheolau sefydlog ar gyfer dyfarnu contractau. E.e.:<br>• Ni ddilynwyd gweithdrefnau caffael yr awdurdod. | • Gellir amodi hawliadau<br>• Nid yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant | A5 | Dylid dyfarnu pob contract a gaiff ei ariannu ag arian grant yn unol â rheol sefydlog yr Awdurdod. Dylid cadw rhestr lawn o gontractau ar gyfer pob hawliad grant, ynghyd â chopïau o'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â dyfarnu'r tendr. | 1 | Dylid cynnal Gweithdy Archwilio bob blwyddyn er mwyn rhoi cyngor i Reolwyr Prosiect ac atgyfnerthu'r materion cydymffurfiaeth gan gynnwys caffael. Mae canllawiau hefyd ar gael i Reolwyr Prosiect drwy 'Monitor'. Penaethiaid Gwasanaethau i sicrhau cydymffurfiaeth. Roedd mater y contract yn achos neilltuol. | Rheolwyr Prosiect a Cyfrifwyr Grantiau<br>Yn Parhau |

Tudalen 49

| Mater | Goblygiad | Argymhelliad | | Blaenoriaeth | Sylw | Swyddog cyfrifol a dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nid yw'r hawliad yn gyson â'r cyfriflyfr cyffredinol.<br>E.e.:<br>• Defnyddio ffigurau amcangyfrifedig.<br>• Gwnaed addasiadau â llaw i'r ffurflenni hawlio ond nid adlewyrchwyd hynny yn y cyfriflyfr cyffredinol. | • Gellir amodi hawliadau<br>• Gall Llywodraeth Cymru adennill y grant<br>• Os caiff ei amodi bydd angen i Lywodraeth Cymru adennill unrhyw orhawliad<br>• Efallai nad yw'r Awdurdod wedi hawlio'r swm cyfan y mae'n gymwys i'w gael<br>• Efallai fod yr Awdurdod yn hawlio grant ar gyfer rhandaliadau a gafwyd eisoes<br>• Nid yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant<br>• Nid oes unrhyw drywydd archwilio i gadarnhau bod arian cyhoeddus wedi'i ddefnyddio'n briodol | A6 | Dylid gwneud gwaith cysoni cyn pob archwiliad er mwyn cadarnhau bod y ffigurau yn y ffurflen hawlio yn cyfateb i'r cyfriflyfr cyffredinol a dylid cadw copi o'r gwaith cysoni ar ffeil. | 1 | Darparwyd cysoniad gyda'r rhan fwyaf o'r hawliadau ar gyfer 2012-13. Bydd y Cyfrifwyr Grantiau yn sicrhau y caiff cysoniadau eu paratoi ar gyfer pob hawliad grant ar gyfer 2013-14. Adlewyrchir hyn yn y Cyfarwyddiadau Grant diwygiedig. | Cyfrifwyr Grantiau<br>Yn Parhau |

# Ffioedd

**11.** £163,206 yw ein ffi gyffredinol ar gyfer ardystio grantiau a ffurflenni ar gyfer 2012-13, sy'n fwy na'n hamcangyfrif gwreiddiol, sef rhwng £120k a £140k. Mae hyn i'w briodoli i'r cynnydd yn nifer y grantiau a'r ffurflenni sydd angen eu hardystio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

| Dadansoddiad o'r ffi fesul grant/ffurflen | 2012-13 | 2011-12 |
|---|---:|---:|
| Cymunedau yn Gyntaf: 2012-13: 10 hawliad (2011/12: 7 hawliad (2011/12) | £16,360 | £11,353 |
| Budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor | £42,746 | £54,354 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | £9,583 | £9,631 |
| Ffurflenni pensiynau athrawon | £3,238 | £3,317 |
| Grant effeithiolrwydd ysgolion | £8,937 | £9,089 |
| Grant Gwella Adeiladau Ysgolion Trosiannol | £3,048 | dd/g |
| Cymraeg mewn Addysg | £4,040 | dd/g |
| Dechrau'n Deg | £3,065 | £3,157 |
| Teuluoedd yn Gyntaf (Cymorth) | £4,573 | £3,997 |
| Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau: Refeniw | £3,372 | £3,397 |
| Adsefydlu Pobl ag Anableddau Dysgu | £3,226 | £3,313 |
| Ardaloedd Adfywio Strategol: 2012/13: 5 hawliad (2011/12: 1 hawliad) | £19,257 | £3,963 |
| Grant ar gyfer Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol | £1,978 | £2,076 |

| Dadansoddiad o'r ffi fesul grant/ffurflen | 2012-13 | 2011-12 |
|---|---|---|
| Teithio am Ddim | £2,394 | £2,428 |
| Maes Awyr Môn | £1,032 | £1,051 |
| Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | £3,224 | £2,631 |
| Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai | £6,053 | £4,442 |
| Llwybrau dysgu | £2,691 | £2,395 |
| Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | £2,356 | £2,350 |
| Datblygu amgylchedd arfordirol Ynys Môn | £5,880 | £5,536 |
| Cronfa fuddsoddi leol Gogledd-orllewin Cymru | £7,533 | £8,194 |
| Seilwaith Strategol ar Safleoedd ac mewn Adeiladau ar Ynys Môn | £7,373 | £7,540 |
| Grant Trafnidiaeth | dd/g. | 3,220 |
| Draenio Tir | dd/g | 3,611 |
| Ffurflen Ddata | £400 | dd/g |
| Adroddiad Blynyddol ar Grantiau | £852 | dd/g |
| **Cyfanswm y ffi** | **£163,206** | **£151,045** |

| | |
|---|---|
| Wales Audit Office | Swyddfa Archwilio Cymru |
| 24 Cathedral Road | 24 Heol y Gadeirlan |
| Cardiff CF11 9LJ | Caerdydd CF11 9LJ |
| Tel: 029 2032 0500 | Ffôn: 029 2032 0500 |
| Fax: 029 2032 0600 | Ffacs: 029 2032 0600 |
| Textphone: 029 2032 0660 | Ffôn Testun: 029 2032 0660 |
| E-mail: info@wao.gov.uk | E-bost: info@wao.gov.uk |
| Website: www.wao.gov.uk | Gwefan: www.wao.gov.uk |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Diweddariad ar y rhaglen waith perfformiad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio 23 Medi 2014

## Cyngor Sir Ynys Môn

### Archwiliad o'r Cynllun Gwella

Archwiliad o waith cyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella. Mae hwn yn disodli'r Llythyr Asesu Gwelliant 1 (IAL1).

Amseru – Gwaith wedi'i gwblhau a thystysgrif wedi'i dyfarnu i'r Cyngor ym mis Mehefin 2014.

### Archwiliad Asesu Perfformiad

Archwiliad o waith cyflawni'r ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad. Mae hwn yn disodli'r Llythyr Asesu Gwelliant 2 (IAL2).

Amseru – Wedi'i gynllunio ar gyfer Tachwedd 2014.

### Asesiad Corfforaethol

Mae ail flwyddyn y cylch pedair blynedd o asesiadau corfforaethol yn dechrau yn 2014. Y bwriad yw cynnal asesiad corfforaethol Ynys Môn yn ystod Gaeaf 2014-15 a bydd yn adolygu gallu a galluogrwydd y Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus. Bydd yr asesiad corfforaethol yn disodli'r angen am Adroddiad Gwella Blynyddol yn 2015.

Amseru – Chwefror 2015.

### Adolygiad o'r Sefyllfa Ariannol

Gwaith ar y sefyllfa ariannol yn canolbwyntio ar iechyd ariannol, effeithiolrwydd trefniadau pennu cyllidebau, systemau llywodraethu ariannol/llwyddiant wrth sicrhau'r arbedion gofynnol.

Amseru – Mai i Awst 2014.

Crynodeb cenedlaethol – Bydd yr astudiaeth hon yn crynhoi gwaith lleol ar sefyllfa ariannol cynghorau ac yn rhoi darlun o gydnerthedd ariannol ledled Cymru. Disgwylir ei gwblhau erbyn Tachwedd 2014.

### Adolygiad Llywodraethu

Adolygiad lleol o effeithiolrwydd trefniadau craffu a Bwrdd y Rhaglen. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at yr asesiad corfforaethol.

Amseru – Gorffennaf i Hydref 2014.

## Adolygiad rheoli perfformiad

Adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau'r Cyd-fwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer Cynghorau Sir Ynys Môn a Gwynedd.

Amseru – Gorffennaf i Medi 2014.

## Astudiaethau Llywodraeth Leol

**Gwaith cydlynol i fynd i'r afael â'r galw ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Annibyniaeth ar gyfer Pobl Hŷn**

Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar gefnogi pobl hŷn i gadw'u hannibyniaeth y tu allan i'r system iechyd a gofal drwy asesu pa mor effeithiol yw gwasanaethau ategol wrth eu helpu i fyw'n annibynnol.

Amseru – I'w gadarnhau.

**Cyflawni gyda llai – Gwasanaethau Hamdden**

Bydd yr astudiaeth hon yn olrhain lefelau buddsoddiad mewn gwasanaethau hamdden dros y blynyddoedd diwethaf gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddatblygwyd ar gyfer astudiaeth cyflawni gyda llai 2013-14 ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd.

Amseru – I'w gadarnhau.

## Astudiaethau Llywodraeth Leol Blaenorol 2013-14

**Cyflawni gyda llai – effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a dinasyddion**

Mae'r astudiaeth wedi'i chwblhau ac mae'r adroddiad yn cael ei baratoi.

**Diwygiadau lles**

Mae'r astudiaeth wedi'i chwblhau ac ni fydd unrhyw allbwn penodol lleol yn deillio o'r gwaith hwn, dim ond un adroddiad cenedlaethol.

**Diogelu**

Mae'r astudiaeth wedi'i chwblhau a phrif allbynnau'r gwaith fydd adroddiad cenedlaethol a chrynodeb lleol byr yn rhoi prif ganfyddiadau'r gwaith maes hwn.

# Gwaith penodol i Ynys Môn

| Adolygiad lleol |
| --- |
| **Cyllid**<br>Adolygiad lleol o adnoddau rheoli ariannol. Bydd elfen allweddol o'n Hasesiad Corfforaethol yn canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn rheoli ei adnoddau ariannol. Fodd bynnag, mae'r dyddiadau rydym yn bwriadu cynnal ein Hasesiad Corfforaethol yn golygu y bydd hi'n rhy hwyr i'r canlyniadau ddylanwadu ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer 2015-16. Felly mae'r Cyngor wedi cytuno y dylem adolygu pa mor gadarn yw ei drefniadau rheoli ariannol yn gynnar yn 2014-15.<br><br>Amseru – Gorffennaf i Awst 2014. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ADRODDIAD: | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD: | 23 MEDI 2014 |
| PWNC: | ADRODDIAD CYNNYDD AR GASGLU DYLEDION |
| DEILYDD(ION) PORTFFOLIO: | CYNGHORYDD H E JONES |
| SWYDDOG(ION) ARWEINIOL: | RICHARD MICKLEWRIGHT |
| SWYDDOG CYSWLLT: | GERAINT H. JONES |
| GWEITHRED: | ER GWYBODAETH |

**RHAGARWEINIAD**

Bu’r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf 2014 yn ystyried Datganiad Cyfrifon Drafft y Cyngor am 2013/14 a oedd yn delio â’r cyfnod 1 Ebrill 2013 i 31 Mawrth 2014. Yn y drafodaeth yn y Pwyllgor fe fynegodd yr Aelodau bryderon ynglŷn â lefel y Dyledwyr a’r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg neu amheus o fewn y Datganiad Cyfrifon Drafft (Nodyn 24). Mynegodd yr Aelodau farn bod balans dyledwr tymor byr o £29.3m yn ormod o ystyried y pwysau ariannol cynyddol ar yr Awdurdod.

Gofynnodd yr Aelodau am i adroddiad cynnydd gael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi yng nghyswllt unrhyw gamau a gymerwyd neu a fydd wedi eu cynllunio i leihau’r ffigwr hwn.

**CAMAU A GYMERWYD**

Nodwyd rhai meysydd allweddol mewn ymdrech i ostwng y ffigwr hwn:-

<u>Man Ddyledion (Civica)</u>

- Dyled sy'n ddyledus gan gyrff cyhoeddus i'r Awdurdod - £1.1m;
- Dyled dros £10,000 sy'n ddyledus gan gwmnïau cyfyngedig i'r Awdurdod - £0.5m;
- Dyled dros £10,000 sy'n ddyledus gan unigolion i'r Awdurdod - £0.5m;
- Dyled oedd wedi ei gohirio gyda phridiant yn cael ei osod ar eiddo lle'r oedd y person wedi marw, ond nad oedd y broses o werthu’r eiddo wedi ei gwblhau - £0.5m;
- Dyled a oedd yn dod yn agos at y cyfyngiadau a osodwyd gan y Statud Cyfyngiadau h.y. 6 mlynedd - £0.1m (mae hwn yn £0.4m ond £0.3m sydd wedi ei gynnwys yn y 4 categori uchod);
- Dyled dros £10,000 sy'n ddyledus gan elusennau neu sefydliadau dielw - £0.04m.

<u>CYFANSWM £ 2.74m</u>

<u>Treth Gyngor a’r Dreth Fusnes (Northgate)</u>

- Nodi achosion ar gyfer y tebygrwydd o gamau /camau traddodi i garchar neu gosod pridiant ar eiddo – <u>£0.3m</u>.

**ADNODDAU YCHWANEGOL**

Cafodd yr adnoddau ychwanegol a ganlyn eu cydnabod ar unwaith:-

- Tîm Adennill Dyled Corfforaethol i glustnodi Swyddog Adennill Llawn Amser i adennill Dyledion Amrywiol

- Ymestyn contract staff Asiantaeth, oedd eisoes am 3 mis i ddarparu ar gyfer absenoldeb Goruchwylwyr Refeniw am 4 - 6 mis ymhellach i ddelio’n benodol â dyledwyr mawr ac os byddai angen i ddarparu gwybodaeth arbenigol ar gyfer trafodion methdaliad.

Mae'r ddau aelod staff wedi bod yn cysylltu gyda'r dyledwyr perthnasol ac yn cysylltu â'r adrannau gwasanaeth i gael prawf o ddyled gyda golwg ar sicrhau taliad.

Mae adnoddau ychwanegol pellach yn awr wedi eu nodi, yn bennaf gwaith cymorth clerigol i gefnogi Swyddogion Incwm, Ariannwr ac Adennill. Mae 3 aelod staff ychwanegol wedi eu penodi am 3 mis hyd at uchafswm o 6 mis i ddarparu cefnogaeth glerigol bellach –

- yn yr Adain Incwm wrth i'r tîm bychan hwnnw ddechrau defnyddio mwy ar Feddalwedd Civica, fel Debyd Uniongyrchol fel modd talu;
- cefnogaeth glerigol yn y Swyddfa Arian i sicrhau bod taliadau uniongychol i mantolenni banc yn cael eu diweddaru yn erbyn dyledion a'r ledjer ar unwaith, wrth iddynt gyflwyno meddalwedd cysoni banc awtomatig Civica; a
- chefnogaeth glerigol bellach i'r Tîm Adennill Dyledion Corfforaethol a achoswyd gan y gwaith ychwanegol sy'n cael ei gynhyrchu.

Mae'r staff ychwanegol hyn wedi'u cael o blith staff mewn risg neu o'r gronfa glerigol dros dro.

Bydd cwmni o gyfreithwyr preifat yn cael eu penodi i ddarparu cyngor cyfreithiol ynglŷn â rhai dyledion sydd ar ôl a hefyd i wneud gwaith adennill a llys.

Fe ofynwyd hefyd i adrannau gwasanaeth nodi aelodau staff allweddol y gall y Tîm Adennill Dyled Corfforaethol gysylltu â hwy pan fydd angen cael gwybodaeth neu pan fydd angen prawf o ddyled.

Y prif nod yw y bydd cost ychwanegol yr adnoddau staffio hyn yn dod o'r incwm ychwanegol fydd yn cael ei gasglu. Wrth reswm bydd hyn yn cael ei fonitro'n agos.

**GRADDFA GASGLU – Y CEFNDIR O SAFBWYNT MÂN DDYLEDWYR, TRETH GYNGOR A DRETH FUSNES**

Mae Atodiadau A, B a C sydd ynghlwm, yn rhoi, yn eu trefn, y raddfa gasglu gyffredinol ym mhob blwyddyn ar gyfer pob math o ddyled a dargedir.

Fel y mae'r atodiadau'n dangos, mae'r symiau i'w casglu wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd.

**Y PERFFORMIAD HYD YN HYN YN Y MEYSYDD A DARGEDWYD**

<u>Treth Gyngor a'r Dreth Fusnes (yn cynnwys costau)</u>

Ar 31 Mawrth 2014 roedd y ddyled oedd ar ôl fel y cafodd ei chynrychioli yn y Datganiad o Gyfrifon drafft, yn £4.5m. Roedd y ffigwr yn cynnwys -

Treth Gyngor £3.4m
Treth Fusnes £1.1m
Dyled Llywodraeth Cymru oherwydd gor-gyfraniad i'r GRONFA NNDR £2.0m

Llai: Darpariaeth Dyledwyr Drwg

Treth Gyngor £1.3m
Treth Fusnes £0.7m

Mae'r swm o £2.0m sy'n ddyledus gan Lywodraeth Cymru yn amodol ar archwiliad allanol terfynol o'r hawliad Cyfraniadau Terfynol NNDR3 am 2013 - 2014. Fe'i cwblheir erbyn diwedd Tachwedd 2014 yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru. Yna bydd taliad yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar y ffigwr archwilio y cytunir arno.

Roedd y dyledion Treth Gyngor wedi gostwng gan £0.4m erbyn diwedd Mehefin 2014 ar gyfer y blynyddoedd cyn 31 Mawrth 2014. Gyda Dreth Fusnes, fodd bynnag, mae'r balansau oedd yn ddyledus am flynyddoed cyn 31 Mawrth 2014 wedi cynyddu – y rheswm am hyn yw addasiadau i werth ardrethol yn effeithio ar flynyddoedd blaenorol.

Mân Ddyledwyr (Civica)

Ar 31 Mawrth 2014 roedd y balans a oedd ar ôl yn £4.3m ac erbyn 15 Awst 2014 roedd cyfanswm y balans a oedd ar ôl yn £3.4m. (efo £2.1m o'r balans am ddyledion cyn diwedd 31 Mawrth 2014). Sut bu'r perfformiad casglu yn erbyn y meysydd a dargedwyd ac a grybwyllwyd ynghynt yn yr adroddiad? Atgynhyrchir hwy yma eto.

- Dyled sy'n ddyledus gan gyrff cyhoeddus i'r Awdurdod - £1.1m;
- Dyled dros £10,000 sy'n ddyledus gan gwmnïau cyfyngedig i'r Awdurdod - £0.5m;
- Dyled dros £10,000 sy'n ddyledus gan unigolion i'r Awdurdod - £0.5m;
- Dyled oedd wedi ei gohirio gyda phridiant yn cael ei osod ar eiddo lle roedd y person wedi marw, ond nad oedd y broses o werthu'r eiddo wedi ei gwblhau - £0.5m;
- Dyled a oedd yn dod yn agos at y cyfyngiadau a osodwyd gan y Statud Cyfyngiadau h.y. 6 mlynedd - £0.1m (mae hwn yn £0.4m ond £0.3m sydd wedi ei gynnwys yn y pedair categori uchod);
- Dyled dros £10,000 sy'n ddyledus gan elusennau neu sefydliadau dielw - £0.04m.

CYFANSWM £2.74m

Mae'r sefyllfa gyfredol yn erbyn pob maes a dargedwyd fel a ganlyn -

- Dyled sy'n ddyledus gan gyrff cyhoeddus i'r Awdurdod - £0.5m;
- Dyled dros £10,000 sy'n ddyledus gan gwmnïau cyfyngedig i'r Awdurdod - £0.2m;
- Dyled dros £10,000 sy'n ddyledus gan unigolion i'r Awdurdod - £0.4m;
- Dyled oedd wedi ei gohirio gyda phridiant yn cael ei osod ar eiddo lle'r oedd y person wedi marw, ond nad oedd y broses o werthu'r eiddo wedi ei gwblhau - £0.4m;
- Dyled a oedd yn dod yn agos at y cyfyngiadau a osodwyd gan y Statud Cyfyngiadau h.y. 6 mlynedd - £0.1m (mae hwn yn £0.4m ond £0.3m sydd wedi ei gynnwys yn y pedair categori uchod);
- Dyled dros £10,000 sy'n ddyledus gan elusennau neu sefydliadau dielw - £0.01m;

CYFANSWM £1.61m

O'r ddyled a dargedwyd, mae £0.04m wedi ei nodi fel arian na ellir ei adennill oherwydd ansolfedd neu fethdaliad a'r ddyled yn awr wedi'i gwahardd drwy statud neu nad oes tystiolaeth ddigonol i brofi'r ddyled. Mae £0.05m pellach wedi ei nodi lle mae gan yr Awdurdod bridiant wedi'i ohirio ar eiddo, ond lle nad yw'r ddyled wedi ei had-dalu er bod yr eiddo wedi'i werthu.

**Camau a fwriedir yn y dyfodol**

- Sicrhau bod gan adrannau gwasanaeth weithdrefnau cadarn yn eu lle i brofi'r ddyled h.y. rhif archeb neu lythyr neu gytundeb wedi'i arwyddo.
- Parhau i dargedu y meysydd a dargedwyd ac i weithio'n agos efo'r cwmni cyfreithwyr.
- Sicrhau bod y cyfnodau amser Polisi Adennill Mân Ddyledion yn cael eu cyflawni.
- Cwblhau adolygiad o weithdrefnau yng nghyswllt pridiannau wedi'u gohirio ar eiddo ar gyfer dyledion Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod buddiannau'r Awdurdod wedi'u diogelu.

**Argymhelliad**

Yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **23 MEDI 2014** |
| **PWNC:** | **CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H.E. JONES** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **BETHAN H OWEN** |
| **GWEITHREDU:** | **ER GWYBODAETH** |

**1. Pwrpas yr adroddiad**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r sefyllfa gyfredol mewn perthynas â'r Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer Refeniw a Chyfalaf.

**2. Crynodeb Gweithredol**

**2.1** Ar 1 Ebrill 2014, roedd gan y Cyngor £27.27m o Gronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy, sy'n cynnwys £5.677m Arian wrth Gefn y Gronfa Cyffredinol, £18.4m yn y Gronfeydd Refeniw a Glustnodwyd, £1.671m yn Arian wrth Gefn y CRT a £1.518m yn malansau ysgolion. Yn 2015/16 mae'r Cyngor yn ceisio gwneud oddeutu £7m o arbedion effeithlonrwydd. I'r dyfodol, oni wneir rhagor o arbedion bydd y ddibyniaeth ar y cronfeydd wrth gefn yn golygu y byddant yn disgyn yn is na'r isafswm.

**2.2** Mae'r Gronfa Wrth Gefn ar Derbyniadau Cyfalaf a'r Gronfa ar gyfer Grantiau Cyfalaf na ddefnyddiwyd yn ddwy Gronfa wrth Gefn Gyfalaf. Ar 31 Mawrth 2014 nid oedd unrhyw arian yn y ddwy gronfa.

Mae dwy Gronfa Refeniw wrth gefn wedi ei glustnodi i ddibenion cyfalaf, sef y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwariant Cyfalaf a'r Grant Gwella Hamdden. Ar 31 Mawrth 2014 roedd y balans ar y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwariant Cyfalaf yn £0.565m, gyda'r balans yn y Grant Gwella Hamdden yn £0.196m.

Mae strategaeth cyfalaf newydd yn ei le i amcangyfrif beth fydd y swm yn y Cronfeydd Cyfalaf wrth gefn erbyn diwedd 2014/15. Nid oes unrhyw isafswm wedi ei bennu ar hyn o bryd ar gyfer Cronfeydd wrth gefn Cyfalaf.

**2.3** Dylai'r defnydd a wneir o gronfeydd wrth gefn fod yn seiliedig ar bolisi y cytunwyd arno gyda'r Aelodau a dylid gostwng dibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb refeniw yn y dyfodol fel bod y gyllideb refeniw yn cael ei chyllido'n llawn o fathau eraill o incwm.

**3. Atodiadau**

Atodiad 1: Y defnydd o'r Arian wrth Gefn 2013/14.

**4. Cefndir**

**4.1** Bydd defnydd o'r cronfeydd wrth gefn a lefelau'r cronfeydd hynny yn rhan hanfodol o strategaeth ariannol y Cyngor am y flwyddyn i ddod. Fel ymateb i hynny, dylai'r broses gyllidebol i'r dyfodol ganolbwyntio ar gyflawni cynllun sy'n gostwng dibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn ac sy'n sicrhau bod lefelau ariannol y Cyngor yn gynaliadwy.

**4.2** Er bod lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ddigon ar hyn o bryd i gynnal y gyllideb refeniw am y flwyddyn nesaf, nid ydynt yn ffyrdd o gyllido y gellir eu hadnewyddu ac, ar ryw adeg, byddant yn disgyn yn is na'r isafswm cyfredol. Rhaid i'r Cyngor ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn ofalus i sicrhau eu bod yn sicrhau cyllidebau cytbwys yn y dyfodol, gan aros ar lefel sy'n caniatáu ar gyfer lliniaru unrhyw risgiau.

**4.3** Mae dogfen Strategaeth Gyfalaf i gael yn awr ar gyfer rownd gyllidebol 2015/16 a dyna pam mae angen polisi sy'n rheoli'r defnydd o gronfeydd wrth gefn er mwyn sicrhau bod y balansau hyn yn cael eu defnyddio'n ddoeth i sicrhau'r hyblygrwydd a'r gwerth mwyaf posib i'r Cyngor.

## 5. Trafodaeth

**5.1** Mae pennu lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn un o amryw o benderfyniadau cysylltiedig y bydd angen eu gwneud wrth lunio'r Strategaeth Ariannol ar gyfer Tymor Canol (y Strategaeth) a'r gyllideb flynyddol. I wneud y penderfyniad hwn bydd raid cymryd i ystyriaeth y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn benodol, mae'r Strategaeth hon yn golygu bod angen i'r Cyngor adeiladu a chynnal cronfeydd wrth gefn cyffredinol sydd yn ddigon i gwrdd â'r ffactorau allweddol y mae'n eu hwynebu. Bydd raid i'r Swyddog Adran 151 ystyried amryw o ffactorau wrth benderfynu union lefel y cronfeydd wrth gefn, bydd nifer ohonynt angen cynnal asesiad o'r risg ar gyfer y rhagdybiaethau sydd wedi eu cynnwys yn y gyllideb a'r Strategaeth, ynghyd â rheolaeth a statws ariannol y Cyngor.

**5.2** Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i gadw a chynnal cronfeydd wrth gefn ond mae'n cydnabod hefyd, trwy ddewis cadw neu gynyddu cronfeydd wrth gefn, bod y Cyngor yn dyrannu adnoddau fel na ellir eu defnyddio i ddibenion eraill posib ac, o'r herwydd, mae costau cyfle o ran cadw balansau fel cronfeydd wrth gefn. Am y rheswm hwn mae'n bwysig amlinellu'n glir y fframwaith ar gyfer rheoli cronfeydd wrth gefn a'i adolygu'n rheolaidd.

**5.3** Yn unol ag Adrannau 32 a 43 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried lefel y cronfeydd sydd raid wrthynt ar gyfer cwrdd â gwariant a ragwelir i'r dyfodol wrth gyfrifo cyllideb.

**5.4** Nid oes isafswm penodol wedi ei bennu ar gyfer cronfeydd wrth gefn i awdurdodau lleol ac mae Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2004 yn rhoi dyletswydd ar y Prif Swyddog Ariannol (Swyddog Adran 151) i adrodd yn ffurfiol ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig wrth bennu cyllideb ac i sicrhau bod protocolau allweddol ar gyfer eu sefydlu a'u defnyddio.

**5.5** Mae'n rheolaeth ariannol ddoeth i adolygu'r holl gronfeydd wrth gefn o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol, yn berthnasol ac wedi eu pennu ar y lefel gywir i warchod rhag unrhyw gyfrifoldebau y gwyddys y byddant yn codi yn y dyfodol.

**5.6** Fel yr argymhellwyd yn y canllawiau swyddogol, mae cyswllt agos rhwng y gwaith o adolygu'r cronfeydd wrth gefn a'r gwaith o lunio cyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r Strategaeth, sy'n cynnwys amcangyfrifon o'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a balansau yn y gronfa gyffredinol.

**5.7** Bydd perthnasedd a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu'n barhaus a chynhelir adolygiad ffurfiol ohonynt bob blwyddyn.

## 6. Pwerau Cyfreithiol

- Adrannau 32 a 43 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992
- Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2004

## 7. Goblygiadau ariannol a Gwerth am Arian

**7.1** Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn a balansau i'r dyfodol ac nid oes ganddo unrhyw oblygiadau ariannol na goblygiadau gwerth am arian ynddo'i hun.

**7.2** Mae'r balansau yn yr adroddiad yma'n amodol ar gymeradwyaeth yr Archwiliwr ar 26 Medi 2014.

**ATODIAD A**

## DEFNYDD O'R ARIAN WRTH GEFN 2013/14

| ARIAN WRTH GEFN CLUSTNODEDIG | Balans ar 1 Ebrill 2012 £000 | Trosglwyddiadau i mewn 2012/13 £000 | Trosglwyddiadau allan 2012/13 £000 | Balans ar 31 Mawrth 2013 £000 | Trosglwyddiadau i mewn 2013/14 £000 | Trosglwyddiadau allan 2013/14 £000 | Balans ar 31 Mawrth 2014 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Cyfalaf** | 1,000 | 1,209 | -1,209 | 1,000 | 904 | -1,339 | 565 |
| **Arian wrth gefn Safle Tirlenwi Gwastraff Penhesgyn** | 886 | 0 | -886 | 0 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| **Arian wrth gefn Gwasanaeth** | 1,507 | 1,540 | -1,156 | 1,891 | 0 | -268 | 1,623 |
| **Arian wrth gefn Cyfyngedig** | 1,781 | 4,037 | -754 | 5,064 | 1,996 | -754 | 6,306 |
| **Tâl Cyfartal, Statws Sengl ac Arfarnu Swyddi** | 1,966 | 701 | 0 | 2,667 | 0 | -311 | 2,356 |
| **Ailgylchu** | 1,473 | 302 | -986 | 789 | 108 | -667 | 230 |
| **Arian wrth gefn Rheoli Perfformiad** | 1,054 | 412 | -26 | 1,440 | 0 | 0 | 1,440 |
| **Arian wrth gefn Atgyweiriadau Mawr (CRT)** | 0 | 860 | 0 | 860 | 0 | 0 | 860 |
| **Cronfa Yswiriant** | 2,529 | 0 | -178 | 2,351 | 184 | 0 | 2,535 |
| **Arall** | 686 | 0 | -121 | 565 | 11 | -85 | 491 |
| **CYFANSWM ARIAN WRTH GEFN CLUSTNODEDIG** | **12,882** | **9,061** | **-5,316** | **16,627** | **5,203** | **-3,424** | **18,406** |
| | | | | | | | |
| **CRT** | 247 | 1,251 | -1,016 | 482 | 1,232 | -43 | 1,671 |
| **Ysgolion** | 1,252 | 0 | -68 | 1,184 | 334 | 0 | 1,518 |
| **Cronfa Cyffredinol** | 5,796 | 2,775 | -2,661 | 5,910 | 1,837 | -2,070 | 5,677 |
| **CYFANSWM** | **20,177** | **13,363** | **-9,061** | **24,479** | **8,606** | **-5,813** | **27,272** |

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Iechyd a Diogelwch 2013/2014

# Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Rhagarweiniad | 3 |
| 2 | Rheolaeth Gorfforaethol | 4 |
| 3 | Gwybodaeth Ystadegol | 5 |
| 4 | Partneriaethau | 16 |
| 5 | Ymgynghori ar y Cyd | 17 |
| 6 | Y Ddarpariaeth Iechyd Galwedigaethol | 17 |
| 7 | Cyflawniadau Allweddol (trosolwg) | 18 |
| 8 | Monitro Perfformiad Iechyd a Diogelwch | 19 |
| 9 | Cynllun Gweithredu Strategol (corfforaethol tymor hir) | 23 |
| 10 | Casgliad a Chynllun Datblygu | 24 |

## 1 Rhagarweiniad

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys ymrwymiad i baratoi a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch sy'n rhoi manylion am gynnydd a wnaed o ran cwrdd â thargedau yn y Cynllun Gweithredu Blynyddol ar gyfer Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi datblygu fframwaith a chanllawiau ar gyfer cynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad yn y maes Iechyd a Diogelwch. Mae'r fframwaith a'r canllawiau yn darparu cyfres o benawdau fel cymorth ar gyfer adrodd ar berfformiad yn y maes iechyd a diogelwch. Nid yw'n fwriad i'r fframwaith fod yn ddadansoddiad cynhwysfawr o iechyd a diogelwch ond fe ddylai gynorthwyo i nodi ymrwymiad, gallu a chyfeiriad o ran rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn y fformat a ddarparwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Yn ystod y deuddeng mis a aeth heibio bu pwyslais sylweddol ar raglenni gwaith a newid mawr sydd raid wrthynt fel rhan o'r Cynllun Trawsnewid yn yr Awdurdod. Efallai bod y swmp o waith yr oedd angen i Reolwyr ei wneud wedi amharu ar eu gallu i roi sylw i lawer o swyddogaethau dydd i ddydd a rhai elfennau Iechyd a Diogelwch. Dylai'r adroddiad hwn fod o gymorth i asesu anghenion ar gyfer y dyfodol yn y maes Iechyd a Diogelwch yn yr Awdurdod.

## 2 Rheolaeth Gorfforaethol

Yn ystod 2013/14 gwelwyd newid sylweddol yn y strwythur rheoli ar gyfer CSYM. Mae Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) wedi ei sefydlu ac mae gan nifer o Benaethiaid Gwasanaeth feysydd gwasanaethau ychwanegol i roi sylw iddynt. Cafwyd cymorth gan ymgynghorydd allanol gyda'r broses asesu ar gyfer y tîm rheoli.

Oherwydd bod y Grŵp Penaethiaid yn cwrdd yn rheolaidd dylai hynny olygu bod modd uwchgyfeirio unrhyw faterion i'r UDA i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i ddatrys materion iechyd a diogelwch neu faterion eraill.

Mae cyfansoddiad y cyngor yn nodi cyfrifoldebau o fewn y strwythur rheoli. Mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch, mae Dogfen Cyfrifoldebau Corfforaethol yn amlinellu cyfrifoldebau'r cynghorwyr, gweithwyr, llywodraethwyr ysgol a staff dysgu. Mae'r drafftiau diweddaraf o'r Ddogfen Cyfrifoldebau Corfforaethol a'r Strategaeth Iechyd a Diogelwch i'w gweld yn Atodiad 1. Dyllid ystyried a chymeradwyo'r ddogfen hon fel dogfen gorfforaethol.

| | |
|---|---|
| **Cam 1** | Darllen ac ystyried y Ddogfen Cyfrifoldebau Corfforaethol a'i chymeradwyo fel dogfen gorfforaethol |

Dylai cyflwyno gwaith Adolygu Perfformiad, gan gynnwys cynhyrchu cynlluniau busnes a fydd yn cael eu hasesu a'u cymeradwyo bob blwyddyn gan yr UDA, arwain at fwy o reolaeth dros y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Dylai hynny sicrhau mwy o atebolrwydd ar draws y cyngor gyda thargedau a nodau wedi eu cynnwys mewn cynlluniau busnes. Dylai ystyriaethau Iechyd a Diogelwch fod wedi eu hymgorffori yn y cynlluniau busnes hyn. Byddai hynny'n golygu y byddai materion Iechyd a Diogelwch yn rhan annatod o'r cynlluniau busnes yn hytrach na phethau a ychwanegir atynt wedyn pan fo'r cynlluniau busnes yn cael eu rhoi ar waith.

| | |
|---|---|
| **Cam 2** | Ymgorffori Cynlluniau Iechyd a Diogelwch yng Nghynlluniau Busnes y Gwasanaethau a'u cyflwyno i'r Grŵp Adolygu Perfformiad am sylwadau cyn eu trosglwyddo i'r UDA |

## 3 Gwybodaeth Ystadegol


**Damwain/digwyddiad**

Mae'r data a gyflwynir isod yn ymwneud â'r holl ddamweiniau a digwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt yn 2013/14. Mae damweiniau a digwyddiadau wedi eu categoreiddio mewn tri phrif grŵp, sef **mân, difrifol** a **RIDDOR.**

**Mân-ddamweiniau a digwyddiadau** fyddai damweiniau/digwyddiadau lle nad oedd yr anaf neu'r golled yn sylweddol. Mae hynny'n cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle nad oedd neb wedi cael anaf neu golled, a phe bai anaf neu golled wedi digwydd ni fyddai'r canlyniadau wedi bod yn sylweddol.


Mae **damweiniau/digwyddiadau difrifol** yn cynnwys y rheini a arweiniodd at anaf neu golled sylweddol neu lle 'roedd posibilrwydd o anaf neu golled o'r fath. Mae hynny'n cynnwys damweiniau a digwyddiadau lle na chafodd neb anaf neu golled, ond lle gallai'r canlyniad fod wedi bod yn sylweddol pe bai anaf neu golled wedi digwydd.

Roedd damweiniau a digwyddiadau RIDDOR yn rhai a oedd yn cwrdd â meini prawf penodol ac yr oedd yn rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol ar gyfer Iechyd a Diogelwch (AGID). Mae'r meini prawf ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau o'r fath i'w gweld yn y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y damweiniau a'r digwyddiadau yn yr awdurdod cyfan. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau gyda'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion ysgol, contractwyr, cyfleusterau a staff.





**Cyfanswm y damweiniau yn yr awdurdod cyfan.**

Mae'r damweiniau / digwyddiadau hyn yn cynnwys gweithwyr, y cyhoedd, disgyblion, defnyddwyr gwasanaeth a chyfleusterau (damweiniau difrod neu golled).





**Cymhariaeth o gyfanswm y damweiniau yn yr awdurdod cyfan am y cyfnod 2010/11 i 2013/14**

Mae'r siart isod yn dangos digwyddiadau a damweiniau i weithwyr yn unig yn yr awdurdod cyfan.




**Cyfanswm nifer y damweiniau i Weithwyr yn unig.**

**Digwyddiadau a damweiniau i weithwyr yn unig ar draws yr awdurdod cyfan yw'r rhain.**




**Cymhariaeth o gyfanswm y digwyddiadau / i damweiniau i weithwyr yn unig yn yr awdurdod cyfan am y cyfnod 2010/11 i 2013/14**

**Meincnodi gydag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru**

Er mwyn gwneud cymariaethau gydag Awdurdodau eraill mae'n rhaid sefydlu ffactorau cyffredin. Mae defnyddio ffigyrau o ran nifer y digwyddiadau fesul nifer gyfartalog o weithwyr yn hwyluso gwneud cymariaethau. Ystyriwyd y byddai'n ddefnyddiol defnyddio ffigyrau ynghylch nifer y digwyddiadau am bob 100 o weithwyr.

Gall y meini prawf ar gyfer cofnodi a chategoreiddio damweiniau a digwyddiadau amrywio o Awdurdod i Awdurdod yng Ngogledd Cymru. O'r herwydd, gall defnyddio ystadegau damweiniau cyffredinol fod yn ddull gwallus o feincnodi.

Mae'r Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) yn darparu meini prawf penodol ar gyfer adrodd ar ddamweiniau a digwyddiadau. Dylai'r meini prawf ddarparu ffactor cyffredin ar gyfer cofnodi ac adrodd ar ddamweiniau ar draws yr Awdurdodau yng Ngogledd Cymru.

Er mwyn sicrhau bod y broses meincnodi yn weddol gywir defnyddiwyd meini prawf RIDDOR a ffigwr gyfartalog am bob 100 o weithwyr.


<table>
<tr><th colspan="7">Meincnodi gydag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru</th></tr>
<tr><th colspan="3">Diwedd Blwyddyn 2012 – 2013</th><th colspan="2">Chwarter 1 2013/14</th><th colspan="2">Chwarter 2 2013/14</th></tr>
<tr><td rowspan="6">Nifer RIDDOR x 100<br>Nifer y Gweithwyr</td><td>CSYM</td><td>1.4</td><td>5</td><td>0.166</td><td>5</td><td>0.166</td></tr>
<tr><td>Gwynedd</td><td>0.9</td><td>16</td><td>0.22</td><td>24</td><td>0.34</td></tr>
<tr><td>Dinbych</td><td>0.8</td><td>5</td><td>0.101</td><td>6</td><td>0.14</td></tr>
<tr><td>Conwy</td><td>Dim ffigwr</td><td>10</td><td>0.17</td><td>13</td><td>0.23</td></tr>
<tr><td>Fflint</td><td colspan="5">Dim ffigyrau</td></tr>
<tr><td>Wrecsam</td><td colspan="5">Dim ffigyrau</td></tr>
</table>


**Nodyn:** Ni chafwyd ffigyrau y tu hwnt i ail chwarter 2013/14 hyd yma gan yr Awdurdodau eraill.


**Dadansoddiad o'r ystadegau ar gyfer Damweiniau/Digwyddiadau**


Mae'r tudalennau isod yn rhoi dadansoddiad manylach o'r ystadegau ar gyfer damweiniau. Nodir math y ddamwain/digwyddiad a'r prif achos.


Tudalen 74


Tabl 1 - Cyfanswm nifer y damweiniau a digwyddiadau
160
140
120
100
80
60
40
20
0
Peiriannau / Offer Gwaith
Taro gan gerbyd
Codi a Chario â llaw
Colli Balans
Disgyn o uchder o dan 2M
Disgyn o offer chwarae
Anaf chwaraeon (Hamdden)
Disgyn allan o gadair
Llosgi
Tân / ffrwydriad
Digwyddiad Treisiol (Camddefnyddio, Hambygio ac ati) -...
Ymosodiad corfforol
Ymosodiad gan anifail
Ymosodiad Corfforol - Ymddygiad Heriol
Colli neu ddifrodi eiddo (gan gynnwys lladrata,...
Math arall o ddamwain
Cyflwr meddygol
Ymddygiad heriol
Digwyddiad ar faes chwarae
Tabl 1 - Cyfanswm nifer y damweiniau a digwyddiadau


Tabl 2 - Cyfanswm nifer y damweiniau a digwyddiadau (Gweithwyr)
120
100
80
60
40
20
0
Peiriannau / Offer Gwaith
Taro gan rhywbeth sy'n symud
Taro rhywbeth sefydlog neu ddisymud
Codi a Chario â llaw
Baglu, llithro neu gwympo
Disgyn o Uchder
Llosgi
Agored i Sylwedd Peryglus
Trydanol
Digwyddiad Treisiol (Camddefnyddio, Hambygio ac ati)
Digwyddiad Treisiol (Camddefnyddio, Hambygio ac ati) -...
Ymosodiad corfforol
Ymosodiad corfforol / ymddygiad wedi ei rywioli
Ymosodiad gan anifail
Ymosodiad corfforol - Ymddygiad Heriol
Gwydr / Nodwyddau
Colli neu ddifrodi eiddo (gan gynnwys lladrata, fandaliaeth)
Digwyddiadau ond y dim
Math arall o ddamwain
Methiant Rheoli
Cyflwr meddygol
Ymddygiad heriol
Amgylchiadau Annymunol
Digwyddiad ar faes chwarae
Tabl 2 - Cyfanswm nifer y damweiniau a digwyddiadau (Gweithwyr)


Tabl 3 - Cyfanswm nifer y damweiniau a digwyddiadau (Disgyblion)
140
120
100
80
60
40
20
0
Peiriannau / Offer Gwaith
Taro gan rhywbeth sy'n symud
Taro gan gerbyd
Wedi taro rhywbeth sefydlog neu ddisymud
Baglu, llithro neu gwympo
Disgyn o uchder o dan 2M
Disgyn o uchder
Disgyn o offer chwarae
Digwyddiad yn y Pwll/wrth ochr y Pwll
Anaf chwaraeon (Hamdden)
Anaf addysg gorfforol
Disgyn allan o gadair
Disgyn allan o gerbyd
Llosgi
Agored i Sylwedd Newidiol
Digwyddiad Treisiol (Camddefnyddio,…
Digwyddiad Treisiol (Camddefnyddio,…
Ymosodiad corfforol
Ymosodiad corfforol/ymddygiad wedi ei…
Ymosodiad gan anifail
Ymosodiad Corfforol - Ymdygiad Heriol
Gwydr/Nodwyddau
Colli neu ddifrodi eiddo (gan gynnwys…
Math arall o ddamwain
Cyflwr meddygol
Hunan-niweidio
Ymddygiad heriol
Amgylchiadau annymunol
Digwyddiad ar faes chwarae
Digwyddiad cyhoeddus
Tabl 3 - Cyfanswm nifer y damweiniau a digwyddiadau (Disgyblion)


Tabl 4 - Cyfanswm nifer y damweiniau a digwyddiadau (Defnyddwyr Gwasanaeth)
0
20
40
60
80
100
120
140
Peiriannau / Offer Gwaith
Hit by moving object
edi taro rhywbeth sefydlog neu ddisymud
Codi a Chario â llaw
Baglu, llithro neu gwympo
Colli balans
Disgyn allan o gwely
Digwyddiad yn y Pwll/wrth ochr y Pwll
Disgyn o uchder
Disgyn allan o gadair
Disgyn allan o gerbyd
Agored i Sylwedd Newidiol
Digwyddiad Treisiol (Camddefnyddio, Hambygio ac ati) -...
Digwyddiad Treisiol (Camddefnyddio, Hambygio ac ati) -...
Ymosodiad corfforol/Ymddygiad wedi ei rywioli
Ymosodiad Corfforol - Ymddygiad Heriol
Colli neu ddifrodi eiddo (gan gynnwys lladrata, fandaliaeth)
Digwyddiadau ond y dim
Math arall o ddamwain
Methiant Rheoli
Cyflwr meddygol
Hunan-niweidiol
Ymddygiad heriol
Digwyddiad ar faes chwarae
Tabl 4 - Cyfanswm nifer y damweiniau a digwyddiadau (Defnyddwyr Gwasanaeth)


Tabl 6 - Cyfanswm nifer y damweiniau a digwyddiadau (Y Cyhoedd)
35
30
25
20
15
10
5
0
Hit by moving object
Taro gan gerbyd
ro rhywbeth sefydlog neu ddisymud
Baglu, llithro neu gwympo
Colli balans
Disgyn o uchder
Disgyn o offer chwarae
Digwyddiad yn y pwll/wrth ochr y pwll
Anaf chwaraeon (Hamdden)
Anaf addysg gorfforol
Llosgi
Trydanol
Digwyddiad Treisiol (Camddefnyddio, Hambygio ac ati)
Ymosodiad corfforol
Ymosodiad corfforol / ymddygiad wedi ei rywioli
Ymosodiad gan anifail
Disgyn i ddwr
Ymosodiad Corfforol - Ymddygiad Heriol
Gwydr / Nodwyddau
Colli neu ddifrodi eiddo (gan gynnwys lladrata, fandaliaeth)
Digwyddiadau ond y dim
Math arall o ddamwain
Methiant Rheoli
Cyflwr meddygol
Amgylchiadau Annymunol
Digwyddiad ar faes chwarae
Public incident
Tabl 6 - Cyfanswm nifer y damweiniau a digwyddiadau (Y Cyhoedd)

**Dadansoddiad o Ddata Damweiniau / Digwyddiadau**

**Trais ac Ymddygiad Ymosodol**

Mae'r wybodaeth ynghylch damweiniau / digwyddiadau a gyflwynwyd eisoes yn dangos mai digwyddiadau treisgar yw'r nifer fwyaf o ddigwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt. Gall y rhain fod yn unrhyw beth o sylwadau bygythiol neu ddifrifol i ymosodiad corfforol gan berson arall.

Y disgrifiad o drais yn y lle gwaith gan yr Awdurdod Gweithredol ar gyfer Iechyd a Diogelwch (AGID) o drais yw:

*Any incident in which a person is abused, threatened or assaulted in circumstances relating to their work. This can include verbal abuse or threats as well as physical attacks.*

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth gofal sy'n golygu delio gyda chleientiaid a all ddangos ymddygiad heriol. Oherwydd bod ymddygiad heriol yn gallu bod yn ffactor, efallai nad oes unrhyw fwriad i niweidio.

Ymddygiad heriol oedd y prif ffactor yn y nifer uchaf o ddigwyddiadau o drais ac ymddygiad ymosodol (142). Gallai hynny fod yn unigolyn sy'n gwylltio ond nad yw'n bwriadu achosi unrhyw niwed. Roedd ymddygiad heriol yn ffactor yn 18 o'r digwyddiadau difrïol.

Ystyriwyd nad oedd ymddygiad heriol yn ffactor yn 67 o'r achosion o ddigwyddiadau difrïol o'r fath. Digwyddiadau oedd y rhain yn bennaf lle 'roedd y cyhoedd yn rhoi pryd o dafod i weithwyr.

Cafwyd 53 o ymosodiadau corfforol, sef unigolyn yn taro unigolyn arall. Digwyddodd 13 o'r rhain yn Adran y Gymuned lle'r oedd cleientiaid yn colli eu tymer ond lle nad oedd ymddygiad heriol yn ffactor.

Roedd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn yn yr Adran Dysgu Gydol Oes ac yn cynnwys disgyblion yn taro disgyblion eraill. Cofnodwyd y digwyddiadau hyn yn y ffigyrau ar gyfer y lle gwaith oherwydd bod dyletswydd gofal tuag at ddisgyblion yn ogystal â gweithwyr.

| | |
|---|---|
| **Cam 3** | Cynnal dadansoddiad manylach o'r digwyddiadau trais ac ymddygiad ymosodol i nodi'r achosion a datrysiadau posib. Dylai hynny gynnwys dadansoddiad o'r grwpiau a effeithiwyd e.e. swyddogion cyllid yn cael galwadau ffôn difrïol gan weithwyr, cleientiaid yn ddifrïol tuag at ofalwyr a'r cyhoedd yn sarhaus tuag at swyddogion gwasanaethau rheng flaen eraill. |

**Digwyddiadau ar feysydd chwarae**

Y ffigwr uchaf ond un yn y cyfanswm oedd ar gyfer digwyddiadau ar feysydd chwarae. Hwn oedd y ffigwr uchaf ar gyfer digwyddiadau yn yr Adran Dysgu Gydol Oes. Digwyddiadau oedd y rhain yn bennaf lle 'roedd disgyblion yn rhedeg i mewn i'w gilydd neu'n taro ei gilydd yn ddamweiniol neu'n disgyn dros ei gilydd. Y prif anafiadau oedd ergydion i'r pen ac mae gan ysgolion bolisi i roi gwybod am

ddigwyddiadau o'r fath. Cofnodwyd y ffigyrau hyn rhag ofn y bydd unrhyw ôl-effeithiau yn y dyfodol.

**Llithro, Baglu, Disgyn a Cholli Balans**

Digwyddiadau o'r math hwn oedd y trydydd uchaf yn y ffigyrau. Ymddengys bod y rhain yn digwydd i Weithwyr, Defnyddwyr Gwasanaeth, Y Cyhoedd a Disgyblion fel ei gilydd.

Ymysg Defnyddwyr Gwasanaeth colli balans oedd prif achos y damweiniau. Baglu a chwympo a disgyn allan o'r gwely oedd y ffigyrau uchaf ar ôl hynny ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth. Mae'r digwyddiadau hyn eisoes wedi eu nodi ac mae gwaith yn parhau i gael ei wneud i ostwng y nifer ymhellach.

**Rhybuddion Gorfodaeth**

**AGID**

Ar 21 Ionawr 2014, bu damwain yng Nghanolfan Byron, ar Stad Ddiwydiannol Mona. Cafodd aelod o staff anaf difrifol. Bu'n rhaid rhoi gwybod i'r AGID fod damwain ddifrifol wedi digwydd (yn unol â Rheoliadau RIDDOR).

Oherwydd difrifoldeb yr anaf ac oherwydd bod yr unigolyn yn oedolyn bregus, ymchwiliodd yr AGID i'r digwyddiad gyda'r opsiwn o erlyn am dorri Adran 2 y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Lle Gwaith.

Cyflwynwyd adroddiad i'r AGID gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Derbyniodd AGID bod yr adroddiad yn ymchwiliad digonol i'r ddamwain ac ystyriodd mai'r hyn a achosodd y ddamwain oedd gosod "jigiau" ar eu fyny yn erbyn wal.

Ymwelodd arolygydd AGID â'r sale a chyflwynodd Rhybudd Gwahardd. Roedd y Rhybudd yn benodol iawn ac yn gwahardd "stacking of jig panels against the wall within the CNC Platix 48NST enclosure in an uncontrolled manner". Cost yr ymyrraeth oedd £620.00 yn seiliedig ar 5 awr o amser y mae modd ei adennill.

Cafwyd cyfarfod cau gyda'r Arolygydd AGID a rhoddodd wybod i CSYM na fyddai'n erlyn y Cyngor oherwydd nad oedd gwneud hynny er budd y cyhoedd. Roedd disgwyl adennill cost ½ awr am gau'r cyfarfod.

**Gwasanaeth Tân ac Achub**

Yn ystod 2013/14 archwiliodd y Gwasanaeth Tân ac Achub ddwy ysgol. Archwiliwyd ysgol Carreglefn ar ôl digwyddiad gyda thanc nwy LPG yn gollwng ar y safle. Roedd yr archwiliad yn Ysgol Biwmares yn ymweliad arferol. Cafodd y ddwy ysgol Rybudd o Fân Ddiffygion. Mae gwaith wedi ei wneud i gydymffurfio gyda'r rhybuddion hyn.

**Hyfforddiant**

Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan yr Uned Adnoddau Dynol iod yn dangos nifer y cyrsiau Iechyd a Diogelwch a'r niferoedd a fynychodd.

| Cwrs | Niferoedd a fynychodd |
|---|---|
| Aseswyr Sgriniau Arddangos | 5 |
| Cymorth Cyntaf Brys (Hanner Diwrnod) | 14 |
| Cymorth Cyntaf Brys (Diwrnod Llawn) | 51 |
| Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (3 diwrnod) | 50 |
| Cwrs Gloywi Cymorth Cyntaf (2 Diwrnod) | 50 |
| Marsial Tân | 65 |
| Diogelwch Tân | 82 |
| Sut i Gynnal Asesiad Risg | 7 |
| Ymwybyddiaeth o Reoli Haint | 33 |
| IOSH (4 Diwrnod) | 25 |
| Cwrs Gloywi IOSH | 6 |
| Ystolion a Stepiau | 10 |
| Pasport A-B | 3 |
| Pasport A-F | 23 |
| Cwrs Gloywi Pasport | 86 |
| Trais – Lefel 1 a 2 | 71 |
| Gweithio ar Uchder | 11 |
| Iechyd a Diogelwch | 15 |
| Gweithdy Rheoli Straen | 14 |
| Hyfforddiant 4x4 (Gyrru) | 4 |
| Glendid Bwyd Sylfaenol | 37 |
| Meddyginiaeth Un Diwrnod | 17 |

Mae'r ffigyrau uchod yn dangos bod nifer sylweddol o weithwyr wedi bod ar gyrsiau hyfforddiant iechyd a diogelwch. Dylid asesu'r anghenion hyfforddi ar gyfer pob gweithiwr yn ystod eu gwerthusiad. Efallai y bydd angen darparu hyfforddiant ychwanegol yn unol â'r maes gwasanaeth, er enghraifft hyfforddiant cymorth cyntaf neu hyfforddiant marsial tân.

Mae'r cofnodion hyfforddi yn cael eu cadw'n lleol a chyfrifoldeb y rheolwyr llinell ar gyfer y meysydd gwasanaeth unigol fyddai sicrhau bod gweithwyr wedi eu hyfforddi'n ddigonol a bod digon o swyddogion wrth gefn wedi cael hyfforddiant ar swyddogaethau allweddol megis cymorth cyntaf, aseswyr sgriniau arddangos neu farsialiaid tân.

Byddai cofnod canolog o'r cyrsiau hyfforddi yn gymorth ar lefel gorfforaethol i asesu lefel yr hyfforddiant a roddwyd trwy'r awdurdod cyfan neu i wasanaethau unigol. Byddai hynny hefyd o gymorth gyda chyllidebau hyfforddi.

| | |
|---|---|
| **Cam 4** | Coladu cofnodion hyfforddiant iechyd a diogelwch i ddarparu cofrestr ganolog o staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ar swyddogaethau allweddol. |

4 **Partneriaethau**

**Cyfarfod Rheolwyr Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru**

Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter gyda Rheolwyr Iechyd a Diogelwch yr Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru. Pwrpas y cyfarfodydd yw rhannu gwybodaeth am arferion da a llwyddiannau.

Un o'r ffrydiau gwaith sydd wedi codi o'r grŵp hwn yw mewn perthynas â chartref preswyl preifat y mae awdurdodau lleol wedi bod yn lleoli cleientiaid ynddo. Roedd y AGID eisoes wedi dangos diddordeb yn hyn fel pwnc ar gyfer Rheoli Contractwyr.

Mae Ynys Môn, Conwy a Gwynedd wedi bod yn edrych ar ffordd o archwilio cartrefi a allai fod yn gynaliadwy a dim yn rhy ymwthiol. Cafodd cartrefi preifat eu harchwilio gan AGGCC, Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a'r Bwrdd Iechyd. Efallai nad yw'r archwiliadau a wneir gan rai o'r sefydliadau hyn yn rhoi sylw i rai materion iechyd a diogelwch.

**'Working Well Together'**

Mae CSYM yn aelod o 'Working Well Together sef partneriaeth sy'n cael ei gyrru gan yr AGID sy'n ceisio rhoi Cyngor a Hyfforddiant ar faterion Iechyd a Diogelwch i gontractwyr bychan. Yn y blynyddoedd diwethaf cynhaliwyd digwyddiadau ar safle Coleg Menai yn Llangefni fel bod busnesau adeiladu lleol yn medru mynychu a chael cyngor a gwybodaeth werthfawr am faterion iechyd a diogelwch.

Oherwydd gostyngiad yn nifer y staff yn y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol nid ydym wedi bod yn cymryd rhan yn y grŵp hwn yn ystod 2013/14.

**Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd-Orllewin Cymru**

Mae CSYM yn aelod o Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd-Orllewin Cymru sy'n rhoi sgyrsiau ar faterion Iechyd a Diogelwch ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Brifysgol yn trefnu siaradwyr gwadd bob mis i roi sgyrsiau sy'n llawn gwybodaeth. Mae aelodaeth yn costio £25 y flwyddyn a gall unrhyw un o weithwyr CSYM fynychu am ddim cost ychwanegol os yw'r pwnc a drafodir yn berthnasol i'w maes gwaith. Mae mynychu'r grŵp yn cynorthwyo gweithwyr mewn perthynas â Datblygiad Proffesiynol Parhaus hefyd.

**Y Gwasanaeth Tân ac Achub**

Cafwyd cyfarfod rhwng y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i drafod yr archwiliadau a wneir gan y Gwasanaeth hwnnw. Yn ystod y cyfarfod cytunwyd i gynnal archwiliadau ar y cyd os oedd modd. Byddai hynny'n golygu y gallai'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod yn bresennol yn ystod yr archwiliadau a darparu gwybodaeth na fyddai ar gael yn rhwydd wrth law efallai i reolwyr cyfleusterau.

Dylai hyn fod o gymorth i ddysgu sut mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cynnal yr archwiliadau ynghyd â nodi gwendidau posib yn y ffordd y mae CSYM yn rheoli

diogelwch tân ac er mwyn gostwng y tebygolrwydd bod Rhybuddion Diffygion yn cael eu cyflwyno yn erbyn CSYM

## 5 Ymgynghori ar y Cyd

### Grŵp Cyswllt Iechyd a Diogelwch

Mae'r Grŵp Cyswllt Iechyd a Diogelwch wedi bod yn cael ei gadeirio ar y cyd gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd. Mae'r grŵp yn cynnwys cydlynwyr iechyd a diogelwch o holl wasanaethau'r Cyngor. Mae cynrychiolwyr undebau wedi bod yn bresennol yn y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd hefyd.

Mae'r cyfarfodydd yn fforwm i roi gwybod i gydlynwyr iechyd a diogelwch am gynnydd gyda materion iechyd a diogelwch ac yn fodd i'r cydlynwyr leisio pryderon y gwasanaethau unigol.

Mae'r grŵp wedi bod yn cyfarfod bob mis ond fe ddaeth hynny i ben ym mis Hydref oherwydd cynnydd gweddol araf ac oherwydd nad oedd fawr ddim i adrodd arno ynghylch datblygiadau iechyd a diogelwch o fewn yr awdurdod. Y rheswm am hynny oedd y canolbwyntio ar y Rhaglen Drawsnewid a'r broses Arfarnu Swyddi. Oherwydd y gostyngiad yn y nifer sy'n gweithio yn y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol mae ganddo lai o gapasiti hefyd i ddatblygu rhaglenni adeiladol ar gyfer y grŵp.

Oherwydd nad oedd fawr ddim i adrodd arno ystyriwyd mai'r opsiwn gorau ar gyfer gwneud gwell defnydd o amser y swyddogion fyddai gohirio'r cyfarfodydd hyd nes y byddai modd gwneud mwy o gynnydd gyda materion iechyd a diogelwch a hyd nes y gellir dod â rhaglenni mwy defnyddiol i'r cyfarfodydd.

### Archwiliad Unsain – 'Safety In Numbers'

Yn ystod mis Medi cynhaliodd Unsain archwiliadau ar y cyd gyda'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Roedd y rhain yn rhan o ymgyrch gan Unsain i godi ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch yn y lle gwaith. Cynhaliwyd Archwiliadau yng Nghanolfan Fusnes Môn, cartref preswyl Plas Penlan, Canolfan ddydd Gors Felen, Depo'r Uned Cynnal Adeiladau yn y Gaerwen a Chanolfan Hamdden Plas Arthur.

Cynhaliwyd yr archwiliadau rhwng 16 ac 19 Medi 2013 ac ailymwelwyd ag un safle ar 1 Tachwedd. Ni chafwyd hyd i unrhyw broblemau mawr yn ystod yr archwiliadau a phwrpas yr ail ymweliad oedd archwilio soced drydanol ddiffygiol a welwyd yn ystod yr archwiliad ac a gafodd ei thrwsio ar yr un diwrnod.

## 6 Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol

Darperir Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ar hyn o bryd o dan gontract gyda Chyngor Gwynedd. Rheolir y contract gan yr Uned AD a dylai'r Uned AD hefyd ddarparu'r wybodaeth am y gwasanaethau.

Yn y cyfnod 2007-2010 roedd Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol / Ymgynghorydd Gofal Cefn yn gweithio o fewn y Tîm Iechyd a Diogelwch

Corfforaethol. Roedd hynny'n golygu bod modd cydweithio ar nifer o brosiectau ac achosion unigol. Pan sefydlwyd y contract Iechyd Galwedigaethol ar y cychwyn 'doedd fawr ddim cyfathrebu rhwng y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol. Dros y deuddeg mis diwethaf mae'r cyfathrebu wedi gwella'n sylweddol ac mae mwy o botensial ar gyfer cydweithio.

Mae gwaith ar ôl i'w wneud mewn perthynas â nodi bylchau posib yn y gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol oherwydd cyfyngiadau posib o ran y gwasanaethau a ddarperir dan y contract.

| | |
|---|---|
| **Cam 5** | Parhau i wella'r cyfathrebu rhwng y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol. Nodi bylchau posibl rhwng y ddau wasanaeth. Ystyried lle gallai cydweithio fod o fudd i'r ddau wasanaeth a'r Cyngor cyfan. |

## 7 Cyflawniadau Allweddol

### LPG

Yn 2010 lansiwyd ymgyrch archwilio gan yr AGID ar gyfer gosodiadau LPG. Lansiwyd yr ymgyrch hon o ganlyniad i ddamwain yn yr Alban lle bu farw 9 o bobl ar ôl ffrwydrad nwy LPG.

Pwrpas yr archwiliad oedd asesu'r tanciau, y pibellau a'r offer rheoleiddio ym mhob gosodiad. Roedd yr arolygydd yn archwilio'r gosodiadau o fewn yr adeiladau. Mewn gwirionedd roedd yn archwilio'r holl ffordd o'r tanc hyd at y peiriant yn y gegin neu'r tŷ bwyler.

Un mater allweddol gyda'r ymgyrch oedd gosod peipiau newydd yn y ddaear yn lle rhai metel. Seiliwyd hyn ar y rhagdybiaeth bod yr holl bibellau metel yn bibellau dur. Roedd y pibellau yn y gosodiadau yr oedd CSYM yn gyfrifol amdanynt wedi eu gwneud o gopr gyda haen o blastig drosto. Oherwydd bod yr ymgyrch yn ystyried bod y rhain yn bibellau metel roedd angen cael pibellau newydd neu eu harchwilio bob blwyddyn a chael person cymwys i dystio a chymeradwyo eu bod yn ddiogel.

Byddai'r pibellau newydd yn cael eu gwneud o HDPE (plastig) ac nid oedd angen eu harchwilio ond pob 50 mlynedd.

Yn ystod haf 2013 gosodwyd pibellau HDPE yn lle'r pibellau copr yn yr holl safleoedd dan reolaeth CSYM. Roedd hynny'n golygu bod yr AGID yn medru cau'r ffeil archwilio yn yr ymgyrch hon ar gyfer yr holl safleoedd yr oedd CSYM yn gyfrifol amdanynt.

### Asbestos

Yn ystod 2013 dechreuodd AGID ymgyrch mewn perthynas â rheoli asbestos ar Safleoedd Mwynderau Dinesig. Pwrpas hyn oedd ystyried y mesurau rheoli sydd wedi eu sefydlu pan fo'r cyhoedd yn cael gwared ar asbestos ar y safleoedd hyn a sut roedd yr asbestos yn cael ei reoli a'i gludo o'r safle.

Oherwydd bod y safle yng Ngwalchmai wedi ei archwilio o'r blaen a'r safonau da ar y safle, cafodd ddau arolygydd gyfarwyddyd gan Uwch Arolygydd yr AGID yn Wrecsam i ymweld â'r safle yng Ngwalchmai. Pwrpas hyn oedd sefydlu meincnod o safonau i gwrdd â nhw pan fyddir yn cynnal archwiliadau mewn mannau eraill yng Ngogledd Cymru.

## 8 Monitro Perfformiad Iechyd a Diogelwch

O 2010 i 2012 datblygwyd iechyd a diogelwch yn unol â'r Cynllun Gweithredu Iechyd Diogelwch Corfforaethol. Roedd hyn yn caniatáu i ni allu monitro'r camau gweithredu unigol yn y cynllun ac adrodd yn ôl ar gynnydd. Isod fe welir ffigyrau'n ymwneud â chynnydd cynllun 2010/12

Legionella (Eiddo Masnachol) – 82%
Legionella (Eiddo Domestig) – 100%
Asbestos Eiddo Masnachol – 100%
Asbestos Eiddo Domestig – 60%
Asbestos Cynnal a Chadw TLlU - 93%
LPG Eiddo – 100%
LPG Priffyrdd – 98%
LPG Tai – 100%
Trais a Bygythiad a Gweithwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain – 50%
Trais a Bygythiad a Gweithwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain (RMS) – 32%
Rheoli Contractwyr – Adeiladu Mawr/Bychan a Gwaith Ymatebol (Mawr – 74% Bychan – 82%)
Rheoli Contractwyr – Adeiladu Tai – 58%
Rheoli Contractwyr - Gwasanaethau - 50%
Cludiant – 99%
Cludiant – Cynnal a Chadw – 100%
Straen – 100%
Diogelwch Tân - 80%
Diogelwch Tân – Domestig – 70%
Sicrhau swyddogaeth graidd y Tîm Iechyd a Diogelwch - 100%
Monitro – 50%
Hyfforddi – 80%
Caffael – 10%
Adrodd am Ddamweiniau – 93%
Arweinyddiaeth a Pherchnogaeth – 99%

**Noder:** Mesur oedd hwn o gynnydd mewn perthynas â'r camau penodol yn y cynllun ar gyfer pob pwnc.

Datblygwyd cynllun ar gyfer 2012 i 2014 yn dilyn o gynllun 2010/12 a ffurfiwyd Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Roedd y grŵp yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth ac Uwch Swyddogion gyda phob un ag agwedd benodol i'w hyrwyddo. Cafwyd cyfarfod cychwynnol ac fe wnaeth y grŵp gais i gael Strategaeth Iechyd a Diogelwch Gorfforaethol.

Pwrpas y grŵp oedd canfod a oedd y camau yn y Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn berthnasol i'r newidiadau oedd ar y gweill yng Nghyngor Sir Ynys Môn.

Oherwydd gweithgaredd gyda'r Cynllun Trawsnewid ac Arfarnu Swyddi nid yw'r grŵp wedi ail-gyfarfod hyd yn hyn ac nid aethpwyd ymlaen gyda datblygu'r cynllun. Oherwydd newidiadau yn strwythur yr awdurdod, mae'n bosibl na fyddir wedi gweld llawer o gynnydd mewn rhai meysydd sydd angen sylw. Lle gwnaed gwaith altro ffisegol weithredu mesurau rheoli, ni ddylid gweld unrhyw newid.

Lle gweithredwyd rheolau rheolaethol efallai y bydd lleihad neu golli rheolaeth.

**LPG ac Awyru**

Fe all gostyngiad yn nifer y staff yn yr Adain Peirianneg Eiddo gael effaith ar reoli legionella ac LPG. Gwnaed gwaith sylweddol ar systemau awyru mewn cantinau ysgolion ar ôl i nifer o rybuddion "Mewn Risg" gael eu rhoi gan y contractwr cynnal a chadw. Roedd y gwaith hwn yn cael ei fonitro gan yr Adain Peirianneg Eiddo a bydd angen monitro'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yng nghyswllt cantinau.

| | |
|---|---|
| **Cam 6** | Cynlluniau gweithredu'n cael eu llunio i wella safonau gosodiadau LPG, offer cegin a systemau awyru i'w monitro a'u hadolygu er mwyn sefydlu beth yw statws y gwaith presennol ac yn y dyfodol. |

**Trais a Bygythiad a Gweithwyr sy'n Gweithio ar eu Pennau eu Hunain**

Nodwyd Trais a Bygythiad a Gweithwyr sy'n Gweithio eu eu Pennau eu Hunain fel materion a oedd angen sylw yn ystod cyfnod cynllun 2010/12 ac mae'n parhau yng nghynllun 2013/17. Ni wnaed unrhyw gynnydd ychwanegol yn y maes hwn. Roedd System Rheoli Risg Civica (RMS) yn system reoli cofnodiadau electronig i gofnodi enwau, cyfeiriadau neu fanylion eraill am risgiau tebygol i swyddogion, megis pobl a allai ymddwyn mewn modd treisgar. Sefydlwyd yr RMS yn 2007 a daeth yn segur yn 2011 a chafwyd problemau gyda chysylltedd oherwydd i TGCh gyflwyno cyfrifiaduron 64bit yn lle rhai 32bit. Nid oes unrhyw gofnodiadau ar y system oherwydd na chofnodwyd digwyddiadau oedd yn berthnasol i'r sawl a oedd wedi eu cofnodi ar y system. Cafodd yr holl gofnodiadau ar y system eu dileu er mwyn cydymffurfio gyda rheolau cadw data perthnasol a materion Diogelu Data.

Roedd gwaith ymchwiliol wedi'i gwblhau yn 2012 - 2013 ar systemau eraill oedd ar gael ac a allai ddisodli'r RMS ac roedd hyn yn cynnwys asesiad o systemau mewn awdurdodau lleol eraill. Dylai hyn barhau a dylid dewis a gweithredu system.

Gan gymryd i ystyriaeth ddata damweiniau / digwyddiadau, ymddengys mai digwyddiadau o Drais a Bygythiad sy'n cyfrif am y nifer uchaf o'r holl ffigyrau sy'n ymwneud â damweiniau / digwyddiadau a ffigyrau ar gyfer Gweithwyr sy'n Gweithio ar eu Pennau eu Hunain. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud gwaith yn y maes hwn.

Mae tebygrwydd y bydd mwy o weithwyr yn gweithio ar eu pennau eu hunain oherwydd y Cynllun Trawsnewid a byddai angen ailasesu'r rheolaethau sy'n eu lle ac o bosibl weithredu systemau newydd.

| | |
|---|---|
| **Cam 7** | Dylid nodi system yn lle'r system RMS i gofnodi peryglon y gwyddys amdanynt a'i gwneud yn bosibl i gyfathrebu am y peryglon sy'n wybyddus i'r holl bartïon pryd a phan fydd angen. |

**Straen**

Er mwyn rhoi sylw i gamau gweithredu cynllun 2010/12, fe ffurfiwyd Grŵp Straen. Pwrpas y grŵp oedd asesu'r mesurau sydd yn eu lle i reoli straen a helpu ar ôl yr achlysur gyda rhoi cymorth i gael gweithwyr yn ôl i'r gwaith. Roedd y rheolau a nodwyd yn cynnwys gwasanaeth cwnsela i helpu gyda dychwelyd i'r gwaith. Mae'r gwasanaeth cwnsela hwn yn parhau i gael ei gynnig ond fel y dywedwyd, triniaeth ymatebol ydyw.

Fel rhan o gynllun 2012/14, nodwyd bod parhad y grŵp hwn yn un cam gweithredu. Unwaith yn rhagor oherwydd trawsnewid ac arfarnu swyddi, ychydig iawn o gynnydd a wnaed yn y maes hwn.

| | |
|---|---|
| **Cam 8** | Dylai'r grŵp straen ffurfio i asesu a yw'r rheolau a nodwyd yn flaenorol yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gweithredu fel a ddymunir. Oherwydd newidiadau yn yr awdurdod efallai y bydd angen cael agweddau eraill tuag at straen. Gallai'r newidiadau ynddynt eu hunain gael eu hystyried fel rhywbeth sy'n peri straen ac o'r herwydd dylid ystyried hefyd asesu'r broses o newid a'r effaith ar staff. |

**Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

Roedd camau a nodwyd ar gyfer swyddogaeth graidd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cael ei ystyried fel gwaith oedd wedi ei gwblhau yng nghynllun 2010/12. Yn anffodus, yn 2013 gadawodd un aelod o'r tîm ac aeth aelod arall i ffwrdd ar salwch tymor hir a chyfnod o absenoldeb mamolaeth yn dilyn hynny. Ni chafwyd neb yn eu lle yn y ddwy swydd. Mae hyn wedi arwain at leihad yng nghapasiti'r tîm a'r gwasanaeth a ddarperir. Darparwyd adroddiad (11/11/13) gan yr Arweinydd Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol oedd yn rhoi opsiynau ar gapasiti'r tîm.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb i'r adroddiad ac ar ddiwedd y flwyddyn y gred oedd mai dim ond dwy adran oedd yn derbyn cefnogaeth iechyd a diogelwch. Cafwyd cyfarfod ar 16/4/14 rhwng y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ac Arweinydd Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i lunio cynllun i helpu'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gyda'r llwyth gwaith.

Yn ôl yr asesiad o gapasiti'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar ôl Rhybudd Gwella 2006, roedd un Rheolwr Iechyd a Diogelwch, pedwar Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch a chefnogaeth gan swyddog gweinyddol / technegol.

Y cynllun presennol yw i'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (dau ymgynghorydd) ddarparu cefnogaeth i'r Adrannau Cymuned a Dysgu Gydol Oes gydag Iechyd yr Amgylchedd yn darparu cefnogaeth i Ddatblygu Cynaliadwy ac Adnoddau.

| | |
|---|---|
| **Cam 9** | Dylid cynnal asesiad o'r ddarpariaeth o wasanaeth sydd ei angen gan iechyd a diogelwch i weld pa gapasiti sydd ei angen yn y tîm. Dylai hyn gymryd i ystyriaeth yr angen posibl i gau bylchau posibl rhwng y ddarpariaeth ar gyfer Iechyd Galwedigaethol a'r ddarpariaeth ar gyfer Iechyd a Diogelwch. Dylid rhoddi ystyriaeth i'r newid arwyddocaol yn yr awdurdod a'r angen am gefnogaeth ychwanegol i Reolwyr sydd wedi etifeddu peryglon a risgiau. |

**Caffael**

Nodwyd materion Iechyd a Diogelwch oedd yn cael eu hystyried yn ystod y cyfnod caffael yng nghynllun 2010/12 gydag ond ychydig iawn o gynnydd yn cael ei wneud. Parhawyd gyda'r camau yng nghynllun 2012/14. Dylai datblygiad y tîm caffael a Phrosiect caffael ar y Cyd Gogledd Cymru roi sylw i rai o'r camau o'r cynllun a rhai materion allai godi yn y dyfodol.

**Adrodd yn ôl am Ddamwain / Digwyddiad**

Nodwyd bod adrodd am ddamweiniau yn broblem yn 2007 a gwnaed gwaith i ddatblygu'r system adrodd yn ôl. I fynd i'r afael â rhai o'r materion, fe ddatblygodd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ffurflen electronig (dogfen Word), gyda'r wybodaeth a'r ffurflen yn cael ei chyflwyno ar system fewnrwyd Monitor a chyfeiriad e-bost canolog i'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Dylai hyn fod wedi ei gwneud yn haws i adrodd yn ôl am ddigwyddiadau.

Bydd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn defnyddio system Civica'r Adran Iechyd Amgylcheddol i gofnodi'r wybodaeth o ffurflenni damweiniau / digwyddiadau. Roedd hyn yn golygu rhoi gwybodaeth i mewn ddwywaith ac mae'n feichus o ran amser. Cafwyd rhai cwynion ynglŷn â diwyg y ffurflenni a swm y wybodaeth sydd ei hangen.

Lluniwyd y system hon fel dewis cost cyfyngedig i'r llyfrau copi carbon oedd yn cael eu defnyddio'n flaenorol a ffordd fwy effeithlon o anfon a derbyn y ffurflenni. Credir nad yw pob digwyddiad yn cael ei adrodd yn ôl yn yr awdurdod ac efallai bod y dull o adrodd yn ôl yn rhan o'r rheswm am hynny.

Mae systemau adrodd electronig modern ar gael allai leihau neu ddileu'r proses o roi gwybodaeth i mewn ddwy waith ac a fyddai'n fwy effeithiol ac effeithlon wrth gofnodi ac adrodd data am ddamweiniau / digwyddiadau.

Mae'n bosibl nad oedd nifer o'r digwyddiadau a gofnodwyd gan y Tîm Iechyd a Diogelwch yn ddigwyddiadau iechyd a diogelwch mewn gwirionedd. Bydd gweithwyr yn adrodd am y digwyddiadau hyn ar y system damweiniau / digwyddiadau oherwydd nad oes unrhyw system arall ar gael ar gyfer cofnodi digwyddiadau. Gallai system gofnodi ganolog ar gyfer pob math o ddigwyddiad fod o gymorth gyda'r mater hwn.

| | |
|---|---|
| **Cam 10** | Dylid ymchwilio i'r angen am system i adrodd a chofnodi digwyddiadau |

| | |
|---|---|
| | (nid yn unig rhai Iechyd a Diogelwch) a gweithredu ar hynny. Dylai system ar gyfer cofnodi pob digwyddiad sicrhau y gweithredir system fwy effeithlon a chost effeithiol. Dylai hyn fod o fudd i'r holl adrannau ac yn ei gwneud yn haws i ymateb yn fwy priodol yn dilyn digwyddiad, yn hytrach na'r Adran Iechyd a Diogelwch yn ymchwilio i bwy ddylai gael gwybod am ddigwyddiadau penodol. |
| | Oni ddylai fod system ganolog ar gyfer adrodd am bob digwyddiad ac oni ddylid ymchwilio i gael system fwy effeithiol ar gyfer adrodd am ddamweiniau / digwyddiadau. |

## 9 Cynllun Gweithredu Strategol

Roedd yr Arweinydd Tim Iechyd a Diogelwch Corfforaethol wedi paratoi Strategaeth Iechyd a Diogelwch Gorfforaethol a Dogfen Cyfrifoldebau Corfforaethol (a gyflwynir yn Atodiad1). Cyflwynir y strategaeth mewn tair elfen, Arweinyddiaeth, Proses a Diwylliant.

Un peth allweddol i'r strategaeth yw'r Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a fyddai o gymorth i fynd i'r afael â'r elfen gyntaf yn y strategaeth, sef Arweinyddiaeth.

Mae'r elfen Proses yn y Strategaeth Gorfforaethol yn cyfeirio at Rheoliad 5 y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith:

*5. (1) Every employer shall make and give effect to such arrangements as are appropriate, having regard to the nature of his activities and the size of his undertaking, for the effective planning, organisation, control, monitoring and review of the preventive and protective measures.*

Dylai Cynllunio a Threfniadaeth gael eu cynnwys yng nghynlluniau busnes blynyddol y gwasanaethau unigol a'u cyflwyno i'r Uned Perfformiad am eu sylwadau cyn eu cymeradwyo gan yr UDA.

Byddai hyn hefyd yn darparu elfen o Reolaeth yn yr ystyr y byddai ymwybyddiaeth o ba waith sydd i'w wneud a beth fydd canlyniadau'r gwaith.

Bydd y gwaith Monitro'n cael ei wneud gan reolwyr llinell fydd yn adrodd yn ôl i Benaethiaid Gwasanaeth, Yr Uned Perfformiad a'r UDA.

Byddir yn cynnal adolygiad o sut y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu a'i asesu yn erbyn y targedau a nodwyd ar adeg cyflwyno'r cynlluniau busnes.

Mae copi o'r Strategaeth Iechyd a Diogelwch Corfforaethol llawn yn cael ei gyflwyno yn yr atodiad (Atodiad 1)

## 10 Casgliad a Chynllun Datblygu

Yn ystod y 12 mis diwethaf, buwyd yn canolbwyntio ar Drawsnewid ac Arfarnu Swyddi. Oherwydd toriadau yn y cyllidebau a phwysau allanol i sicrhau bod y ddau ddarn o waith yn cael eu cwblhau, roedd yn hawdd deall y rhesymau am y canolbwyntio hwnnw.

Y pryder oedd y byddai rhai materion dydd i ddydd a'r cynnydd ran gwella safonau iechyd a diogelwch yn mynd ar ei hôl hin. Gallai ailstrwythuro'r cyngor olygu bod rhai swyddi penodol yn wag gyda'r tasgau a neilltuwyd i'r swyddoi hynny heb gael eu cwblhau.

Oherwydd ailstrwythuro, mae rhai Penaethiaid Gwasanaeth wedi etifeddu peryglon oedd yn newydd iddynt. Gallai'r ffaith nad oeddynt yn gyfarwydd gyda'r gwasanaethau a etifeddwyd olygu nad oes rheolau na systemau rheoli ddigonol yn eu lle.

Fe allai hyn ddigwydd hefyd wrth i'r cyngor symud ymlaen gyda'r Trawsnewid. Fe all cyflwyno dulliau newydd o weithio ac adleoli staff olygu y bydd peryglon newydd yn dod i'r fei neu risg wahanol o ran peryglon sydd eisoes yn bodoli.

Mae ffurfio'r Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn hanfodol i gael arweinyddiaeth ar gyfer iechyd a diogelwch. Mae sicrhau fod uwch reolwyr (Penaethiaid Gwasanaeth) yn hyrwyddo pynciau iechyd a diogelwch yn mynd i arddangos ymrwymiad yr uwch reolwyr i faterion iechyd a diogelwch.

Bydd hyn yn helpu i sefydlu diwylliant fydd yn fwy ymwybodol o ddiogelwch o fewn yr awdurdod. Dylai cyn-gynllunio a threfnu cynlluniau busnes, prosiectau a hyd yn oed dasgau gwaith bychan sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu ar gyfer y gwaith cyn ei ddechrau. Dylai cyn-gynllunio hefyd ganiatáu i'r gwaith fod yn fwy effeithlon, gyda llai o amser yn cael ei wastraffu yn disgwyl i adnoddau gael eu darparu.

Mae rhestr o gamau gweithredu o'r adroddiad i'w gweld isod. Mae'r camau yr ystyrir eu bod yn flaenoriaeth wedi eu marcio felly.

| | |
|---|---|
| **Cam 1** | Darllen ac ystyried y Ddogfen Cyfrifoldebau Corfforaethol a'i chymeradwyo fel dogfen gorfforaethol<br>**Blaenoriaeth** |
| **Cam 2** | Cynlluniau Iechyd a Diogelwch i'w hintegreiddio i Gynlluniau Busnes y Gwasanaethau a'u cyflwyno i'r Grŵp Adolygu Perfformiad am sylwadau cyn cael eu cyflwyno i'r UDA<br>**I fod yn eu lle ar gyfer Cynlluniau Busnes Gwasanaeth 2014/15** |
| **Cam 3** | Cynnal dadansoddiad dyfnach o'r digwyddiadau mewn perthynas ag ymddygiad treisgar a bygythiol er mwyn canfod yr achosion ac atebion posibl. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o grwpiau lle ceir digwyddiadau e.e. cyllid yn derbyn galwadau sarhaus gan weithwyr, gofalwyr gan gleientiaid, gwasanaethau llinell flaen eraill gan y cyhoedd yn gyffredinol.<br>**Blaenoriaeth** |


| | |
|---|---|
| **Cam 4** | Casglu ynghyd gofnodiadau hyfforddiant iechyd a diogelwch er mwyn cael cofrestr ganolog o staff sydd wedi eu hyfforddi ar gyfer swyddogaethau allweddol.<br>**I'w ddatblygu mewn pryd ar gyfer Cynlluniau Busnes Gwasanaeth 2014/15** |
| **Cam 5** | Parhau i wella cyfathrebu rhwng Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ac Iechyd Galwedigaethol. Nodi bylchau tebygol rhwng y ddau wasanaeth. Ystyried lle gallai cydweithio fod o fudd i'r ddau wasanaeth a'r cyngor cyfan.<br>**Blaenoriaeth** |
| **Cam 6** | Cynlluniau gweithredu'n cael eu llunio i wella safonau gosodiadau LPG, gosodiadau cegin a systemau awyru i'w monitro a'u hadolygu i sefydlu eu statws presennol a gwaith i'r dyfodol.<br>I **barhau yn unol â'r Cynllun Gweithredu LPG** |
| **Cam 7** | Dylid nodi system i ddisodli'r system RMS i gofnodi peryglon sy'n wybyddus ac er mwyn gallu cyfathrebu am y peryglon sy'n wybyddus i'r holl bartïon perthnasol pryd a phan fydd angen.<br>**Blaenoriaeth** |
| **Cam 8** | Dylai'r grŵp straen gyfarfod i asesu a yw'r rheolau a nodwyd yn flaenorol yn dal i fod yn berthnasol ac yn gweithredu fel y dymunir. Oherwydd newidiadau yn yr awdurdod, efallai y bydd angen cael agweddau eraill tuag at straen. Gallai'r newidiadau eu hunain gael eu hystyried fel rhywbeth sy'n achosi straen ac felly dylid ystyried asesu'r broses newid a'i heffaith ar staff.<br>**Blaenoriaeth** |
| **Cam 9** | Dylid cynnal asesiad o'r ddarpariaeth o wasanaeth sydd ei angen gan iechyd a diogelwch er mwyn gweld pa gapasiti sydd ei angen yn y tim. Dylai hyn ystyried yr angen posibl i gau bylchau posibl rhwng y ddarpariaeth o ran Iechyd Galwedigaethol a'r ddarpariaeth o ran Iechyd a Diogelwch. Dylid ystyried y newid sylweddol yn yr awdurdod a'r angen am gefnogaeth ychwanegol i reolwyr sydd wedi etifeddu peryglon a risgiau.<br>**Blaenoriaeth** |
| **Cam 10** | Dylid ymchwilio i'r angen am system i adrodd am ddigwyddiadau a'u cofnodi (nid yn unig Iechyd a Diogelwch) a'u gweithredu. Dylai system ar gyfer cofnodi pob digwyddiad ein galluogi i ddefnyddio system fwy effeithlon a chost effeithiol. Dylai hyn fod o fudd i'r holl adrannau gan alluogi ymateb mwy priodol i ddigwyddiad, yn hytrach na bod Iechyd a Diogelwch yn ymchwilio i bwy ddylai gael gwybod am ddigwyddiadau penodol.<br>**I'w sefydlu cyn 2014/15** |
| | Oni ddylid ystyried bod rhaid cael system ganolog i adrodd am bob digwyddiad, ac y dylid ymchwilio i gael system fwy effeithlon o ran adrodd am ddamweiniau / digwyddiadau.<br>**I'w sefydlu cyn 2014/15** |

**ATODIAD**

1 Strategaeth Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a Dogfen Cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

# STRATEGAETH IECHYD A DIOGELWCH
# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## 2013 – 2017




**Datblygu Cynaliadwy**
**Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**
**Tachwedd 2013**

## STRATEGAETH IECHYD A DIOGELWCH 2013 i 2017

### Rhagair

Yng ngweledigaeth y Cyngor ar gyfer y dyfodol, ceir chwe thema. Byddai'r themâu **Proffesiynol ac yn cael ei Redeg yn Dda, yn Gwerthfawrogi ein Pobl ac yn eu Datblygu** a **Chyflawni** yn arbennig o berthnasol i Iechyd a Diogelwch.

Mae sefydliad sy'n **Broffesiynol ac yn cael ei redeg yn Dda** yn cydnabod yr angen am safonau Iechyd a Diogelwch da ac fe ddylai'r safonau hynny yn eu tro allu dangos bod sefydliad yn **Gweld Gwerth** yn ei bobl ac yn eu **Datblygu**. Eto fe ddylai hyn yn ei dro helpu gyda'r broses o **Gyflawni** gweledigaeth iechyd a Diogelwch y Cyngor.

***Gweledigaeth Iechyd a Diogelwch y Cyngor yw ei fod yn hyderus ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac yn sicrhau lle gweithio diogel, arferion gweithio diogel ac amgylchedd gweithio diogel.***

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, byddir yn mabwysiadu strategaeth gyda thair egwyddor allweddol:

**Arweinyddiaeth:** bydd uwch reolwyr yn dangos ymrwymiad i iechyd a diogelwch drwy gynnwys ac integreiddio iechyd a diogelwch yn yr arferion gweithio o ddydd i ddydd c ar bob cam o'r broses drawsnewid.

**Proses:** sicrhau bod pob agwedd o'r gwaith yn dilyn proses gyffredin o Gynllunio, Trefnu, Monitro ac Adolygu holl agweddau'r gwaith

**Diwylliant:** diwylliant o ddiogelwch lle y byddir yn meddwl ymlaen a derbyn cyfrifoldeb wrth nodi unrhyw risgiau i bobl, eiddo a busnes gan sicrhau eu bod yn cael eu hosgoi neu eu rheoli.

Mae'r strategaeth hon yn ceisio rhoi cyfarwyddyd a chefnogaeth ar gyfer datblygu Cynllun gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a hefyd Gynlluniau Gweithredu Iechyd a Diogelwch Adrannau unigol.

Mae'r strategaeth Iechyd a Diogelwch wedi ei chymeradwyo gan Arweinydd y Cyngor Sir, y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Undebau Llafur cydnabyddedig. Bydd y ddogfen yn cynnig gwybodaeth ar gyfer y broses flynyddol o gynllunio camau gweithredu adrannol a chorfforaethol yn ystod y cyfnod hyd at 2017 a bydd ei hun yn destun adolygiad blynyddol er mwyn mesur ei haddasrwydd.

## *Egwyddor 1 Arweinyddiaeth*

***Proffesiynol ac yn cael ei Redeg yn Dda***

***Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu partneriaeth ddemocrataidd a phrofesiynol fydd yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol ac yn sefydlu'r ymddygiadau proffesiynol a sefydliadol sydd eu hangen ar gyfer sicrhau gwelliant.***

Bydd Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth wedi eu henwebu yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Corfforaethol yn llunio fframwaith gwella ar ffurf Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.  Bydd y fframwaith gwella yn ystyried y gofynion iechyd a diogelwch ar gyfer y Cynllun Trawsnewid, swyddogaethau dydd i ddydd yr Awdurdod, cyfyngiadau ariannol a thargedau realistig y gellir eu cyflawni

Bydd y gwaith o ddarparu a monitro cynnydd yn cael ei wneud gan y Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch corfforaethol gyda'r gwaith o fonitro sicrwydd yn cael ei wneud gan y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

Byddir yn adrodd yn ôl ar y ddwy broses fonitro i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol er mwyn galluogi iddo/iddi adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ac i'r UDA.

Bydd y Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn gweithredu fel y gyrrwr ar gyfer gwella ar draws yr Awdurdod cyfan.

## *Egwyddor 2 Proses*

***Yn Gweld Gwerth yn ein pobl ac yn eu Datblygu***

***Byddwn yn gweld gwerth yn ein pobl ac yn eu datblygu fel bod ganddynt y sgiliau a'u bod wedi eu hysgogi a'u bod bob amser yn broffesiynol yn y ffordd y maent yn gweithio. Byddwn yn cydnabod llwyddiant, arloesedd ac ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth eithriadol i'r cwsmer.***

**Cynllunio:** Ystyried anghenion iechyd a diogelwch pan yn cynllunio cyfeiriad y Cyngor a'r gwaith y mae angen iddo ei wneud er mwyn darparu gwasanaethau

Un elfen allweddol o gynllunio busnes yw'r rheidrwydd nodi'r risgiau busnes a chamau lliniaru. Mae'r egwyddor yr un ar gyfer iechyd a diogelwch. Wrth i gynlluniau darparu gwasanaeth gael eu llunio flwyddyn ar ôl blwyddyn, y disgwyliad yw y gellir darparu cofrestr risg ar gyfer y busnes. Bydd cofrestr ar gyfer risgiau iechyd a diogelwch a chamau lliniaru'n cael ei llunio. Unwaith y bydd risgiau wedi eu nodi, bydd y system reoli ar eu cyfer yn cael ei chynllunio.

**Trefnu:** Sicrhau bod y trefniadau a'r adnoddau ar gael i allu rheoli iechyd a diogelwch yn effeithiol

Rhai o'r elfennau o fewn sefydliad effeithiol yw cyfathrebu, rheolaeth a chymhwysedd. Byddir yn cyfathrebu drwy gyfarfodydd ar wahanol lefelau a bydd rheolaeth yn cael ei darparu drwy'r strwythur rheolaethol, gyda chymhwysedd yn cael ei ddarparu drwy ddewis cychwynnol, gwerthuso a hyfforddiant.

**Monitro:** Sicrhau bod trefniadau monitro effeithiol yn eu lle yn ogystal â systemau i adrodd yn ôl ac gofnodi cynnydd

Gwneir y gwaith monitro mewn sawl dull, arolygu, profi, archwilio ac arsylwi cyffredinol. Un agwedd allweddol o'r monitro yw cofnodi, adrodd yn ôl a gweithredu ar wybodaeth a gafwyd er mwyn cywiro problemau.

**Adolygu:** Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer perfformiad iechyd a diogelwch

Bydd yr adolygiad yn rhoi ystyriaeth i gylch swyddogaeth gyfan y gwasanaeth, cynllunio, trefnu a monitro. Dylai'r broses adolygu gynnwys cymharu data perfformiad yn erbyn y safonau a ddisgwylir er mwyn gweld lle y bydd diffygion ac i ystyried dulliau o fynd i'r afael â hynny.

# *Egwyddor 3 Diwylliant*

***Cyflawni***

***Rydym yn canolbyntio ar ganlyniadau a deilliannau ac yn gwneud pob ymdrech i wella ein perfformiad ym maes pwysig ein gwaith***

Drwy ddilyn y ddwy egwyddor gyntaf, bydd diwylliant o edrych ymlaen yn cael ei sefydlu yn yr Awdurdod i ystyried beth all fynd o'i le a pha niwed all ddod o hynny.  Dylai'r agwedd hon osgoi neu o leiaf reoli'r risgiau i'r Awdurdod, ei weithwyr, cwsmeriaid a'r cyhoedd yn gyffredinol cyn iddynt ddigwydd.

Er mwyn sicrhau bod diwylliant iechyd a diogelwch da yn bodoli rhaid i'r holl weithwyr gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd.  Mae'r Ddogfen Cyfrifioldebau Corfforaethol yn amlinellu'r cyfrifoldebau a ddisgwylir ar bob lefel.  Dylai'r holl weithwyr fod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau hyn a'u derbyn fel rhan o'u swydd.

O fewn y Rhaglen Drawsnewid, mae elfennau allweddol ar gyfer adeiladu sylfaeni'r cynllun yn nodi proses o ddatblygu diwylliant fydd yn perfformio'n uchel i Ynys Môn.  Dylai datblygu'r diwylliant o berfformiad uchel alluogi staff ar bob lefel i beidio â derbyn safonau gwael o ran Iechyd a Diogelwch.

**Heriau strategol cyfredol**

Mae'r Strategaeth Iechyd a Diogelwch yn darparu egwyddorion fel y gellir gwella safonau Iechyd a Diogelwch. Wrth ddatblygu ffrydiau gwaith o'r egwyddorion hyn, rhaid ystyried yr heriau a'r cyfyngiadau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Mae'r heriau hyn yn debyg i'r rheiny y disgwylir iddynt fod yn gysylltiedig â'r Cynllun Trawsnewid.

- Yr hinsawdd ariannol a'r strategaeth effeithlonrwydd
- Moderneiddio'r Gwasanaethau Plant
- Moderneiddio Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Adolygiad o'r Gwasanaethau hamdden
- Ynys Fenter
- Diwygio Lles
- Lleoli'r Cyngor yn rhanbarthol ac yn genedlaethol

Yn ychwanegol at yr heriau hyn, rhoddi ystyriaeth i effaith newid. Byddai'n cynnwys o bosib, golli gwybodaeth dechnegol, leol a hanesyddol yn yr adrannau. Rhaid cymryd i ystyriaeth hefyd y posibilrwydd y bydd pwysau gwaith yn cynyddu yn ystod unrhyw gyfnod o newid.

| | | |
|---|---|---|
| | **Arweinyddiaeth** | |
| | Cynllun Trawsnewid – nodi amcanion/nodau'r cynllun a'r hyn sydd ei angen i gydymffurfio gyda gofynion ID – y camau/prosiectau y mae eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth yn datblygu i fod yn rhan o'r Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. | |
| | Gwaith o ddydd i ddydd - asesu safonau Iechyd a Diogelwch ar gyfer gwaith y Cyngor o ddydd i ddydd er mwyn nodi diffygion posibl (adroddir arnynt yng nghyfarfodydd y Gwasanaeth a chânt eu monitro gan y Penaethiaid Gwasanaeth) – camau gweithredu/ prosiectau sydd eu hangen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch i gae eu datblygu i fod yn rhan o'r Cynllun Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. | |
| | Datblygu Cynllun Iechyd a Diogelwch o'r pwyntiau uchod - neilltuo pynciau/camau gweithredu i uwch reolwyr penodol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni a'u monitro - dyma fydd y Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch a fydd yn sicrhau cyflawni/monitro'r materion hyn (cyfarfod yn chwarterol i ystyried ac adrodd ar gynnydd - [Tîm Monitro PG Annibynnol] | |
| | **Proses** | |
| | Cynllunio –<br>Cynllun Trawsnewid – nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu, y trefniadau a'r adnoddau sydd eu hangen<br>Cynlluniau Darparu Gwasanaethau – nodi sut y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu a'r trefniadau a'r adnoddau sydd eu hangen<br>Polisi a gweithdrefnau ar gyfer pynciau penodol a dulliau gweithio | |
| | Trefnu<br>Cyfathrebu - Y Cynllun Trawsnewid/Cynlluniau Gwasanaethau/Polisïau a Gweithdrefnau'n cael eu cyfathrebu at bob lefel er mwyn sicrhau fod y systemau'n gweithredu'n effeithiol<br>Rheolaeth – cymeradwyo Cynlluniau Gwasanaeth cyn eu gweithredu a rheolwyr yn cymryd cyfrifoldeb llawn am ffactorau rheoli er mwyn goruchwylio cyflawniad y cynlluniau<br>Cymhwysedd – proses ddethol gychwynnol ar gyfer swyddi unigol gan ystyried y cymhwysedd sydd ei angen yn dilyn y gwerthusiad blynyddol a phroses ar gyfer hyfforddi gweithwyr/dewis contractwyr gan nodi'r cymhwysedd a'r capasiti ar gyfer gwaith contract (gan gynnwys adolygiadau o gontractau blaenorol) | |
| | Monitro<br>-rheolwyr llinell i fonitro cynnydd/archwiliadau ID / adolygiadau perfformiad /archwiliadau / adroddiadau cynnal a chadw / archwiliadau yswiriant / rheoli contractau / cyfarfodydd cynnydd / ymchwilio i ddamweiniau / goruchwylio iechyd / absenoldeb salwch. | |
| | Adolygiad - adolygiadau perfformiad, adroddiadau archwilio, adroddiadau sgriwtini i ddarparu atborth ar gyfer yr UDA a'r Pwyllgor i'w ystyried a chymharu canlyniadau gyda'r disgwyliadau yn ystod y cyfnod cynllunio. Bydd hyn yn fodd o nodi'r gwelliant y mae ei angen yn y dyfodol. Byddai hyn yn fodd o ddychwelyd i gam cyntaf y gwaith Cynllunio er mwyn rhoi sylw i'r diffygion a datblygu camau gweithredu ar gyfer Cynlluniau Iechyd a Diogelwch yn y dyfodol. | |
| | **Diwylliant** | |
| | Arweinwyr i gyfathrebu neges perfformiad ac mae osgoi colled yn arwydd o awydd y Cyngor i wella.<br>Mae blaengynllunio yn ystod prosesau gweithredol y Cyngor yn dangos mai drwy fod yn bwyllog, darparu adnoddau digonol a monitro ac adolygu y gellir sicrhau gwelliant.<br>Bydd staff sy'n glynu wrth eu canllawiau a'r camau gweithredu yn y Broses yn cael y neges mewn perthynas ag Atebolrwydd a'r awydd i wella. | |
| | Mae'r ddogfen mewn perthynas â chyfrifoldebau Corfforaethol (yr atodiad) yn rhoi cyfarwyddyd i'r holl staff am eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch. Yn achos pob aelod o staff, y rhain yw sicrhau eu bod yn cymryd gofal ohonynt eu hunain, yn ystyried eraill ac yn rhoi gwybod am faterion sy'n achosi pryder. | |

**Atodiad i'r Strategaeth**

**Dogfen Cyfrifoldebau Corfforaethol**

# Cyfrifoldebau am y Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â Rhan 3 y Datganiad Cyffredinol ar y Polisi Iechyd a Diogelwch

Adolygwyd Gorffennaf 2013

**Y Cyngor**

1. Bydd yn darparu Polisi Corfforaethol effeithiol ar gyfer Iechyd a Diogelwch ac yn darparu trefniadau effeithiol er mwyn sicrhau amgylcheddau ac arferion gweithio diogel.

2. Yn sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, bod adnoddau digonol ar gael i fodloni gofynion iechyd, diogelwch a lles gan gynnwys cefnogaeth ddigonol ar gyfer iechyd a diogelwch.

3. Yn asesu effeithiolrwydd y polisi corfforaethol o bryd i'w gilydd ac yn sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol sy'n deillio o asesiad o'r fath yn cael eu cynnwys yn y polisi.

4. Yn sicrhau prosesau effeithiol o ran gwneud penderfyniadau ar lefel aelodau etholedig fel arwydd o ymrwymiad diamwys i drefniadau effeithiol o ran iechyd, diogelwch a lles yn y sefydliad.

5. Yn mynychu sesiynau hyfforddi / briffio a ddarperir i sicrhau bod gan aelodau etholedig ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â threfniadau iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y y Cyngor Sir.

**Y Pwyllgor Gwaith**

1. Trwy wneud penderfyniadau'n uniongyrchol ac / neu drwy ddirprwyo i aelodau portffolio a swyddogion, i weithredu ar gyfrifoldeb y Cyngor fel corfforaeth mewn perthynas  iechyd, diogelwch a lles.

2. Mewn ymgynghoriad â Thîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor Sir, cytuno ar dargedau ar gyfer gwelliannau o un flwyddyn i'r llall neu yn y tymor hwy o ran perfformiad iechyd, diogelwch a lles ar lefel gorfforaethol yn y sefydliad.

**Yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a'r Amgylchedd / Trawsnewid Perfformiad; y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol**

1. Yn cymryd diddordeb uniongyrchol ac yn cefnogi y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Corfforaethol y Cyngor Sir i gyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â threfniadau iechyd, diogelwch a lles cyffredinol y Cyngor Sir.

2. Fel cadeirydd y Panel Rheoli Perfformiad, bydd yn gyfrifol am fonitro yn effeithiol ac yn rheolaidd y modd y caiff iechyd, diogelwch a lles eu rheoli yn y sefydliad.

**Aelodau Portffolio'r Gwasanaethau**

1. Yn datblygu, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, werthfawrogiad o'r polisïau iechyd a diogelwch sy'n berthnasol i'r gwasanaeth a'r gweithgareddau y maent yn gyfrifol amdanynt fel rhan o'u portffolio.

2. Yn sicrhau bod amser priodol yn cael ei roi, yn ystod cyfarfodydd gyda cyfarwyddwyr a rheolwyr, i drafod ac asesu perfformiad iechyd, diogelwch a lles o fewn y meysydd gwasanaeth y maent yn gyfrifol amdanynt.

3. Yn cefnogi gweithredoedd y pennaeth gwasanaeth a'r rheolwyr gwasanaeth eraill i weithredu a chynnal rhaglenni i wella perfformiad iechyd, diogelwch a lles.

4. Yn mynychu unrhyw gyfarfod ffurfiol o gydbwyllgor iechyd a diogelwch lle bydd mater sy'n berthnasol rhan o'u cyfrifoldeb portffolio yn cael ei ystyried.

**Y Prif Weithredwr**

1. Bydd yn gyffredinol gyfrifol i'r Cyngor Sir am ddatblygu a gweithredu'n effeithiol, strategaethau, polisïau, rhaglenni a threfniadau Iechyd, Diogelwch a Lles yn y sefydliad.

2. Bydd yn sicrhau fod y cyfrifoldebau am reoli iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith yn cael yn cael eu neilltuo'n gywir a'u derbyn ar bob lefel gydag adnoddau digonol ar gael i sicrhau fod modd cydymffurfio gyda'r gofynion deddfwriaethol perthnasol.

3. Dwyn at sylw'r Cyngor Sir argymhellion ar gyfer adnoddau ychwanegol lle tybir bod y rhain yn angenrheidiol i bwrpas cydymffurfio gyda deddfwriaeth.

4. Ar lefel y Tîm Arweinyddiaeth bod yn gyfrifol am fonitro yn effeithiol ac yn rheolaidd - ar lefel cyfadrannau - y modd y mae iechyd, diogelwch a lles yn cael eu rheoli a rhoi cefnogaeth i'r aelod portffolio Staff, Polisi a Pherfformiad i sicrhau monitro effeithiol ar lefel gorfforaethol.

5. Yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch yn ei gyfadran ei hun a mynychu sesiynau hyfforddi/briffio sy'n berthnasol i'w swyddogaeth a'i gyfrifoldebau.

6. Bydd yn rhoi arweinyddiaeth reolaethol a chefnogaeth i'r gwasanaethau a leolir yn ei gyfadran ei hun a bydd yn goruchwylio'r modd y caiff perfformiad o ran iechyd, diogelwch a lles ei fonitro ar draws y gyfadran.

**Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygiad Cynaliadwy**

1. Bydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymgynghorol canolog effeithiol yn y Cyngor Sir ar gyfer materion iechyd, diogelwch a lles a bydd gan y gwasanaeth adnoddau priodol.

2. Yn sicrhau fod polisi corfforaethol y Cyngor Sir yn cael ei ddeall ar bob lefel ac ar draws y sefydliad.

3. Yn sicrhau fod prosesau effeithiol yn cael eu sefydlu ar gyfer darparu gwybodaeth a hyfforddiant ar yr holl bolisïau, strategaethau, rhaglenni a phrosesau iechyd, diogelwch a lles i'r holl weithwyr, gwirfoddolwyr a gweithwyr achlysurol ac aelodau etholedig.

4. Yn cyflawni swyddogaeth Eiriolydd Iechyd a Diogelwch yn y Cyngor a bydd -

a. Yn cymryd diddordeb uniongyrchol mewn mentrau iechyd a diogelwch ac yn eu hyrwyddo a'u cefnogi'n egnïol yn y Cyngor Sir.

b. Yn mynd ati'n egnïol i annog a chefnogi pawb i gyflawni eu dyletswyddau o ran rheoli iechyd a diogelwch yn effeithiol a gweithredu'r gofynion deddfwriaethol.

5. Yn cefnogi'r gwaith o oruchwylio, monitro ac adolygu perfformiad o ran diogelwch yn gyffredinol a strategaethau, polisïau, prosesau ac ati gyda golwg ar gynnal adolygiadau i sicrhau gwelliant.

6. Yn sicrhau fod trefniadau'n cael eu sefydlu i ddwyn cynrychiolwyr diogelwch y gweithlu a'r undebau llafur cydnabyddiedig i mewn i bwyllgorau iechyd a diogelwch.

7. Yn sicrhau y cynhelir cyswllt effeithiol gyda sefydliadau allanol sy'n weithredol yn y maes iechyd a diogelwch gan gynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

8. Fel Cyfarwyddwr Corfforaethol, ymgymryd â'r cyfrifoldebau iechyd a diogelwch am y gweithgareddau sy'n rhan o'i faes gwaith.

**Cyfarwyddwyr Corfforaethol**

1. Yn gyfrifol am bob agwedd o Iechyd a Diogelwch yn eu Cyfadrannau.

2. Yn sicrhau fod System addas a digonol ar gyfer Rheoli Iechyd a Diogelwch yn cael ei gweithredu a'i monitro yn eu cyfadrannau.

3. Yn sicrhau fod adnoddau digonol yn cael eu nodi a'u darparu er mwyn sicrhau y gellir cyflawni gweithgareddau yn ddiogel ac mewn modd sy'n cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol.

4. Yn integreiddo Iechyd a Diogelwch i Gynlluniau Busnes yr Adran fel y gellir datblygu Cynlluniau Iechyd a Diogelwch addas a digonol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus mewn safonau.

**Pennaeth Gwasanaeth**

1. Yn gyfrifol am bob agwedd o Iechyd a Diogelwch yn eu Gwasanaeth.

2. Yn sicrhau fod System addas a digonol ar gyfer Rheoli Iechyd a Diogelwch yn cael ei gweithredu a'i monitro yn eu Gwasanaeth.

3. Yn sicrhau fod adnoddau digonol yn cael eu nodi a'u darparu er mwyn sicrhau y gellir cyflawni gweithgareddau yn ddiogel ac mewn modd sy'n cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol.

4. Yn integreiddo Iechyd a Diogelwch i Gynlluniau Busnes yr Adran fel y gellir datblygu Cynlluniau Iechyd a Diogelwch addas a digonol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus mewn safonau.

**Rheolwyr Gwasanaeth a Rheolwyr Eraill**

1. Yn gyfrifol am bob agwedd o Iechyd a Diogelwch yn eu maes gwaith.

2. Yn sicrhau fod System addas a digonol ar gyfer Rheoli Iechyd a Diogelwch yn cael ei gweithredu a'i monitro yn eu maes gwaith.

3. Yn sicrhau fod adnoddau digonol yn cael eu nodi a'u darparu er mwyn sicrhau y gellir cyflawni gweithgareddau yn ddiogel ac mewn modd sy'n cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol.

4. Yn cynorthwyo'r Pennaeth Gwasanaeth i integreiddio Iechyd a Diogelwch i Gynlluniau Busnes yr Adran fel y gellir datblygu Cynlluniau Iechyd a Diogelwch addas a digonol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus mewn safonau.

**Pob Gweithiwr Unigol (gan gynnwys rhai dros dro ac achlysurol a gwirfoddolwyr)**

1. Yn cymryd gofal rhesymol am eu hiechyd, diogelwch a'u lles eu hunain ac eraill a all gael eu heffeithio gan eu gwaith.

2. Yn cynorthwyo rheolwyr llinell gydag Iechyd a Diogelwch drwy lynu wrth bolisïau, gweithdrefnau, systemau gwaith diogel a rheolau safle lle mae angen hynny.

3. Yn defnyddio'r holl offer diogelwch yn y modd y mae angen ei ddefnyddio ac ni ddylid ymyrryd â neu gamddefnyddio unrhyw beth a ddarperir er budd iechyd, diogelwch ac/neu les.

4. Yn dweud yn syth wrth eu goruchwyliwr neu reolydd llinell pan fydd damwain yn digwydd neu os ceir digwyddiad peryglus.

5. Yn sôn, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, wrth eu goruchwyliwr neu reolydd am unrhyw beryglon posib i iechyd a diogelwch a nodwyd wrth wneud eu gwaith.

6. Yn cymryd rhan lawn mewn unrhyw weithgaredd hyfforddiant iechyd a diogelwch neu les sydd, ym marn rheolwr yr adran, yn hanfodol i'w dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

**Y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

1. Yn hyrwyddo ac yn cynorthwyo i gynnal iechyd, diogelwch a lles yn y sefydliad.

2. Darparu gwasanaeth ymgynghorol iechyd a diogelwch i'r holl staff.

3. Cynorthwyo'r UDA, PG a rheolwyr i ddatblygu a chynnal system rheoli iechyd a diogelwch ar lefel y gwasanaethau ac ar gyfer yr sefydliad cyfan.

4. Cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau gweithredu iechyd a diogelwch yn y sefydliad a monitro cynnydd gyda'r cynlluniau.

5. Ymgynghori gyda'r Gwasanaethau AD ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd gweithwyr.

6. Sicrhau yr ymchwilir yn effeithiol i ddamweiniau a digwyddiadau a lle mae angen hynny, cyflwyno adroddiadau ynghylch digwyddiadau o'r fath i'r AGID (yn unol â gofynion RIDDOR)

7. Ymgynghori gyda'r awdurdodau gorfodaeth ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch.

8. Hwyluso cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch gan gynnwys cyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Iechyd a Diogelwch a'r Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch.

**Pennaeth y Gwasanaethau Proffesiynol**

1. Yn sicrhau, ar adeg recriwtio, bod manyleb y person yn cynnwys y cymhwyster a'r cymhwysedd perthnasol i fodloni'r gofynion cyfreithiol a'r anghenion o ran iechyd a diogelwch.

2. Yn sicrhau bod gwasanaethau ymgynghori a chefnogi effeithiol yn bodoli i gynorthwyo rheolwyr adrannol gyda phob agwedd ar reoli achosion o absenoldeb salwch ac anaf diwydiannol.

3. Yn sicrhau bod gwasanaeth cwnsela cyfrinachol ar gael ar gyfer achosion unigoln straen a chyflyrau tebyg.

4. Yn sicrhau bod gwybodaeth a chanllawiau ynghylch iechyd a diogelwch yn cael eu cynnwys yn yr holl brosesau cynefino.

5. Yn ymgynghori gyda'r Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol i ddarparu hyfforddiant iechyd a diogelwch effeithiol ar bob lefel.

6. Yn cydlynu gweithgareddau a rhaglenni'n ganolog er mwyn cwrdd â gofynion y strategaeth iechyd gorfforaethol.

**Pob Unigolyn Arall ar Eiddo'r Cyngor**

1. Yn ufuddhau i reolau iechyd a diogelwch y Cyngor Sir ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan swyddogion – yn cynnwys y rhai hynny sy'n derbyn ymwelwyr neu'r rhai hynny y mae apwyntiad / cyfarfod penodol â hwy.

**Pobl Sy'n Llogi Eiddo'r Cyngor (yn cynnwys ysgolion)**

1. Yn ymddwyn ac yn cynnal eu gweithgareddau mewn modd sy'n golygu y gellir bodloni'r holl ofynion o ran iechyd, diogelwch a lles bob amser.

2. Yn clustnodi un unigolyn cymwys a fydd yn bennaf gyfrifol am y cyfnod llogi ac y bydd disgwyl iddo/iddi gysylltu â'r swyddog(ion) perthnasol yn y cyngor ar faterion iechyd a diogelwch.

3. Yn cydymffurfio â'r holl ganllawiau / cyfarwyddiadau iechyd, diogelwch a lles a ddarperir gan swyddogion y Cyngor.

4. Ni fyddant, heb gael caniatâd ymlaen llaw gan swyddog o'r Cyngor Sir, yn newid nac yn addasu unrhyw eitem sefydlog, nac yn symud na'n ymyrryd â rhybuddion ac offer diogelwch, tân neu gymorth cyntaf.

**Contractwyr ac Isgontractwyr**

*D.S. Os yw gwaith yn cael ei wneud gan gontractwr ar ran y Cyngor Sir, caiff y gwaith hwnnw ei oruchwylio gan swyddogion o'r awdurdod er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â'r fanyleb ac nad yw gweithwyr ac / neu aelodau'r cyhoedd yn cael eu peryglu gan waith y contractwr.*

*Gweler y canllawiau ar wahân ar gyfer staff sy'n goruchwylio contractwyr*

1. Bydd dogfennau tendro yn cynnwys cyfeiriad at ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r contractwr mewn perthynas ag iechyd a diogelwch yn y gwaith ac yn mynnu fod yr holl waith yn cael ei gwblhau i safon ddiogelwch sy'n cyfateb â'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

2. Bydd y Cyngor Sir yn dwyn sylw'r contractwr at fanylion unrhyw beryglon y gwyddys amdanynt neu y rhaglwelir y gall ddod ar eu traws yn ystod y gwaith.

**Staff sy'n Gyfrifol am Brynu/ Caffael**

1. Yn sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol, fod yr holl nwyddau, offer ac ati a brynir i'w defnyddio yn y Cyngor Sir neu gan ei asiantiaid, wedi'u cynllunio a'u cynhyrchu fel eu bod yn ddiogel ac nad ydynt yn peri risg i iechyd o'u defnyddio'n gywir a chyda'r wybodaeth ddiogelwch berthnasol.

2. Yn sicrhau bod unrhyw addasiadau i offer sylfaenol a neilltuwyd i wella perfformiad yn cael eu hystyried ymlaen llaw mewn cydweithrediad â'r Swyddog Iechyd a Diogelwch perthnasol.

***D.S.** Mewn unrhyw achos pan fydd contract ar gyfer gwasanaeth gan drydydd parti yn cael ei gaffael, bydd y staff sy'n gyfrifol am brynu / caffael yn cynefino eu hunain gyda'r gofynion mewn perthynas â staff sy'n goruchwylio contractwyr i'r graddau y maent yn berthnasol i gaffael yn ogystal ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer contractwyr.*

**Staff sy'n Goruchwylio Contractwyr**

1. Yn cynefino eu hunain â pholisïau'r Cyngor mewn perthynas â chontractwyr / isgontractwyr.

2. Yn sicrhau bod y contractwr llwyddiannus yn gweithio'n unol â threfniadau polisi iechyd a diogelwch effeithiol a bod trefn effeithiol o ran diogelwch yn cael ei sefydlu gydag uwch swyddog gweithredol enwebedig sy'n bennaf gyfrifol am faterion iechyd, diogelwch a lles.

3. Yn dwyn sylw'r contractwr at fanylion unrhyw beryglon y gwyddys amdanynt neu y rhaglwelir y gall ddod ar eu traws yn ystod y gwaith

4. Yn cynefino eu hunain â'r holl ddeddfwriaeth, codau ymarfer diogelwch ac ati sy'n ymwneud â'r gwaith y bydd y contractwr yn ei gyflawni.

5. Os bydd unrhyw broblem iechyd, diogelwch neu les yn codi yn ystod y gwaith contract, bydd yn cysylltu ar unwaith â'r swyddog iechyd a diogelwch perthnasol mewn ymgais i gywiro'r broblem gyda'r contractwr.

6. Os bydd problemau yn parhau mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith am nad yw'r contractwr yn ufuddhau i ofynion statudol, byddant yn hysbysu'r uwch reolwyr fel y gallant ystyried cymryd camau pellach (a allai gynnwys terfynu'r trefniant contract).

**Undeb Llafur (gan gynnwys Addysg)**

Er nad oes unrhyw gyfrifoldeb penodol ar Undebau Llafur dan y ddeddfwriaeth sydd ohoni, fel "grŵp" cynrychiadol neu drefnedig o weithwyr unigol, mae'n ofynnol iddynt - fel estyniad rhesymegol o adran 7(b) y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati - gydweithredu â'r cyflogwr cyn belled ag y bo angen er mwyn gallu cydymffurfio â gofynion statudol.

Ymhellach, mae'r fframwaith polisi Adnoddau Dynol sy'n weithredol yn y Cyngor Sir yn cydnabod rhai Undebau Llafur ac mae'n seiliedig ar yr egwyddor o gydweithio er mwyn cyflawni nodau ac amcanion a chyd-gytuno ar lawer o bolisïau a phrosesau, pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol.

**Cydgysylltwyr Iechyd a Diogelwch Adrannol**

1. Yn cymryd diddordeb uniongyrchol mewn mentrau iechyd, diogelwch a lles ac yn mynd ati i'w hyrwyddo a'u cefnogi o fewn eu cyfadrannau eu hunain.

2. Yn gweithredu fel cynrychiolydd eu cyfadran ar y grŵp Corfforaethol.

3. Yn sicrhau bod Tîm Rheoli eu Cyfadran yn cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf yn y maes iechyd a diogelwch ac yn cael gwybod am drafodaethau yn y grŵp Corfforaethol a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt gan y grŵp hwnnw.

4. Yn cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i ddod â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor i sylw bob gweithiwr.

5. Yn ceisio annog cyswllt effeithiol rhwng y gwahanol gyfadrannau a gwasanaeth ymgynghorol iechyd a diogelwch corfforaethol y Cyngor.

**Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes (gan gyfeirio'n benodol at ysgolion)**

1. Yn sicrhau y dygir sylw Corff Llywodraethu a Phennaeth pob ysgol dan awdurdod y Cyngor Sir at bob polisi a chanllaw, cyfarwyddyd a chyngor ar iechyd, diogelwch a/neu les a gyhoeddir yn gorfforaethol gan neu ar ran y Cyngor Sir, ynghyd ag unrhyw ganllawiau DFE, ESAC neu AGID ac ati yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles mewn sefydliadau a gweithgareddau ysgolion.

2. Yn cynnal trosolwg er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod ysgolion yn cydymffurfio â fframwaith polisi cyffredinol y Cyngor Sir ar faterion iechyd, diogelwch a lles perthnasol.

3. Yn trefnu archwiliadau achlysurol o drefniadau rheoli iechyd, diogelwch a lles mewn ysgolion.

**Cyrff Llywodraethol**

*Cyd-destun y cyfrifoldebau hyn yw mai'r Cyngor Sir, fel y cyflogwr, sy'n gyfrifol yn y pen draw am iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.*

1. Yn bennaf gyfrifol am sicrhau bod gan yr ysgol bolisi a threfniadau effeithiol i ddelio ag iechyd, diogelwch a lles ei staff, ei disgyblion, ei rhieni ac eraill ar eiddo'r ysgol sy'n ymwneud â gweithgareddau ysgol y tu allan i eiddo'r ysgol.

2. Yn cytuno ar dargedau i wella perfformiad ym maes iechyd, diogelwch a lles o fewn yr ysgol o un flwyddyn i'r llall, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth.

3. Yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, fod digon o adnoddau yn cael eu darparu i fodloni gofynion iechyd, diogelwch a lles o fewn yr ysgol.

4. Yn monitro o bryd i'w gilydd effeithiolrwydd trefniadau rheoli iechyd, diogelwch a lles o fewn yr ysgol ac yn arfarnu effeithiolrwydd y polisi iechyd a diogelwch, gan sicrhau bod unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu hymgorffori yn y polisi.

5. Yn mynychu sesiynau hyfforddi / briffio a ddarperir i sicrhau bod y corff llywodraethol yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau'n glir ym maes iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

**Penaethiaid Ysgolion**

1. Yn bennaf gyfrifol i'w corff llywodraethol am ddatblygu a gweithredu polisïau a rhaglenni iechyd, diogelwch a lles ar gyfer eu hysgol yn effeithiol ac am sefydlu trefniadau iechyd a diogelwch effeithiol o fewn yr ysgol.

2. Yn sicrhau bod cyfrifoldebau dros reoli iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith yn cael eu neilltuo'n briodol a'u derbyn ar bob lefel.

3. Yn sicrhau bod yr holl hyfforddiant iechyd a diogelwch angenrheidiol ar gyfer yr ysgol yn cael ei gynllunio a'i ddarparu.

4. Yn tynnu sylw'r corff llywodraethol, pan fo angen, at argymhellion ar gyfer adnoddau ychwanegol os bernir bod eu hangen er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, yn ogystal ag unrhyw broblemau sylweddol sy'n codi wrth weithredu polisïau iechyd a diogelwch.

5. Yn cymryd diddordeb uniongyrchol mewn rhaglenni iechyd a diogelwch o fewn yr ysgol ac yn mynd ati'n gyhoeddus ac yn frwd i gefnogi staff sy'n ymwneud â'u cynnal.

6. Yn sicrhau bod yr holl staff, disgyblion, rhieni ac unigolion perthnasol eraill yn ymwybodol o bolisi iechyd, diogelwch a lles yr ysgol ac o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, fel y'u diffinnir yn y polisi hwnnw.

7. Yn gyfrifol am fonitro'r trefniadau rheoli iechyd, diogelwch a lles o fewn adrannau ac unedau unigol yr ysgol yn effeithiol ac yn rheolaidd, ac am baratoi a chyflwyno adroddiadau monitro i'r corff llywodraethol.

8. Yn ystyried o ddifrif unrhyw sylwadau am iechyd, diogelwch neu les gan unrhyw aelod o staff yr ysgol ac yn ymgynghori â'r cynrychiolwyr diogelwch yn y gweithle ynglŷn â materion iechyd, diogelwch a lles fel y bo'n briodol.

9. Yn mynychu sesiynau hyfforddi / briffio sy'n berthnasol i'w swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

10. Yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, nad oes yr un aelod o'r cyhoedd nac unrhyw un arall sy'n mynychu eiddo'r ysgol yn wynebu risgiau iechyd a diogelwch oherwydd gweithgareddau'r ysgol.

**Penaethiaid Adran mewn Ysgolion**

1. Yn uniongyrchol gyfrifol am reoli iechyd, diogelwch a lles yn effeithiol o fewn eu hadran yn yr ysgol.

2. Yn cynefino eu hunain â pholisïau a chodau ymarfer iechyd, diogelwch a lles yr ysgol ynghyd â holl bolisïau corfforaethol perthnasol y Cyngor Sir.

3. Yn sicrhau bod pob aelod o'r staff addysgu a staff cymorth eraill yn derbyn hyfforddiant digonol ac yn arbennig bod unrhyw weithwyr newydd, dros dro neu wirfoddol yn derbyn cyfarwyddyd ynglŷn â'u dyletswyddau, gan roddi sylw dyledus i ofynion y ddeddfwriaeth yn ymwneud â diogelwch.

4. Yn mynychu sesiynau hyfforddi / briffio sy'n berthnasol i'w rôl a'u cyfrifoldebau.

5. Yn sicrhau y rhoddir gwybod am ac y rhoddir sylw prydlon i bob diffyg, damwain, digwyddiad peryglus a pherygl.

6. Yn sicrhau bod safonau cadw tŷ uchel yn cael eu cynnal yn yr adran bob amser.

7. Yn sicrhau bod asesiadau risg wedi'u cwblhau ar gyfer pob gweithgaredd a thasg o fewn yr adran, bod camau sy'n deillio o'r asesiadau risg hynny'n cael eu cymryd yn brydlon, bod darganfyddiadau'r asesiadau risg hynny'n cael eu cyfleu i'r unigolion perthnasol a bod yr asesiadau risg hynny'n cael eu hadolygu a'u diwygio cyn amled ag y bo'n briodol ymhob achos.

8. Yn darparu gwybodaeth am berfformiad iechyd, diogelwch a lles eu hadran i'r pennaeth mor aml ac yn unol â'r fformat a nodir gan y pennaeth.

9. Yn ystyried o ddifrif unrhyw sylwadau ynglŷn ag iechyd, diogelwch a lles a wneir gan unrhyw aelod o staff yr adran.

10. Yn ymgynghori ag unrhyw gynrychiolydd diogelwch yn y gweithle fel y bo angen.

11. Yn cynnal archwiliadau iechyd a diogelwch o fewn eu hadrannau o dro i dro.

**Athrawon, Staff Cymorth Dysgu a Staff Gweinyddol**

1. Yr un modd â phob gweithiwr unigol (ac fel y dywedwyd eisoes yn y ddogfen hon), cymryd gofal rhesymol am eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles eu hunain ac am iechyd, diogelwch a lles eraill a all gael eu heffeithio gan yr hyn y maent yn ei wneud neu nad ydynt yn ei wneud.

2. Yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y disgyblion a'r staff cymorth dysgu hefyd yn gwisgo ac/neu'n defnyddio'r offer diogelwch perthnasol pryd bynnag y mae hynny'n briodol.

3. Yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y dosbarth / dysgu / gweithgaredd / man gweithio yn ddiogel cyn cychwyn gwersi / gweithgareddau / gwaith.

4. Cymryd rhan lawn mewn unrhyw weithgaredd hyfforddiant iechyd a diogelwch neu les sydd, ym marn eu pennaeth adran, yn hanfodol i'w dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

**ATODIAD**

2 Damwain / Data am Ddigwyddiadau

**Damwain / Data am Ddigwyddiadau**

Isod, ceir y ffigyrau ar gyfer yr holl ddamweiniau/digwyddiadau ar draws yr Awdurdod cyfan. Mae'n cynnwys gweithwyr, disgyblion, defnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r cyhoedd a digwyddiadau'n ymwneud â digwyddiadau o ddifrod neu golled mewn perthynas â chyfleusterau ac offer.

| Yr holl ddamweiniau / digwyddiadau (gan gynnwys aelodau'r cyhoedd) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | **2013/14** | | | | |
| | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 | Diwedd y Flwyddyn |
| Mân | 188 | 168 | 346 | 301 | 1003 |
| Difrifol | 76 | 56 | 41 | 44 | 217 |
| RIDDOR | 5 | 5 | 3 | 5 | 18 |
| Cyfanswm | 269 | 229 | 390 | 350 | 1238 |
| **Cymhariaeth gyda blynyddoedd blaenorol** | | | | | |
| Yr holl ddamweiniau / digwyddiadau (gan gynnwys aelodau'r cyhoedd) | | | | | |
| Blwyddyn | **2012/13** | | | | |
| | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 | Diwedd y Flwyddyn |
| Mân | 301 | 248 | 349 | 270 | 1168 |
| Difrifol | 51 | 38 | 47 | 59 | 195 |
| RIDDOR | 10 | 7 | 20 | 7 | 44 |
| Cyfanswm | 362 | 293 | 416 | 336 | 1407 |
| | | | | | |
| Blwyddyn | **2011/12** | | | | |
| | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 | Diwedd y Flwyddyn |
| Mân | 153 | 195 | 245 | 355 | 948 |
| Difrifol | 41 | 39 | 42 | 48 | 170 |
| RIDDOR | 3 | 16 | 21 | 21 | 61 |
| Cyfanswm | 197 | 250 | 308 | 424 | 1179 |
| | | | | | |
| Blwyddyn | **2010/11** | | | | |
| | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 | Diwedd y Flwyddyn |
| Mân | 307 | 264 | 278 | 328 | 1177 |
| Difrifol | 24 | 25 | 18 | 24 | 91 |
| RIDDOR | 8 | 22 | 28 | 32 | 90 |
| Cyfanswm | 339 | 311 | 324 | 384 | 1358 |

Isod, gweler y ffigyrau ar gyfer yr holl ddamweiniau/digwyddiadau ar draws yr Awdurdod cyfan. Ffigyrau ydynt ar gyfer gweithwyr yn unig.

| Damweiniau / digwyddiadau'n ymwneud â Gweithwyr yn unig | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | 2013 /14 | | | | |
| | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 | Diwedd y Flwyddyn |
| Mân | 57 | 43 | 65 | 71 | 236 |
| Difrifol | 17 | 23 | 16 | 11 | 67 |
| RIDDOR | 2 | 4 | 0 | 3 | 9 |
| Cyfanswm | 76 | 70 | 81 | 85 | 312 |
| **Cymhariaeth gyda blynyddoedd blaenorol** | | | | | |
| Damweiniau / digwyddiadau'n ymwneud â Gweithwyr yn unig | | | | | |
| Blwyddyn | 2012/13 | | | | |
| | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 | Diwedd y Flwyddyn |
| Mân | 59 | 95 | 76 | 64 | 294 |
| Difrifol | 15 | 5 | 10 | 20 | 50 |
| RIDDOR | 5 | 2 | 5 | 5 | 17 |
| Cyfanswm | 79 | 102 | 91 | 89 | 361 |
| | | | | | |
| Blwyddyn | 2011/12 | | | | |
| | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 | Diwedd y Flwyddyn |
| Mân | 49 | 62 | 71 | 58 | 240 |
| Difrifol | 11 | 5 | 15 | 9 | 40 |
| RIDDOR | 0 | 5 | 4 | 3 | 12 |
| Cyfanswm | 60 | 72 | 90 | 70 | 292 |
| | | | | | |
| Blwyddyn | 2010/11 | | | | |
| | Ch 1 | Ch 2 | Ch 3 | Ch 4 | Diwedd y Flwyddyn |
| Mân | 134 | 75 | 68 | 70 | 347 |
| Difrifol | 4 | 6 | 4 | 8 | 22 |
| RIDDOR | 2 | 3 | 2 | 13 | 20 |
| Cyfanswm | 140 | 84 | 74 | 91 | 389 |

**Gwybodaeth fesul Cyfadran**

| Yr holl ddamweiniau / digwyddiadau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Fesul Cyfadran 2013/14 | | | | |
| | Prif Weithredwr & Cyllid | Cymuned | Addysg Gydol Oes | Datblygu Cynaliadwy |
| Mân | 14 | 409 | 320 | 122 |
| Difrifol | 2 | 70 | 96 | 19 |
| RIDDOR | 0 | 7 | 5 | 6 |
| Cyfanswm | 16 | 487 | 421 | 147 |
| | | | | |
| Damweiniau / digwyddiadau (gweithwyr yn unig) | | | | |
| Fesul Cyfadran 2013/14 | | | | |
| | Prif Weithredwr & Cyllid | Cymuned | Addysg Gydol Oes | Datblygu Cynaliadwy |
| Mân | 12 | 79 | 69 | 48 |
| Difrifol | 2 | 11 | 40 | 3 |
| RIDDOR | 0 | 3 | 1 | 5 |
| Cyfanswm | 14 | 93 | 110 | 56 |

CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | Pwyllgor Archwilio |
| DYDDIAD: | 23 Medi 2014 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Crynodeb Blynyddol o Berfformiad 201314 |
| ADRODDIAD GAN: | Pennaeth Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Er gwybodaeth |

**1. Cefndir:**

Ers 2006 mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru(yr Ombwdsmon) wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith a wnaed gan ei swyddfa dros y 12 mis blaenorol, yn cynhyrchu Crynodeb Blynyddol o Berfformiad ar gyfer pob awdurdod cyhoeddus.

Mae Adroddiad Crynodeb cyfredol yr Ombwdsmon ynghlwm yn **Atodiad 1.** Mae'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio yn ceisio rhoi adroddiad yr Ombwdsmon yn ei gyd-destun a chymharu ein perfformiad bob blwyddyn o 2011/12 ymlaen.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gwynion am wasanaethau, ond mae rhan ohono'n ymwneud â chwynion dan y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

**2. Prif Bennawd – Cwynion am Wasanaethau**

**A. Cymhariaeth o gwynion ar draws Cymru, wedi ei addasu yn ôl maint y boblogaeth**

Mae nifer y cwynion a dderbyniodd yr Ombwdsmon yn erbyn CSYM wedi disgyn o dros fwy na 50% yn fwy na'r cyfartaledd i awdurdodau lleol yn 2010/11; i dros 27% yn fwy yn 2011/12; i dros 28% yn 2012/13 ac i dros 23% yn fwy yn 2013/14.

**B. Cwynion a dderbyniwyd**

Cafodd yr Ombwdsmon 26 o gwynion am wasanaethau'r Cyngor hwn yn ystod 2013/14, sef un yn fwy nag yn 2012/13, a'r run fath â ffigyrau 2011/12 ond 9 yn llai na'r nifer a dderbyniwyd yn ystod 2010/11.

CC-017095-LB/225402

**C. Cymhariaeth o'r Cwynion fesul pwnc ar draws yr awdurdodau lleol**

Mae'r categorïau yn tueddu i amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar natur y cwynion a gafwyd.

Fodd bynnag,

**D. Cwynion a dderbyniwyd ar gyfer ymchwilio iddynt**

O'r 26 o gwynion yn 2013/14, ni chafodd yr un ohonynt eu dewis ar gyfer ymchwilio iddynt. Mae hyn yn cymharu â 2 allan o 25 yn 2012/13 a 5 allan o 26 yn ystod 2011/12.

**E. Cymhariaeth o'r cwynion yr ymchwiliwyd iddynt, wedi eu haddasu yn ôl maint y boblogaeth**

Fel sydd wedi ei nodi uchod, penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ag ymchwilio i unrhyw gwynion yn erbyn CSYM yn ystod 2013/14 ac felly nid oes unrhyw ddata cymharol ar gael.

**F. Cymhariaeth o ganlyniadau cwynion gyda chanlyniadau cyfartalog, wedi eu haddasu yn ôl maint y boblogaeth**

Fel sydd wedi ei nodi uchod, penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ag ymchwilio i unrhyw gwynion yn erbyn CSYM yn ystod 2013/14 ac felly nid oes unrhyw ddata cymharol ar gael.

**G. Cymharu'r amser a gymer CSYM i ymateb i geisiadau am wybodaeth gyda'r amser a gymerir ar gyfartaledd gan awdurdodau lleol a chyfartaledd Cymru yn ystod 2010/11**

Fel sydd wedi ei nodi uchod, penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ag ymchwilio i unrhyw gwynion yn erbyn CSYM yn ystod 2013/14 ac felly nid oes unrhyw ddata cymharol ar gael.

Er gwybodaeth, y ffordd o gyfrifo'r amseroedd ymateb cyfartalog yw:

"mae'r 'cloc' ar gyfer methu amseroedd ymateb yn dechrau pan fo'r ymchwiliad yn cychwyn (h.y. y dyddiad ar y llythyrau sy'n gofyn am wybodaeth) ac mae'r 'cloc' yn stopio pan fo'r Ombwdsmon wedi cael ymateb llawn - nid ymateb rhannol - i'r holl bwyntiau a godwyd yn y llythyr gwreiddiol".

Nid yw hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod y cais yn cael ei wneud i'r awdurdod yn y lle cyntaf i ddarparu gwybodaeth i'r Ombwdsmon cyn pen 20 diwrnod gwaith. Nid yw chwaith yn adlewyrchu unrhyw gytundebau a wnaed rhwng awdurdodau lleol a'r Ombwdsmon ar gyfer rhoi mwy o amser i ddarparu gwybodaeth mewn achosion cymhleth.

**H.** Mae **Atodiad 2** yn cynnwys crynodeb o bryderon a chwynion mewnol yn 2013/14.

**3. Prif Bennawd – Cwynion ynghylch ymddygiad**

Nid yw Adroddiad Crynodeb yr Ombwdsmon yn darparu unrhyw gymhariaeth gyda'r cyfartaledd ar gyfer y categori hwn, ond mae'n cynnwys gwybodaeth ystadegol. Gellir ei weld yn **Atodiad 3.**

Yn gyffredinol, gwelwyd gostyngiad o 48 yn nifer y cwynion Côd Ymddygiad a gaewyd yng Nghymru. Yn 2013/14 mae'r data yn dangos bod 2 achos wedi eu cau yn Ynys Môn, sef cydradd ail gyda Chyngor Ceredigion o gymharu â chydradd 13eg gyda Blaenau Gwent a Chaerffilli yn 2012/13 (6 o achosion wedi cau).

Cafwyd y nifer uchaf o achosion yn Abertawe, sef 30 a'r nifer isaf a gofnodwyd oedd un ar gyfer Conwy, Wrecsam a Bro Morgannwg.

**4. Prif negeseuon ac unrhyw gamau sydd raid wrthynt i ymateb i'r Adroddiad.**

- Mae'r Ombwdsmon wedi nodi bod cynnydd trawiadol ar draws Cymru yn nifer y cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol, ond nid yw hynny wedi ei adlewyrchu yn y data ar gyfer CSYM.

- Mae Adroddiad yr Ombwdsmon yn dangos bod CSYM yn gwneud yn well o gymharu a'i berfformiad hanesyddol ei hun a'r cyfartaledd trwy Gymru.

Mae copi o Adroddiad Blynyddol llawn yr Ombwdsmon i'w weld yn:-

https://www.ombudsman-wales.org.uk/en/publications/Annual-reports.aspx

- Yn ogystal, mae data CSYM ynghylch cwynion am ei wasanaethau ar gael ar ei wefan bob mis yn:

http://www.anglesey.gov.uk/council-complaints-statistics/111531.article

- Mae data CSYM ynghylch cwynion Côd Ymddygiad yn cael ei gyhoeddi'n chwarterol ar Raglen y Pwyllgor Safonau

**5. Argymhelliad:-**

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r Atodiadau.

ATODIAD 1.

Ombudsman
Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Ein cyf: MG/jm

Eich cyf:

Dyddiad: 15 Gorffennaf 2014

ofynnwch am: James Merrifield

01656 644 200

James.Merrifield@ombwdsmon-cymru.org.uk

ADAIN GYFREITHIOL
25 JUL 2014
LEGAL SECTION

ADRAN PRIF WEITHREDWR
17 JUL 2014
CHIEF EXECUTIVE'S DEPT

Mr Richard Parry-Jones
Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Congor
Llandefni
Ynys Mon
LL77 7TW

Annwyl Mr Parry-Jones

**Llythyr Blynyddol 2013/14**

Ar ôl cyhoeddi fy Adroddiad Blynyddol yn ddiweddar, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Llythyr Blynyddol (2013/14) ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn i chi.

Er bod nifer y cwynion iechyd a wneir wedi parhau i godi, ac maent yn parhau i gynrychioli'r math mwyaf niferus o gwynion a wneir, gwelwyd cynnydd amlwg yn nifer y cwynion am y gwasanaethau cymdeithasol hefyd. Mae hyn yn awgrymu bod anfodlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth gyda'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yn dechrau dod i'r amlwg mewn ffordd debyg i anfodlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth darpariaethau iechyd erbyn hyn. Bydd fy swyddfa yn parhau i fonitro'r maes hwn lle y gwelir twf, yn enwedig o ystyried y newidiadau i awdurdodaeth yr Ombwdsmon o ganlyniad i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) a'r newidiadau i'r weithdrefn gwyno statudol ynghylch y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n amlwg bod y twf hwn yn destun pryder, a byddwn yn annog awdurdodau lleol i fonitro tueddiadau o ran y cwynion a wneir iddynt yn y maes hon o ran darpariaeth.

Gan gyfeirio at berfformiad cyffredinol cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, mae fy swyddfa wedi cyhoeddi llai o adroddiadau nag y gwnaeth yn ystod 2012/13. Yn ogystal, gwelwyd gostyngiad bach yn nifer yr achosion a gwblhawyd trwy gyfrwng 'ateb sydyn' neu 'setliad gwirfoddol' - O ystyried y manteision i'r holl bartïon o ddatrys mathau penodol o gwynion yn gyflym iawn, heb yr angen am ymchwiliad llawn, byddwn yn annog pob Cyngor i groesawu cynigion ynghylch unioni gan fy swyddfa a fyddai'n galluogi i achosion gael eu datrys yn y fath ffordd. Yn olaf, mae'r ffigurau yn dangos bod nifer uchaf y cwynion yn ymwneud â 'Chynllunio a Rheolaeth Adeiladau' a 'Thai', ac fe'u dilynir gan gwynion ynghylch 'Gwasanaethau Cymdeithasol Plant' a 'Ffyrdd a Thrafnidiaeth'.



Public Services Ombudsman for Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk www.ombudsman-wales.org.uk

Rydw i wedi cyhoeddi naw Adroddiad er Budd y Cyhoedd yn ystod 2013/14, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â chwynion iechyd. Mae rhai o'r adroddiadau hyn wedi nodi methiannau difrifol o ran y gofal clinigol a ddarparir i gleifion, ac mae'r gwersi i'w dysgu gan adroddiadau o'r fath yn fwyaf perthnasol i gyrff iechyd. Fodd bynnag, mae adroddiadau eraill er budd y cyhoedd wedi nodi methiannau mewn perthynas â gwneud addasiadau rhesymol o ganlyniad i fyddardod claf; gweithredu yn unol â neu gyflawni canllawiau; a gweithgarwch cadw cofnodion anghyflawn. Mae'r rhain yn fethiannau difrifol y gallent ddigwydd o fewn unrhyw gorff cyhoeddus neu ddarparwr gwasanaeth, felly byddwn yn eich annog i adolygu'r holl adroddiadau er budd y cyhoedd er mwyn nodi unrhyw wersi y gallent fod yn berthnasol i'ch Cyngor chi.

O ystyried yr amser y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi ei gymryd i ymateb i geisiadau am wybodaeth gan fy swyddfa yn ystod 2013/14, er y bu cynnydd yng nghanran yr ymatebion a gafwyd cyn pen pedair wythnos, mae 36% o'r ymatebion gan gyrff cyhoeddus wedi cymryd dros 6 wythnos. Rydw i wedi amlinellu fy mhryderon yn yr Adroddiad Blynyddol ynghylch y ffordd y caiff cwynion eu trin, ac rydw i wedi cyfeirio at 'oedi' yn flaenorol a goblygiadau hynny yn Llyfr Achosion Yr Ombwdsmon. Mae'n amlwg bod gwaith i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn darparu gwybodaeth mewn ffordd brydlon, a byddwn yn annog pob corff i ystyried a oes angen iddynt archwilio eu perfformiad yn y maes hwn ymhellach.

Mewn perthynas â'ch Cyngor, tra bu cynnydd bychan yn y nifer o gwynion a dderbyniwyd o'i gymharu â 2012/13, nid yw fy swyddfa wedi cychwyn unrhyw ymchwiliadau yn erbyn eich Cyngor yn 2013/14. Y maes unigol mwyaf o gwynion yw 'Cynllunio a Rheoli Adeiladu'. Mae fy swyddfa wedi cyhoeddi un adroddiad 'dilys' ac un adroddiad 'ddim yn ddilys' yn erbyn eich Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn olaf, gan nad oedd fy swyddfa wedi cychwyn unrhyw ymchwiliadau yn erbyn eich Cyngor yn ystod 2013/14, nid oes unrhyw amseroedd ymateb wedi'u cofnodi mewn perthynas â'ch Cyngor.

Bydd yr Ombwdsmon newydd yn cychwyn yn ei swydd ym mis Awst ac rydw i'n siŵr y bydd yn cysylltu â chi ar adeg briodol er mwyn cyflwyno'i hun ac o bosibl, er mwyn trafod rhai o'r materion uchod. Yn olaf, yn dilyn yr arfer a welwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol, cyhoeddir copi o'r llythyr a gyhoeddir i gynghorau sir ac i gynghorau bwrdeistref sirol ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yn gywir,

Yr Athro Margaret Griffiths
Ombwdsmon Dros Dro

## Atodiad

**Nodiadau Eglurhaol**
Mae adran A yn cymharu nifer y cwynion a dderbyniodd fy swyddfa yn erbyn y Cyngor yn 2013/14 â'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth) yn ystod yr un cyfnod.

Mae adran B yn rhoi dadansoddiad o nifer y cwynion ynghylch y Cyngor a dderbyniodd fy swyddfa yn 2013/14. Mae adran C yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor a dderbyniodd fy swyddfa yn 2013/14 â'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol yn ystod y cyfnod hwn. Dadansoddir y ffigyrau'n ôl categorïau pwnc.

Mae adran D yn nodi nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor yr ymchwiliodd fy swyddfa iddynt yn 2013/14. Mae adran E yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor yr ymchwiliwyd iddynt â'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth) yn ystod yr un cyfnod.

Mae adran F yn cymharu canlyniadau'r cwynion i'r Cyngor yn 2013/14, â chyfartaledd y canlyniadau (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth) yn ystod yr un cyfnod. Cofnodir adroddiadau er Lles y Cyhoedd a gyhoeddir dan adran 16 Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus Ombwdsmon (Cymru) 2005 fel 'Adran 16'.


Mae adran G yn cymharu amseroedd ymateb y Cyngor yn 2013/14, ag amseroedd ymateb cyfartalog yr holl awdurdodau lleol a'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod. Mae'r graff hwn yn mesur yr amser rhwng y dyddiad y cyhoeddodd fy swyddfa lythyr 'dechrau ymchwiliad' a'r dyddiad y mae'n derbyn ymateb llawn gan y corff cyhoeddus i'r llythyr hwnnw.

Mae adran H yn rhoi dadansoddiad o'r holl gwynion ynghylch y Cod Ymddygiad a dderbyniwyd yn erbyn Cynghorwyr yn 2013/14. Yn olaf, yn adran 'I', ceir crynodebau o'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd yng nghyswllt y Cyngor yn 2013/14.

**Y Stoc Dai**
Fel gydag ymarferion cynt, nid yw ffigyrau 2013/14 wedi'u haddasu i fwrw cyfrif o drosglwyddo'r stoc dai. Fodd bynnag, nodir ei bod yn debygol y bydd cyfran uwch o gwynion ynghylch tai pryd bynnag y bydd awdurdodau lleol wedi cadw eu stoc dai.

**Adborth**
Rydym yn croesawu adborth gennych am y wybodaeth amgaeedig, gan gynnwys syniadau am unrhyw wybodaeth i'w chynnwys mewn crynodebau blynyddol y dyfodol. Dylid anfon adborth neu ymholiadau at james.merrifield@ombudsman-wales.org.uk

**A:** **Cymharu cwynion a ddaeth i law fy swyddfa gyda'r ffigur cyfartalog, wedi'u haddasu yn ôl dosbarthiad y boblogaeth**





**B:** **Cwynion a ddaeth i law fy swyddfa**


| **Pwnc** | **2013/14** | **2012/13** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 0 | 1 |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 1 | 1 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant | 1 | 1 |
| Delio â chwynion | 2 | 0 |
| Addysg | 1 | 2 |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 1 | 1 |
| Cyllid a Threthiant | 2 | 0 |
| Tai | 3 | 2 |
| Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 12 | 13 |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 0 | 2 |
| Eraill Amrywiol | 3 | 2 |
| **Cyfanswm** | **26** | **25** |

## C: Cymharu cwynion yn ôl categori testun gyda'r ffigur cyfartalog ar gyfer awdurdodau lleol

### 2013/14





### 2012/13



**D: Cwynion yr aeth fy swyddfa â hwy ymlaen i ymchwiliad**


| | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---|---|
| Nifer y cwynion yr aethpwyd â hwy i ymchwiliad | 0 | 2 |

**E: Cymharu'r cwynion y bu i'm swyddfa ymchwilio iddynt gyda'r ffigur cyfartalog, wedi'u haddasu yn ôl dosbarthiad y boblogaeth**




## F: Cymharu canlyniadau cwynion gyda'r canlyniadau cyfartalog, wedi'u haddasu yn ôl dosbarthiad y boblogaeth

### 2013/14





### 2012/13




## G: Cymharu amseroedd Ynys Mon ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth ag amseroedd ymateb yr holl ALI a Chymru Gyfan ar gyfartaledd, 2013/14 (%)

Mae Graff G yn ymwneud â'r ymchwiliadau hynny a ddechreuwyd yn 2013/14. Gan na ddechreuwyd dim ymchwiliadau yn erbyn Ynys Mon yn ystod 2013/14, nid oes dim amseroedd ymateb ar gyfer Ynys Mon. Serch hynny, rydym wedi cynnwys yr amseroedd ymateb cyfartalog ar gyfer Awdurdodau Lleol/Cyrff iechyd ynghyd â'r amseroedd ymateb cyfartalog ar gyfer yr holl gyrff yng Nghymru er gwybodaeth i chi.




## H: Cwynion y Cod Ymddygiad



## I: Crynodebau'r adroddiadau

**Cyllid a Threthiant**

**Cadarnhawyd**

**Mai 2013 – Cyllid a Threthiant – Cyngor Sir Ynys Môn**
Mr D yw ysgutor ystâd ei ddiweddar chwaer ("yr ystâd"). Ar 28 Rhagfyr 2012, cwynodd wrth yr Ombwdsmon ei fod yn anfodlon â'r gwasanaeth a gawsai oddi wrth y Cyngor. Dywedodd ei fod, ym mis Awst 2012, wedi dychwelyd siec i'r Cyngor gyda chais iddi gael ei gwneud allan eto i'r ystâd. Dywedodd fod y Cyngor yn hytrach wedi gosod y siec yn erbyn cyfrif Treth Gyngor. Dywedodd hefyd fod y Cyngor wedi colli'r Grant Profiant ac wedi methu delio'n iawn â'i gwynion am y mater.

Ystyriodd yr ymchwiliad Reoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 fel y'u diwygiwyd ("y Rheoliadau") a chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon ym mis Mawrth 2008, dan y pennawd "Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda" ac "Egwyddorion Unioni Cam" ("y Canllawiau"). Mae'r Rheoliadau'n dawedog ynghylch sut y dylid delio â materion o'r fath; dylasai'r Cyngor felly fod wedi ystyried y Canllawiau.

Deuthum i'r casgliad nad mater i'r Cyngor oedd penderfynu beth i'w wneud â'r siec; nid eiddo'r Cyngor oedd y siec, ond eiddo'r ystâd. Penderfynais hefyd y bu oedi cyn i'r Cyngor ystyried cwyn Mr D. Roedd y modd y trafododd y Cyngor gŵyn Mr D, colli'r Grant Profiant a'r modd yr ystyriodd ei gŵyn yn gamweinyddol. Cadarnheais ei gŵyn ac argymhellais y dylai'r Cyngor ymddiheuro, talu costau uniongyrchol cael Grant Profiant arall, talu £50 ychwanegol am amser a thrafferth Mr D ac adolygu ei weithdrefnau perthnasol.
**Achos rhif 201203447**

**Cynllunio a Rheoli Adeiladu**

**Ni Chadarnhawyd**

**Cyngor Sir Ynys Môn – Delio â chais cynllunio**
**Cyfeirnod yr achos 201203899 – Cyhoeddwyd yr adroddiad Chwefror 2014**
Cwynodd Cynghorydd A, ar ran grŵp gweithredu lleol, am fod caniatâd cynllunio wedi'i roi i ddatblygu marina mawr. Roedd yr achwynydd yn honni:

- nad oedd y Cyngor wedi rhoi digon o gyhoeddusrwydd i'r cynigion, nac wedi ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y datblygiad sylweddol hwn;
- nad oedd yr ystyriaeth a roddwyd i'r cais yn rhoi digon o sylw i ddogfennau polisi a chynlluniau;
- nad oedd ystyriaeth ddigonol wedi'i rhoi i effaith y datblygiad arfaethedig ar yr ardal gadwraeth a'r amgylchedd.

Cafodd yr Ombwdsmon gyngor ar y gŵyn gan ymgynghorydd cynllunio profiadol. Canfu'r Ombwdsmon ddiffygion yn adroddiad y swyddog i Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor, ac roedd yn feirniadol o'r modd roedd y Cyngor wedi dehongli llythyr gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd yn fodlon bod yr adroddiad yn ddigonol a theg ar y cyfan, ac nad oedd y gwallau a'r methiannau a nodwyd yn arwyddocaol i'r penderfyniad i roi caniatâd i'r datblygiad. Er hynny, gofynnodd i'r Cyngor i fyfyrio ar ei adroddiad er mwyn osgoi methiannau o'r fath yn y dyfodol.

Pryderon a Chwynion 2013 -2014

ATODIAD 2.

Llyfr Achosion a Gwersi a Ddysgwyd

**Rhagarweiniad a Chefndir**

1. Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o bryderon a chwynion a gyflwynwyd i'r Cyngor ac a gafodd sylw dan y Polisi Cwynion a Phryderon am y cyfnod 1 Ebrill 2013 (pryd y cyflwynwyd y Polisi) hyd at 31 Mawrth 2014. (Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol gan bod ganddynt eu Polisi cwynion eu hunain).

2. Am y tro cyntaf fe gofnododd y Cyngor "bryderon" yn ogystal â chwynion ffurfiol.

3. Yn ystod y cyfnod, cofnodwyd 92 o bryderon a derbyniwyd 66 o gwynion ffurfiol (tynnwyd 1 yn ôl cyn yr ymchwiliad iddo). Mae nifer y cwynion ffurfiol a dderbyniwyd wedi disgyn o 79 yn 2012/13; 89 yn 2011/12 a 72 yn 2010/11.

4. Mae'r pryderon a'r cwynion ymhob gwasanaeth fel a ganlyn:-

| Gwasanaeth | Nifer y Pryderon | Nifer y Cwynion | Nifer y Cwynion a gadarnhawyd |
|---|---|---|---|
| Addysg | 5 | 4 | 1 (rhannol) |
| Addysg/Trafnidiaeth (cwyn ar y cyd) | - | 1 | - |
| Gwasanaethau Etholiadol | - | 1 | - |
| Cyllid | 8 | 16 | 3 wedi eu cadarnhau ac 1 wedi ei gadarnhau'n rhannol |
| Cyllid/Tai (cwyn ar y cyd) | - | 1 | - |
| Cyllid/Cyfreithiol (cwyn ar y cyd) | - | 1 | 1 (rhannol) |
| Priffyrdd | 4 | 5 | - |
| Tai | 9 | 11 | 1 |
| Tai/Cyfreithiol (cwyn ar y cyd) | - | 1 | 1<br>1 (rhannol) |
| Cyfreithiol/Pridiannau Tir (cwyn ar y cyd) | - | 1 | 1 |
| Hamdden | 10 | 1 | 1 (rhannol) |
| Arforol | - | 3 | 1 |
| Cynllunio | 4 | 10 | 1 (rhannol) |
| Cynllunio/Priffyrdd (cwyn ar y cyd) | - | 1 | - |
| Eiddo | - | 2 | 1 (rhannol) |
| Eiddo & Arforol | 1 | 1 | - |

CC-017095-LB/225404

| | | | |
|---|---|---|---|
| Eiddo/Cyfreithiol (cwyn ar y cyd) | - | 1 | - |
| Gwastraff | 11 | 4 | 1 (rhannol) |
| Yr Oriel (sylwadau negyddol) | 40 | - | - |

5. Roedd 79% o'r ymatebion i'r cwynion ffurfiol wedi eu hanfon o fewn yr amserlen a benodwyd (h.y. cyn pen 20 diwrnod gwaith). Pan fo ymatebion yn hwyr anfonir ymateb at yr achwynwyr i'w diweddaru ynghylch cynnydd a wneir i ymchwilio i'r gwyn.

| **Gwasanaeth** | **Nifer y Cwynion** | **Nifer yr ymatebion hwyr** |
|---|---|---|
| Addysg | 4 | |
| Addysg/Trafnidiaeth (cwyn ar y cyd) | 1 | |
| Gwasanaethau Etholiadol | 1 | |
| Cyllid | 16 | 3 ( 3, 4 & 6 diwrnod yn hwyr) |
| Cyllid/Tai (cwyn ar y cyd) | 1 | |
| Cyllid/Cyfreithiol (cwyn ar y cyd) | 1 | |
| Priffyrdd | 5 | 1<br>(40 diwrnod – mater cymhleth iawn) |
| Tai | 11 | 3<br>(1, 10 a 18 diwrnod yn hwyr) |
| Tai/Cyfreithiol (cwyn ar y cyd) | 1 | |
| Cyfreithiol/Pridiannau Tir (cwyn ar y cyd) | 1 | 1<br>( 22 diwrnod yn hwyr oherwydd bod angen mewnbwn gan yswirwyr y Cyngor) |
| Hamdden | 1 | |
| Arforol | 3 | 2 ( 1 & 2 ddiwrnod yn hwyr) |
| Cynllunio | 10 | |
| Cynllunio/Priffyrdd (cwyn ar y cyd) | 1 | 1(2 ddiwrnod yn hwyr) |
| Eiddo | 2 | 1 (13 diwrnod yn hwyr) |
| Eiddo & Arforol | 1 | |
| Eiddo/Cyfreithiol (cwyn ar y cyd) | 1 | |
| Gwastraff | 4 | 1(6 diwrnod yn hwyr) |

CC-017095-LB/225404

6. O'r 65 o gwynion ffurfiol cadarnhawyd 7 yn llawn, cadarnhawyd 8 yn rhannol ond gwrthodwyd 50. Cyfeiriwyd dwy gŵyn at yr Ombwdsmon ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru ond penderfynodd beidio ag ymchwilio iddynt.

7. Mae'r Cyngor hefyd yn cofnodi canmoliaeth a roddir i'w wasanaethau. Cofnodwyd 545 ohonynt yn ystod y cyfnod hwn gyda 2275 o sylwadau cadarnhaol am yr Oriel.

| **Gwasanaeth** | **Canmoliaeth** |
|---|---|
| Gwasanaethau Amgylcheddol | 13 |
| Cyllid | 8 |
| Priffyrdd | 60 |
| Tai | 33 |
| Adnoddau Dynol | 21 |
| TGCh | 39 |
| Hamdden | 7 |
| Cynllunio | 131 |
| Polisi | 3 |
| Eiddo ac Arforol | 5 |
| Safonau Masnach | 145 |
| Gwastraff | 93 |
| Yr Oriel | 2275 |

8. **Gwersi a ddysgwyd**

Mae'r polisi newydd yn rhoi pwyslais ar ddysgu gwersi o gwynion a gwella gwasanaethau yn sgil hynny. Nodwyd y materion isod fel gwersi i'w dysgu ond nid oedd angen gwneud unrhyw gynlluniau gweithredu ffurfiol ar eu cyfer:-

- Yr angen i wasanaethau gyfathrebu'n well â'i gilydd, yn ogystal â chyfathrebu'n well gyda'r cyhoedd. Cododd hyn yn dilyn galwad brys ar ddydd Sul ac oherwydd oedi o ran anfon y wybodaeth berthnasol at y gwasanaeth ar y dydd Llun canlynol cafwyd cwyn gan y cwsmer. Ni fyddai hyn wedi digwydd pe bai blaenoriaeth wedi ei rhoi i gyfathrebu ar ddechrau'r wythnos waith.
- Dylai'r Cyngor lunio polisïau ar gyfer materion cydraddoldebau penodol. Mae hyn yn cael sylw ar hyn o bryd ond amlygwyd y mater hwn yn sgil digwyddiad yn un o'r canolfannau hamdden. Llwyddwyd i ddatrys y gwyn er bodd y ddau barti.
- Nodwyd rhai mân-broblemau gyda systemau a hyfforddiant hefyd ac mae'r rhain wedi cael sylw ar lefel gwasanaeth.

ATODIAD 3



## CYNGHORAU SIR/BWRDEISTREF SIROL

| Cynghorau Sir/Bwrdeistref Sirol | Cau'r achos ar ôl ystyriaeth gychwynnol | Terfynu | Dim tystiolaeth o doriad | Dim angen cymryd camau | Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | Tynnu'n ôl | Cyfanswm yr Achosion a Gaewyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 2 | | 1 | | | | | **3** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4 | | | | | | | **4** |
| Caerffili | 4 | | | 2 | | | 1 | **7** |
| Caerdydd | 5 | | 1 | | | | 1 | **7** |
| Sir Gaerfyrddin | 1 | | | | | | 3 | **4** |
| Ceredigion | 2 | | | | | | | **2** |
| Conwy | 1 | | | | | | | **1** |
| Sir Ddinbych | 2 | | | | | | 2 | **4** |
| Sir y Fflint | 2 | 2 | | | | | | **4** |
| Gwynedd | 4 | | | | | | | **4** |
| Ynys Môn | 1 | | | 1 | | | | **2** |
| Sir Fynwy | 1 | 2 | | | | | | **3** |
| Casnewydd | 8 | | | | | | | **8** |
| Sir Benfro | 3 | | | 1 | 1 | | | **5** |
| Powys | 1 | | 2 | | | | | **3** |
| Rhondda Cynon Taf | 14 | | | | | | 1 | **15** |
| Abertawe | 22 | 2 | 5 | 1 | | | | **30** |
| Bro Morgannwg | | | | | | | 1 | **1** |
| Torfaen | 5 | | | 1 | | | | **6** |
| Wrecsam | 1 | | | | | | | **1** |
| **CYFANSWM** | **83** | **6** | **9** | **6** | **1** | | **9** | **114** |

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | Pwyllgor Archwilio |
| DYDDIAD: | 23 Medi 2014 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth – Diweddariad ar Gynnydd |
| ADRODDIAD GAN: | Pennaeth Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Er gwybodaeth |

## 1. Cefndir:

Yn dilyn nifer o achosion o dorri dyletswydd statudol y Cyngor i gadw gwybodaeth bersonol pobl yn ddiogel bydd raid i'r Cyngor arwyddo 'ymrwymiad ffurfiol' (i wneud gwelliannau) gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Fel rhan o archwiliad dilyn i fyny gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth(SCG), edrychwyd ar gydymffurfiaeth y Cyngor gyda Deddf Diogelu Data 1998 yn ystod mis Gorffennaf 2013. Rhoddodd yr archwiliad sylw i dri maes a oedd yn debygol o beri risg i ddiogelwch gwybodaeth bersonol:

- Diogelu Data
- Rheoli Cofnodion
- Diogelwch Data Personol

Gwnaed dros 100 o'r argymhellion. Ymatebodd y Cyngor trwy lunio Cynllun Gweithredu i'w gyflawni dan bump o themâu allweddol:

- Thema 1 - Polisïau a Strategaethau
- Thema 2 – Cyfathrebu, Hyfforddiant a Chanllawiau
- Thema 3 – Rheoli Cofnodion
- Thema 4 - Mynediad i Adeiladau, Gwybodaeth a Thrydydd Partïon
- Thema 5 – Llywodraethiant (Perchenogaeth)/Gweithdrefnau Adrodd.

## 2. Bwrdd Prosiect Rheoli Gwybodaeth

Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2013, gwaith y Bwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth oedd cyflawni'r Cynllun Gweithredu. Dechreuodd y Gwaith hwnnw ar 1 Tachwedd 2013 a daeth i ben ar 4 Medi 2014.

Mae'r Polisïau a'r Strategaethau gofynnol oll wedi eu drafftio. Ymgynghorwyd ar bob un ohonynt ac maent wedi eu cyflwyno'n eang bellach. Maent ar gael i'w gweld ar MonITor yn http://monitor.anglesey.gov.uk/corporate-resource/information-governance-data-protection/data-protection/data-protection-policy-information-on-security-policies-and-related-documents/

Yn ogystal, mae'r Adroddiad Amlygu sydd ynghlwm yn dangos manylion yr holl weithgareddau a gyflawnwyd yn ystod y prosiect. Adroddir ar y rhain i'r SCG pan fo'r tim yn dychwelyd yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn 13.10.14.

## 3. Beth Nesaf?

Bydd grŵp newydd, o'r enw *Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol* yn awr yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw faterion sydd ar ôl i'w tacluso ar ôl y Bwrdd Prosiect, a bydd yn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fonitro a gwella safon ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth. Mae Cylch Gorchwyl, rhaglen waith, aelodaeth a dyddiadau cyfarfodydd wedi eu pennu ar gyfer 2014/15.

Mae digwyddiadau hyfforddi wedi eu rhaglennu am yr ychydig fisoedd nesaf a bydd y Perchenogion Asedau Gwybodaeth(Penaethiaid Gwasanaeth) yn derbyn hyfforddiant ar 3.10.14 a bydd sesiynau gorfodol i'r holl staff yn ystod Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2014.

Yn ogystal, mae gan y Cyngor fframwaith yn awr i fonitro materion llywodraethu gwybodaeth ar sail gorfforaethol. Yr UBRG sy'n gyfrifol am wneud hynny a bydd yn derbyn adroddiadau chwarterol ar ddangosyddion perfformio allweddol, achosion o dorri'r deddfau diogelwch data a chynnydd gyda'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth Gorfforaethol, gan gynnwys nodi ac ailasesu risgiau. Bydd yr UBRG yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer yr UDA a'r Pwyllgor Gwaith a bydd yn darparu sicrwydd bod y Cyngor yn lliniaru risgiau i wybodaeth mewn ffordd sy'n cwrdd â chyfrifoldebau cyfreithiol a'i anghenion gweithredol.

# Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Prosiect

## 10 Medi 2013

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Prosiect:** | **Llywodraethu Gwybodaeth** | **Dyddiad Cychwyn y Prosiect:** | **1 Tachwedd 2013** |
| **Arweinydd Prosiect:** *(e.e. PG/Rheolwr)* | **Lynn Ball** | **Dyddiad y Disgwylir Gorffen y Prosiect:** | **31 Awst 2014** |
| **Rheolwr y Prosiect:** *(rhowch fanylion cyswllt hefyd):* | **Laura James-Mowbray** ljmed@ynysmon.gov.uk | **Cyfnod Adrodd:** | **25/07/14-01/09/14** |

**ALLWEDD I'R STATWS CAG:**

Coch – **Problem bendant wedi ei nodi ac y byddir yn rhoddi sylw iddi**

Ambr – **Problemau posib wedi eu nodi**

Gwyrdd – **Mae'r elfen hon o'r rhaglen/prosiect yn rhedeg yn iawn ar hyn o bryd**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Statws Cyffredinol**<br>*[Dyma'r peirianwaith y mae'r Rheolwyr Prosiect yn ei ddefnyddio i ddangos eu hasesiad hwy o sut mae'r prosiect yn mynd ymlaen. Mae'r statws CAG cyffredinol hwn yn cael ei gefnogi gan sylwadau'r Rheolwr Prosiect yn 1.1 a statws CAG dilynol pob adran]* | **A** |
| 1.1 | Allan o'r 64 o weithgareddau sydd wedi eu rhestr ar y cynllun prosiect cyfan, mae pob un ohonynt un ai wedi eu cwblhau neu'n cael sylw. Fodd bynnag, oherwydd bod y prosiect wedi dod i ben yn ffurfiol a bod rhai camau ar ôl, mae angen rhoi statws ambr i'r prosiect er na ragwelir unrhyw broblemau pendant gyda chwblhau'r camau hynny (statws coch). Y tro diwethaf i'r bwrdd gyfarfod oedd ar 4 Medi 2014 pryd cytunwyd ar Gylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith ar gyfer y Bwrdd newydd.<br><br>**Cwblhawyd hyd yma:** 54 (8 ers yr adroddiad diweddar ar 24 Gorffennaf 2014)<br><br>**Ar fynd:** 10<br><br>Camau y mae'n rhaid eu cymryd i gwblhau materion sy'n weddill:<br><br>1. Roedd angen i staff ddychwelyd ac arwyddo'r gofrestr gyfrinachedd (**1.13**) erbyn 8 Medi; dim ond dau a gafwyd hyd yma, sef gan yr Adran Trawsnewid a'r Adran AD.<br>**Cymorth sydd ei angen:** Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i ofyn am y rhain ar frys o gofio y bydd SCG yn dychwelyd mewn 32 diwrnod. Awgrymwyd dyddiad cau dydd Llun 29 Medi.<br><br>2. Cyhoeddi bwletin gan AD (i'w ryddhau, fe ragwelir, yn yr wythnos sy'n cychwyn 22 Medi) yn cyfeirio at y ffaith bod raid i reolwyr asesu dealltwriaeth eu staff o'r polisi Diogelu Data a'i effaith ar eu gwaith **(1.15).**<br><br>3. Cadarnhad o'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant ynghylch Asesu Effaith ar Breifatrwydd (AEB) gyfer Rheolwr Rhaglen (RhRh) ar 30 Medi cyn gynted ag y bo modd **(2.7).**<br><br>4. Cadarnhau hyfforddiant ar gyfer aelodau yn ystod y cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth Elusennol ar 11 Tachwedd cyn gynted ag y bo modd **(2.9).**<br><br>5. Tystiolaeth ffotograffaidd fod Ysgol y Graig wedi ei chlirio pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau ar 26 Medi **(3.4/6).**<br><br>6. Cwblhau gwaith i sicrhau bod staff yr Adran Datblygu Economaidd yn defnyddio | |

| | |
|---|---|
| | cardiau defnydd deuol **(4.3)**<br>**Cymorth sydd ei angen:** UDA i sicrhau bod hwn yn cael sylw brys – angen pennu dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r gwaith.<br>7. Anfon canllawiau at staff trwy Y Ddolen (wythnos yn cychwyn 22 Medi) ynghylch cael mynediad i e-byst o ddyfeisiau personol, ynghyd â chanllawiau ar sut i gael mynediad i MonITor o bell a chopi o'r polisi e-bost a'r polisi diogelwch TGCh **(4.11)**<br>**Cymorth sydd ei angen:** UDA i dderbyn (neu i wrthod) y risg o staff yn cael mynediad i e-byst gwaith a dogfennau cysylltiedig o ddyfeisiau personol.<br>8. Penodi/dynodi rôl Swyddog Diogelu Gwybodaeth yn ffurfiol, angen dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r gwaith **(5.1)**<br>9. Aseinio'r brîff diogelwch yn ffurfiol ar gyfer ei gymeradwyo, angen dyddiad cau ar gyfer cwblhau **(5.2)**<br>**Cymorth sydd ei angen:** UDA i gytuno aseiniad.<br>10. Cylchredeg polisi desg glir i'r holl staff trwy Y Ddolen (w/c 22 Medi)<br>**Cymorth sydd ei angen:** UDA i gymeradwyo'r polisi Desg Glir ar gyfer ei gylchredeg.<br>Mae'r camau a ganlyn (sydd heb eu trafod uchod) wedi eu trosglwyddo i'r Cylch Gorchwyl a/neu'r Cynllun Gwaith (Atodiad 1) ar gyfer y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth newydd. Fel sydd wedi ei nodi isod:<br>**RT 4.7** TGCh – Archwilio caniatadau, wedi cwblhau 40%, dyddiad cwblhau o 30 Medi 2014 wedi ei newid yn y cyfarfod bwrdd diwethaf i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yma ac wedi ei ymestyn hyd at ddiwedd Mai 2014.<br>**RT 3.1/3.2** SGC – Cwblhau fersiynau drafft o'r Log Asedau Gwybodaeth a'r Atodlen Cadw Dogfennau r mwyn eu cyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am gyngor/cadarnhad o'u haddasrwydd, cytunwyd ar ddyddiad cwblhau 08/10/14. |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Yn unol â'r Gyllideb**<br>*[A yw'r prosiect yn darparu yn ôl y gyllideb? Beth yw'r ganran (%) a chyfanswm (£) y gwahaniaeth?]* | G |
| 2.2 | Y ganran dros neu o dan y gyllideb yw:<br>0% | Y swm sydd yn uwch neu o dan y gyllideb yw: |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Ar Amser** | A |
| 3.1 | Rhaglennwyd y byddai'r prosiect yn dod i ben ar 31 Awst 2014, ond mae yna rai camau ar ôl ac, er eu bod wedi eu cwblhau i raddau helaeth, maent wedi eu yn cael eu dal yn ôl oherwydd mân ofynion o ran darparu sicrwydd h.y. tystiolaeth ffotograffaidd, cyfathrebiadau staff ac ati. Mae'r camau a gwblheir y tu allan i'r dyddiad hwn yn cael sylw yn 1.1 uchod.<br>Gyda hyn mewn golwg, amcangyfrifir y bydd y prosiect wedi ei gwblhau erbyn 29 Medi (ac eithrio pwyntiau 6, 8 a 9 sydd angen dyddiadau cau). | |

| 4 | Gweithgaredd Allweddol yn ystod y cyfnod hwn | A |
|---|---|---|

Ni chafodd dros hanner y gweithgareddau yn y cyfnod hwn eu cwblhau ar amser. Fodd bynnag nid colli momentwm oedd y rheswm am hynny ond oherwydd disgwyl am benderfyniadau a chyfleon i gyfathrebu er mwyn eu cwblhau.

Mae'r elfennau a gwblhawyd a'r cynnydd a wnaed yn cynnwys:

- ✓ 300 o flychau a ffeiliau cyfreithiol wedi eu trosglwyddo i Archifdy Môn
- ✓ Mae gan yr adran Gyllid 900 o flychau ar gyfer cael gwared arnynt a 600 y mae'n rhaid eu cadw. Mae yna hefyd o gwmpas 170 o flychau mewn 2 gynhwysydd y mae angen eu cadw. Mae'r Adran Eiddo yn chwilio am le addas i'r gwasanaeth fedru cadw, rheoli a dinistrio'r rhain pan gyrhaeddir y dyddiadau dinistrio.
- ✓ Mae'r Gwasanaethau Plant wrthi'n symud 170 o flychau o ffeiliau i Archifdy Môn i'w paratoi ar gyfer eu harchifo.
- ✓ Polisi Diogelwch Gwybodaeth ar gael ar MonITor.
- ✓ Polisi E-bost Corfforaethol ar gael ar MonITor.
- ✓ Polisi Dyfeisiau Amlddefnydd ar gael ar MonITor.
- ✓ Fframwaith Hyfforddiant/Cefnogaeth ac amserlen ar gyfer hyfforddiant Diogelu Data i staff, hyfforddiant i Reolwyr Prosiect ar Asesu'r Effaith ar Breifatrwydd (AEB), cefnogi'r Polisi Rheoli Cofnodion, pecyn Hyfforddi ar gyfer Aelodau ac ati.
- ✓ Cyfathrebu ynghylch dyddiadau hyfforddi a'u lleoliadau.
- ✓ 470 o staff archebu lle ar y sesiynau 1 awr.
- ✓ 22 aelod o staff (Swyddogion Cydymffurfiaeth ac Archwilwyr Mewnol at ati) wedi archebu lle ar y cwrs diwrnod llawn.
- ✓ Trefnwyd cwrs ar wahân ar gyfer 60/70 o staff Canolfannau Hamdden a llyfrgelloedd ar gyfer 17 Rhagfyr.
- ✓ Mae paragraff mewn perthynas â chyfrifoldebau staff i ddiogelu data wedi ei ddrafftio a'i drosglwyddo i'w gynnwys yn y trafodaethau ynghylch Arfarnu Swyddi. Bydd y datganiad hwn yn cael ei gynnwys yn yr holl ddisgrifiadau NEWYDD o hyn ymlaen.
- ✓ Archwilwyr mewnol wedi cytuno i edrych ar logiau mynediad y systemau mwyaf sensitif ar gyfer TGCh fel rhan o'r cynllun archwilio blynyddol.
- ✓ Derbyn polisïau ar-lein wedi ei basio i'r Dirprwy Brif Weithrdwr i sicrhau cynnydd trwy'r grŵp sy'n gyfrifol am baratoadau ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol ym mis Chwefror.

Rheoli prosiectau:

- ✓ Log Gwersi a Ddysgwyd wedi ei gwblhau yn y cyfarfod ar 04/09/14
- ✓ Tudalennau gwe wedi eu diweddaru (MonITor)
- ✓ Negeseuon wedi eu rhoi ar Y Ddolen ar gyfer staff
- ✓ Dogfen sicrwydd gynhwysfawr wedi ei chwblhau (yn disgwyl cwblhau'r camau a drafodir yn 1.1)
- ✓ Rhagor o bosteri sy'n ymwneud â'r prosiect wedi eu cwblhau a'u cylchredeg
- ✓ Cylch Gorchwyl a Chynllun Gwaith ar gyfer y Bwrdd newydd wedi ei gytuno yn y cyfarfod ar 04/09/14
- ✓ Sticeri ar gyfer cyfryngau cludadwy (ffonau/i-pads/gliniaduron) a pheiriannau argraffu/peiriannau ffacs ac ati wedi eu creu a'u hargraffu.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enw Arweinydd Prosiect:** | Lynn Ball | **Dyddiad:** | | **Sylwadau Ychwanegol:** | |
| **Enw PG** *(os yn wahanol i'r Arweinydd)* | D/B | **Dyddiad:** | D/B | **Sylwadau Ychwanegol:** | D/B |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **23 MEDI 2014** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **DIWEDDARIAD AR FEYSYDD O BRYDER NA CHAWSANT SYLW AC A AMLYGWYD GAN ARCHWILIO MEWNOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **DIRPRWY BRIF WEITHREDWR** |
| **GWEITHREDU:** | **ER GWYBODAETH** |

DRAFT

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf fe benderfynodd y Pwyllgor Archwilio:

*'Gofyn i'r Dirprwy Brif Weithredwr fynychu'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio i adrodd ar y sefyllfa ynglŷn â'r meysydd oedd wedi eu dynodi fel rhai o bryder parhaol gan archwilio, y camau a gynllunnir i fynd i'r afael â hwy, y cyfnodau amser ar eu cyfer a'r rheolwr / swyddog sy'n gyfrifol'.*

Cytunwyd hefyd ar y camau gweithredu canlynol yn y cyfarfod hwn:

*'Y Dirprwy Brif Weithredwr i roi adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod nesaf yn unol â'r penderfyniad uchod ynghyd â gwybodaeth am gyfrifoldebau uwch reolwyr'.*

1.2 Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr wedi cyfarfod ag Archwilio Mewnol i drafod y meysydd o bryder ac mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau gweithredu/sylwadau ar bob un o'r meysydd hyn.

**2. CYD-DESTUN: CYNLLUN TRAWSNEWID A CHYNLLUN GWEITHREDU LLYWODRAETHU**

2.1 Ein nod yw sicrhau bod agwedd gorfforaethol gyson i fynd i'r afael â gwendidau yn llywodraethu a pherfformiad y cyngor. Ers y flwyddyn ddiwethaf mae gwaith sylweddol wedi ei wneud i dynnu at ei gilydd, i flaenoriaethu ac i weithredu datrysiadau i'r gwendidau oedd yn wybyddus. Mae gwaith wedi ei gwblhau mewn nifer o'r meysydd hyn ond mae rhai meysydd eraill sydd yn dal i fod angen sylw .

2.2 Roedd Cynllun Trawsnewid y Cyngor, a gymeradwywyd yn gynnar yn 2013, yn adeiladu ar y gwelliannau a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol ac yn nodi'r sefyllfa ar gyfer diweddaru a chryfhau'r blociau adeiladu sylfaenol o fewn llywodraethu. Roedd y cynllun gweithredu hwnnw'n cael ei fonitro gan y Bwrdd Gwella ac fe wnaed cynnydd da ar draws y cynllun.

2.3 Bob blwyddyn cynhelir adolygiad o lywodraethiant sy'n talu sylw i'r adroddiad blynyddol gan y Rheolwr Archwilio. Yn 2013, yn dilyn yr adolygiad, lluniwyd cynllun gweithredu gan y rheolwyr oedd yn canolbwyntio ar y gwendidau mwyaf arwyddocaol, yn blaenoriaethu'r gwaith ac yn nodi lle roedd angen adnoddau. Cafodd rhai o'r eitemau mwy eu trin fel rhaglenni, prosiectau neu dasgau o dan drefniadau Trawsnewid y Cyngor.

2.4 Dygwyd y Cynllun Gweithredu Llywodraethu a Sicrwydd i'r pwyllgor yn Rhagfyr 2013. Y bwriad oedd i'r cynllun hwn barhau i gael ei ddiweddaru a'i fonitro gan y Pwyllgor Archwilio ond yn anffodus ni chadwyd at hynny yn ystod y flwyddyn.

2.5 Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol sydd ar ddod mae'r Cynllun Gweithredu Llywodraethu a Sicrwydd yn cael ei loywi a'i ddiweddaru. Mae'r broses gynllunio yn sicrhau bod yna swyddog cyfrifol ac amserlen ar gyfer pob cam gweithredu, gyda chyswllt i'r Bwrdd Rhaglen Trawsnewid perthnasol os yn briodol. Mae'r cynllun hwn eisoes yn cynnwys y chwe mater corfforaethol a nodwyd gan y Rheolwr Archwilio.

2.6 Mae Grŵp Monitro Swyddogion wedi ei sefydlu ar draws yr Adrannau Trawsnewid, Busnes y Cyngor ac Adnoddau.

## 3. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

3.1 Mae'r meysydd o bryder yr adroddwyd arnynt gan Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio ar 22 Gorffennaf 2014 a'r sylwadau / camau gweithredu rheoli cyfredol sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r rhain yn cael eu darparu isod yn adran Diweddariad Cynnydd yr adroddiad hwn.

3.2 Rhaid cofio bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud mewn perthynas â llywodraethiant y Cyngor. Roedd 2013 yn flwyddyn drawsnewid i raddau helaeth yn symud i ffwrdd oddi wrth reolaeth y Cyngor gan Gomisiynwyr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ôl i'r Pwyllgor gwaith a'r Uwch Dim Arweinyddiaeth.

3.3 Mae'n deg dweud bod nifer o feysydd lle na welwyd cynnydd i'r graddau y byddwn yn dymuno ei weld yn ystod y cyfnod hwn fel o fewn Caffael, ond mae meysydd eraill fel Llywodraethu Gwybodaeth wedi eu harwain a'u rheoli'n dda. Rwyf yn hyderus yn awr, fodd bynnag, bod yna gynllun i fynd i'r afael a phob un o'r pryderon hyn.

3.4 Yn ychwanegol i hyn rydym yn awr yn cael diweddariadau rheolaidd gan y Rheolwr Archwilio i'r UDA i sicrhau bod rheolwyr yn ymwybodol o'r pryderon y mae archwilio'n eu nodi, ac yn galluogi iddynt roi datrysiadau rheoli yn eu lle a hefyd i ganiatáu ar gyfer monitro cynnydd. Mae'r holl Adroddiadau Archwilio sy'n GOCH yn awr yn cael eu hadrodd i'r UDA. Cyn hyn roedd diffyg cyswllt rhwng arweinyddiaeth reolaethol y Cyngor a chasgliadau archwilio..

## 2. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

### 2.1 Parhad Busnes

| Cyf | Pryder Cyfredol | Sylw/Camau Rheolaethol | Amserlen: Erbyn | Rheolwr Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| 2.1.1 | Mae'n ddyletswydd* ar y Cyngor i baratoi, cynnal ac ymarfer trefniadau Rheoli Parhad Busnes (RhPB) digonol. Dylai'r trefniadau RhPB sicrhau y bydd yn cynnal ei ddarpariaeth o wasanaeth ei hun yn ystod argyfwng ac yn cefnogi'r ymatebwyr Categori 1 a 2 eraill os bydd angen.<br><br>Dylai RhPB gael ei ymwreiddio yng ngweithgaredd ac arferion busnes arferol y cyngor.<br><br>Mae adroddiadau archwilio blaenorol gan Archwilio mewnol a darparwyr sicrwydd eraill wedi nodi gwendidau yn nhrefniadau RhPB y Cyngor yn cynnwys diffyg Cynllun Parhad Busnes oedd wedi ei ddogfennu a'i brofi'n ffurfiol a dynodiad clir o gyfrifoldeb ar gyfer ymwreiddio RhPB o fewn y Cyngor.<br><br>** O dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004* | **Gwasanaeth Cynllunio mewn Argyfwng Cyngor Gogledd Cymru** - Mae pob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru wedi arwyddo i fyny i'r gwasanaeth newydd hwn sydd y cyntaf o'i fath yng Nghymru. Ers 1 Gorffennaf 2014, mae swyddogaeth Cynllunio mewn Argyfwng y Cyngor wedi ei wneud drwy Wasanaeth Cynllunio mewn Argyfwng Gogledd Cymru. Mae gan bob Cyngor swyddog cyswllt penodol, ynghyd â swyddogion rhanbarthol, sy'n gyfrifol am RhPB ar draws y rhanbarth. Mae'r ddarpariaeth ranbarthol hon o Gynllunio Argyfwng wedi ei anelu at ddarparu mwy o ddycnwch ar draws Gogledd Cymru.<br><br>Mae gan Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Gogledd Cymru rôl i gydlynu a chefnogi'r gwaith o lunio Cynllun Parhad Busnes ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.<br><br>Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr wedi comisiynu adolygiad mewnol (SWOT) er mwyn deall y sefyllfa gyfredol, wasanaeth wrth wasanaeth mewn perthynas â Pharhad Busnes; ac i weld a yw'r gwasanaeth a ddarperir gan y trefniant Rhanbarthol yn mynd i ddarparu'r gefnogaeth fydd ei hangen i wasanaethau i ddatblygu eu Cynlluniau Parhad Busnes a thrwy hynny alluogi i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â RhPB. | Rhagfyr 2014 | Trawsnewid – Rheolwr Busnes a Llywodraethu (SWOT)<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Yn Weithredol) |

DRAFT

## 2.2 Rheoli Risg:

| Cyf | Pryder Cyfredol | Sylw/Camau Rheolaethol | Amserlen: Erbyn | Rheolwr Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| 2.2.1 | Mae'r Cyngor yn y broses o adolygu ei Fframwaith Rheoli Risg i hwyluso ac i ymwreiddio rheoli risg o fewn y sefydliad. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dal i gael ei datblygu ond nid oes trefn effeithiol o ddiweddaru ysbeidiol wedi ei datblygu. | Mae gan y Cyngor Strategaeth Rheoli Risg a Chyfarwyddyd Rheoli Risg yn eu lle ac fe gawsant eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 15 Hydref 2012. Fodd bynnag, nid yw'r broses wedi ei hymwreiddio'n llawn o fewn y Cyngor ac ystyrir bod angen rhoi mwy o bwyslais ar gael cynnydd yn y maes hwn. Felly, mae adolygiad allanol o drefniadau cyfredol y Cyngor wedi ei gomisiynu.<br><br>Bydd yr adolygiad yn dechrau ym mis Medi 2014 a bydd yn;<br><br>i. Adolygu'r Strategaeth Rheoli Risg bresennol a'r Cyfarwyddyd ac yn cynnig gwelliannau;<br>ii. Yn ymgysylltu ag Aelodau, Rheolwyr a Gwasanaethau i wella eu dealltwriaeth a'u hagwedd tuag at reoli risg;<br>iii. Yn adolygu'r Cofrestri Risg Gwasanaeth cyfredol, yn helpu i nodi bylchau yn y risgiau a nodwyd, ac yn awgrymu dull ar gyfer sicrhau cysondeb yn yr iaith a ddefnyddir i ddisgrifio'r risgiau a'r sgorio tebygrwydd ac effaith;<br>iv. Adolygu'r trefniadau ar gyfer uwchgyfeirio risgiau Gwasanaeth, Prosiect a Phartneriaeth i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, argymell gwelliannau i'r trefniadau hyn;<br>v. Adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a helpu i nodi'r bylchau yn y risgiau a nodwyd.<br><br>Rhagwelir y bydd yr adolygiad hwn yn hwyluso i reoli risg gael ei ymwreiddio'n llawn a'i alinio gydag arferion gweithio eraill. | Medi/Hydref 2014 | Rheolwr Risg ac Yswiriant<br><br>Rheolwr Cynllunio Busnes a Phrosiect |

DRAFT

## 2.3 Llywodraethu Gwybodaeth / Rheolaeth

| Cyf | Pryder Cyfredol | Sylw/Camau Rheolaethol | Amserlen: Erbyn | Rheolwr Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| 2.3.1 | Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cynnal adolygiad o drefniadau'r Cyngor yng nghyswllt Llywodraethu a Rheoli Gwybodaeth ac wedi nodi materion a gwendidau rheolaeth tebyg i'r rhai a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, PWC a'r Archwiliad Mewnol mewn adroddiadau blaenorol.<br><br>Mae Bwrdd Rhaglen wedi ei sefydlu i weithredu'r Cynllun Gweithredu o adroddiad y Comisiwn Gwybodaeth. Mae nifer sylweddol o gamau gweithredu wedi eu cyflawni ers adroddiad y Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth. | Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiad ar wahân yn manylu ar y cynnydd a wnaed ym maes Rheoli a Llywodraethu gwybodaeth o dan yr eitem rhaglen 'Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth - Diweddariad Cynnydd.'<br><br>Bydd y Pwyllgor yn gweld bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud. | Fel yn yr adroddiad ar wahân | Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor |

## 2.4 Llywodraethu Corfforaethol

| Cyf | Pryder Cyfredol | Sylw/Camau Rheolaethol | Amserlen: Erbyn | Rheolwr Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| 2.4.1 | **Polisi a Gweithdrefn** - Mae Polisïau a Gweithdrefnau'r Cyngor yn elfennau allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor<br><br>Mae nifer o adroddiadau Archwilio Mewnol ac adroddiadau gan asiantaethau sicrwydd eraill wedi adrodd am enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r Cyngor. Mae adroddiadau diweddar hefyd wedi nodi enghreifftiau lle nad yw staff perthnasol wedi bod yn ymwybodol o bolisïau'r Cyngor o fewn, er enghraifft, meysydd staffio Asiantaeth, Rheoli Fflyd a | Mae'r Cyngor yn y broses o gasglu at ei gilydd Gofrestr Ganolog o holl Bolisïau allweddol y Cyngor. Mae'r gofrestr yn cynnwys manylion o gyfeirnod y fersiwn, awdur, enw cyswllt a dyddiad adolygu'r polisïau a phwy ddylai wneud hynny ac erbyn pryd.<br><br>Mae'r Dirprwy Brif Weithredwr wedi gofyn am adroddiad ar gynnwys y gofrestr hon i system Rheoli Polisi gynhwysfawr i gynnwys elfen o gydymffurfiaeth â pholisi.<br><br>Yn y cyfamser mae'r DCE wedi trefnu cyfarfod o | Rhagfyr 2014 | Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd |



DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rheolau Gweithdrefn Contract (Caffael).<br><br>Cafwyd adroddiad Archwilio Mewnol ynglŷn â'r materion hyn yn 2011-12, ond roedd nifer o'r argymhellion allweddol yn parhau heb eu gweithredu ar ddiwedd 2013-14.<br><br>Fe ddarfu'r Cyngor a defnyddio'i system electronig ar gyfer cydymffurfiaeth polisi ac arwyddo polisïau i ffwrdd oedd yn cofnodi defnyddwyr fel rhai oedd wedi darllen, deall a chytuno i lynu at y polisïau. Heb gofnod o'r fath o arwyddo i ffwrdd, mae'n fwy anodd dangos bod y polisïau wedi eu rhaeadru'n ddigonol i'r staff perthnasol. | uwch reolwyr ym Medi 2014 i symud pethau ymlaen gyda'r mater hwn. | | |
| | **Adroddiadau Sicrwydd gan gyrff allanol –** Mae yna ddisgwyliad y bydd yr holl adroddiadau sicrwydd allanol yn cael eu rhannu gyda'r canol corfforaethol a'u cadw'n ganolog. Fodd bynnag, nid oes cofrestr gorfforaethol o adroddiadau o'r fath yn cael ei chadw a'i monitro ar hyn o bryd.<br><br>Mae yna risg, felly, nad yw'r canlyniadau o adroddiadau allanol o'r fath yn cael eu monitro yn briodol a dysgu'n cael ei rannu. | Mae trafodaethau wedi eu cynnal i benderfynu ar y dull mwyaf priodol o ddwyn at ei gilydd a dadansoddi argymhellion a chanlyniadau eraill o adroddiadau sicrwydd allanol.<br><br>Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Swyddfa Archwilio Cymru a PWC, ac ar lefel weithredol gyda'r Rheolwr Cynllunio Busnes a Phrosiectau, i sicrhau bod y canol corfforaethol yn cael gwybod am eu blaenraglenni gwaith ac am ganlyniadau eu gwaith. Bydd pob Cylch Gorchwyl ac adroddiadau'n cael eu rhannu gyda'r Rheolwr Cynllunio Busnes a Phrosiectau.<br><br>Bydd y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â Swyddfa Archwilio Cymru a PWC, i drafod materion mwy strategol.<br><br>Mae'r Cyngor yn gweithio ar hyn o bryd i bwrcasu system rheoli perfformiad gyda'r bwriad o allu darparu cofrestr ganolog o adroddiadau a chanlyniadau. | Rhaglen Amser Caffael erbyn Ebrill 2015 | Rheolwr Cynllunio Busnes a Phrosiectau<br><br>Trawsnewid - Rheolwr Busnes a Llywodraethu |

DRAFT

## 2.5 Fframwaith Caffael Corfforaethol

| Cyf | Pryder Cyfredol | Sylw/Camau Rheolaethol | Amserlen: Erbyn | Rheolwr Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| 2.5.1 | Dywedodd Archwilio Mewnol yn Rhagfyr 2012 bod ymarferion caffael angen eu gwella.<br><br>Roedd Gwirio Ffitrwydd Caffael KPMG ar gyfer Ynys Môn yn 2014 yn atgyfnerthu canfyddiadau Archwilio Mewnol ac yn cynnwys arolwg dyfnach o'r gwendidau yn y trefniadau cyfredol.<br><br>Mae prosiect yn cael ei sefydlu i weithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn er mwyn cryfhau'r Fframwaith Caffael Corfforaethol. | Gwnaed gwaith yn ystod 2012 i roi gwelliannau o ran caffael yn eu lle, o dan arweiniad y Swyddog Adran 151 Dros Dro ar y pryd.<br><br>Nid pharhawyd â'r cynnydd hwn yn ystod 2013. Nid yw'n hollol amlwg paham mai hyn fu'r achos.<br><br>Mae prosiect yn awr wedi cael cymeradwyaeth yr UDA ac y mae cais yn cael ei wneud i'r Pwyllgor Gwaith i adnoddau gael eu rhyddhau ar sail Gwario i Arbed. Hyn er mwyn cynyddu capasiti o fewn yr Uned Caffael Corfforaethol.<br><br>Hefyd, bydd y rôl o arwain caffael yn fwy amlwg yn y Swydd Ddisgrifiad ar gyfer y Pennaeth Swyddogaeth Gwasanaethau Ariannol (cyn hyn Adnoddau) pan gaiff y swydd ei hysbysebu. | Ebrill 2015 | Pennaeth Swyddogaeth Adnoddau / Swyddog Caffael |

## 2.6 Fframwaith Gydweithredu

| Cyf | Pryder Cyfredol | Sylw/Camau Rheolaethol | Amserlen: Erbyn | Rheolwr Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| 2.6.1 | Nid oes gan y Cyngor Fframwaith Cydweithredu ffurfiol i ddarparu sicrwydd bod gan yr holl bartneriaethau drefniadau llywodraethu, rheoli a pherfformiad digonol i gyfarfod â'u hamcanion a'u bod yn darparu gwerth am arian yng nghyswllt buddsoddiad y Cyngor o ran arian ac adnoddau ynddynt. Mae gan y Cyngor gofrestr o bartneriaethau | Cynhaliwyd adolygiad o gydweithredu yn Nhachwedd 2012.<br><br>Newidiodd yr amgylchedd o safbwynt cydweithredu yn ystod 2013 a dechrau 2014 gydag ond ychydig iawn o gydweithrediadau newydd yn cael eu dechrau. | Tachwedd 2014 ar gyfer Diweddaru'r Gofrestr, a<br><br>Mawrth 2015 ar gyfer y Weledigaeth | Yn cael ei gyd-lynu gan Trawsnewid - Rheolwr Busnes a Llywodraethu<br><br>Prif Weithredwr |

Tudalen 149

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | yn manylu ar bwrpas a'r cyfrifoldebau neu linellau adrodd yn ôl y partneriaethau arwyddocaol.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau cyfredol yn darparu'r sicrwydd angenrheidiol bod y manteision o fod mewn partneriaeth yn cael eu cyflawni, neu bod y risgiau negyddol o fod yn gweithio mewn partneriaeth yn cael eu nodi gan y Comisiwn Archwilio ac eraill yn cael eu sicrhau o fewn partneriaethau cyfredol y Cyngor. | Y mae, fodd bynnag, yn amserol gyda chyhoeddi'r Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol, bod yr holl gydweithrediadau cyfredol yn cael eu hadolygu a'u cofnodi mewn mwy o fanylder ac yn fwyaf pwysig bod datganiad / gweledigaeth ar gyfer cydweithredu'n cael ei ddatblygu ac a fydd yn cyfarwyddo gwaith cydweithredu wrth fynd ymlaen. | | |

## 2.7 Gweithredu Argymhellion Ysgolion

| Cyf | Pryder Cyfredol | Sylw/Camau Rheolaethol | Amserlen: Erbyn | Rheolwr Cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| 2.7.1 | Mae mater sy'n parhau yng nghyswllt ysgolion yn gweithredu argymhellion archwilio mewnol. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â materion ariannol a materion llywodraethu o fewn ysgolion ac a ddylai fod o bryder i Benaethiaid ac i'r Adran Addysg. | Mae Archwilio Mewnol wedi cysylltu ag Addysg ynglŷn â gweithredu'r argymhellion yn ymwneud ag ysgolion. Mae Addysg yn awr wedi cyflwyno gweithdrefn newydd sy'n golygu dilyn-i-fyny'r argymhellion ar ôl dau dymor o ddyddiad yr adroddiad a darparu cefnogaeth lle na welwyd bod yr argymhellion wedi'u gweithredu ar ôl y cyfnod amser hwnnw.<br><br>Bydd Archwilio Mewnol yn parhau i fonitro cyfraddau gweithredu argymhellion er mwyn darparu sicrwydd am effeithiolrwydd y trefniadau. | O 01 Medi 2014<br><br>(blwyddyn academaidd newydd) | Pennaeth Gwasanaeth Addysg |

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD: | 23 MEDI 2014 |
| TEITL YR ADRODDIAD | ADRODDIAD GWAITH AR ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD 1 EBRILL 2014 – 31 AWST 2014 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | ER GWYBODAETH |
| ADRODDIAD GAN: | RHEOLYDD ARCHWILIO |
| GWEITHREDU: | D/B |

DRAFT

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2014-15 i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2014 ac fe'i derbyniwyd. Cynhyrchwyd y Cynllun mewn ymgynghoriad gyda'r Archwiliwr Allanol, y Swyddog Adran 151 ac yn sgil amryw o gyfarfodydd a chyfathrebiadau gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.

**1.2** Mae'r adroddiad isod yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol hyd at 31 Awst 2014 ac mae'n rhoi crynodeb o'r adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd ers y Pwyllgor Archwilio diwethaf.

**1.3** Bydd angen adolygiad dilyn-i-fyny ar gyfer yr holl adroddiadau terfynol a dderbyniodd farn 'Sicrwydd Coch'. Bydd yr adolygiad hwnnw yn cynnwys barn archwilio ar y cynnydd a wnaed gan reolwyr o ran gweithredu'r argymhellion lefel Uchel a Chanolig yn yr adroddiad terfynol gwreiddiol. Cyflwynir canlyniadau'r adolygiad Dilyn-i-Fyny i'r Pwyllgor Archwilio nesaf.

**1.4** Cynhaliwyd un adolygiad yn y cyfnod diwethaf a arweiniodd at farn 'Sicrwydd Coch'. Cyflwynwyd adroddiad ar yr adolygiad hwn o drefniadau Staff Asiantaeth i'r Uwch Dîm Rheoli sydd wedi penderfynu y bydd y trefniadau yn y dyfodol yn cael eu canoli yn yr Adran Adnoddau Dynol.

**1.5** Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg lle bynnag y mae modd gwneud hynny, ond gall hefyd ddefnyddio Adolygiadau System, Adolygiadau Rheolaeth Allweddol, Adolygiad Sefydliad neu Adolygiad Ymgynghorol os gwelir bod y rheini'n fwy priodol.

**1.6** Mae'r adroddiadau terfynol unigol ar gael i aelodau'r Pwyllgor hwn, yn gyfrinachol ar gais i'r Rheolwr Archwilio.

## 2. ADRODDIADAU A GYHOEDDWYD ERS YR ADRODDIAD DIWEDDARU DIWETHAF

Rhestrir isod yr adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol a gyhoeddwyd ers yr adroddiad gwaith diwethaf i'r Pwyllgor Archwilio, ynghyd â chrynodeb o ganlyniadau pob adolygiad.

**2.1.1 Oriau Gofal Cartref –** Cynhaliwyd archwiliad o Ofal Cartref – Oriau Gwaith Gofal Cartref yn dilyn cais a gafwyd gan y cyn Bennaeth Gwasanaeth ar gyfer y maes hwn. Daw rheoli Gwasanaethau Gofal Cartref dan Uned Ddarparu'r Cyngor sydd wedi cael ei phreifateiddio'n rhannol ers 2012. Ers gostwng y gwasanaethau a gomisiynwyd gan yr Uned Ddarparu, mae rheolwyr cleient wedi bod yn pryderu ynglŷn â'r cynnydd ymddangosiadol yn nifer yr oriau heb eu gweithio (oriau contract na chawsant eu defnyddio ond a ddefnyddiwyd i dalu i weithwyr contract) bob wythnos.

Canfu'r adolygiad fod trefniadau wedi cael eu sefydlu i leihau nifer yr oriau heb eu gweithio a dalwyd. Roedd y trefniadau'n cynnwys peidio â recriwtio staff ar sail lanw a chyflwyno rota staffio dreigl o dair wythnos.

**Barn**: yn sgil yr adolygiad, cafwyd barn archwilio gyffredinol a oedd yn WYRDD/AMBR gydag un argymhelliad Uchel, tri Canolig ac un Isel yn cael eu cytuno gyda Rheolwyr.

**2.1.2 Yr Ymddiriedolaeth Elusennol – Llywodraethiant ac Ariannol –** Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Elusen Gofrestredig rhif 1000818) yn dilyn etifeddiaeth a adawyd gan Shell UK er budd pobl Ynys Môn. Cafodd dros 190 erw o dir yn Rhosgoch (dywedir yn y cyfrifon ei fod werth oddeutu £3 miliwn) ei drosglwyddo i'r Cyngor a gwerth asedau'r Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2013 oedd £18.1 miliwn.

Cyfyngwyd yr archwiliad i adolygiad o drefniadau llywodraethu Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn a'r trefniadau ar gyfer monitro perfformiad y buddsoddiadau a wnaed ar ran yr Ymddiriedolaeth.

**Casgliad Ymgynghorol yr Archwiliad** – Ni nodwyd unrhyw wendidau rheoli sylweddol yn yr adolygiad.

**2.1.3 Rhybuddion Dirwy –** Cynhaliwyd archwiliad o Rybuddion Dirwy 2013-14 fel rhan o'r cynllun cyfnodol archwilio mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2014/15.

Pwrpas yr archwiliad hwn yw rhoi sicrwydd bod y ffigyrau a gofnodwyd ar gyfer Rhybuddion Dirwy yn Ynys Môn fel yr adroddwyd arnynt i PATROL – Cyd-bwyllgor Lloegr ar gyfer gorfodaeth sifil Rheoliadau Parcio a Thraffig y tu allan i Lundain – yn adlewyrchiad cywir o nifer y Rhybuddion Dirwy a gyhoeddwyd.

Mae Cyd-bwyllgor Dyfarnu PATROL wedi penderfynu y bydd costau'n cael eu rhannu rhwng awdurdodau sy'n aelodau ohono yn gymesur â nifer y Rhybuddion Dirwy a gyhoeddwyd.

O ganlyniad, rhaid i awdurdodau sy'n aelodau gwblhau Tystysgrif flynyddol ynghylch nifer y Rhybuddion Dirwy a gyhoeddwyd, a ardystiwyd fel rhai cywir gan y Rheolwr Parcio a chan Brif Swyddog Cyllid Cyngor Sir Ynys Môn.

**Barn**: Cafwyd barn archwilio GWYRDD yn dilyn yr adolygiad a ddaeth i'r casgliad, yn dilyn y prawf sampl, y gall yr Awdurdod fod yn sicr bod y ffigyrau a gynhyrchwyd ar y Dystysgrif ynghylch nifer y Rhybuddion Dirwy a gyhoeddwyd am flwyddyn ariannol 2013/14 yn adlewyrchiad cywir o'r nifer a gyhoeddwyd yn ardal Cyngor Sir Ynys Môn am yn y cyfnod hwn.

**2.1.4 Porth Amlwch -** Roedd yr adolygiad yn ymwneud â threfniadau a oedd ar gael ar gyfer dyrannu angorfeydd a'r ffioedd a'r taliadau cysylltiedig.

DRAFT

Prif ganfyddiad yr adolygiad oedd nad oedd ffioedd a thaliadau wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo ar gyfer cyfleusterau ac angorfeydd Arforol yn 2014/15 ac nad oedd unrhyw filiau o ganlyniad ar gael ar gyfer y defnydd o gyfleusterau ac angorfeydd am 2014/15 ar adeg ein hadolygiad.

**Barn**: Canfu'r adolygiad rai gwendidau rheoli mewn perthynas â phennu a chasglu ffioedd a thaliadau ym Mhorth Amlwch. Cytunwyd ar naw o argymhellion gyda rheolwyr er mwyn cryfhau'r fframwaith rheoli.


**2.1.5** **Rhenti Tai -** Cynhaliwyd adolygiad o'r System Orchard ar gyfer Rhenti Tai fel rhan o'r cynllun cyfnodol a gymeradwywyd ar gyfer archwilio mewnol am 2013/14. Mae Gwasanaethau Tai'r Cyngor yn rheoli 3,802 o anheddau, 767 o garejys a 32 o eiddo ar brydles ledled y Sir.

Roedd prif ganfyddiadau'r adolygiad yn ymwneud â'r diffyg o ran gwahanu dyletswyddau yn system Orchard a diffyg gweithdrefnau clir ar gyfer rheoli a sicrhau fod dyledion yn cael eu hadennill yn brydlon a rheoli'r broses o droi pobl o'u cartrefi. Canfu'r adolygiad hefyd nad oedd cysoni'r Cyfrif Rhent wedi cael ei gwblhau yn gyfredol ar adeg yr adolygiad.

**Barn:** Yn dilyn yr adolygiad, cafwyd barn archwilio GWYRDD/AMBR gyda dau o argymhellion Canolig a chwech o argymhellion categori isel yn cael eu cytuno gyda rheolwyr.

**2.2** **Crynodeb o Ganlyniadau Adroddiadau a Gyhoeddwyd hyd yma** - ers 1 Ebrill 2014 rydym wedi cyhoeddi saith o adroddiadau terfynol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2013-14; a chwech o gynllun 2014-15. Hyd yma felly, cyhoeddwyd 13 o adroddiadau terfynol yn 2014-15.

Ceir crynodeb o'r graddfeydd a roddwyd i'r adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd gyda barn CAG yn y siart gylch isod:




Bydd y siart gylch hon yn cael ei diweddaru'n gronnol ym mhob Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol dilynol a bydd o'r herwydd, yn arwydd o'r farn archwilio am y fframwaith rheoli cyffredinol yr adroddir arno yn Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Archwilio.



DRAFT

## 3 BLAENRAGLEN WAITH ARCHWILIO MEWNOL

| Teitl yr Adolygiad a Gynlluniwyd | Maes Gwasanaeth | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| Ysgol Pentraeth | Dysgu Gydol Oes | Adroddiad Drafft wedi'i gyhoeddi |
| Ysgol Henblas | Dysgu Gydol Oes | Adroddiad Drafft wedi'i gyhoeddi |
| Cynllun Trydydd Sector | Corfforaethol | Adroddiad Drafft wedi'i gyhoeddi |
| Rheoliadau Mynediad Rhesymol | Corfforaethol | Adroddiad Drafft wedi'i gyhoeddi |
| Cau Cyfrifon – Prosesau | Cyllid | Adroddiad Drafft wedi'i gyhoeddi |
| Tanwydd Arforol | Cymuned | Adroddiad Drafft wedi'i gyhoeddi |
| Stoc Diesel Gaerwen | Priffyrdd | Adroddiad Drafft wedi'i gyhoeddi |
| Digartrefedd | Tai | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Rheolaeth Ariannol mewn Ysgolion - Cyllidebau | Dysgu Gydol Oes | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Datblygu Chwaraeon | Cymuned | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Dilyn-i-fyny – yr Argymhellion Categori Uchel a oedd angen sylw | Corfforaethol | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Canolfan Hamdden Plas Arthur | Cymuned | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Canolfan Hamdden Amlwch | Cymuned | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Cyflogres Athrawon | Addysg | Gwaith yn mynd rhagddo |

## 4. CYFEIRIADAU

**4.1** Yn ystod y flwyddyn, rhaid i'r Adain Archwilio Mewnol wneud gwaith ar faterion a ddaw i'r fei yn ystod y gwaith archwilio rhaglenedig neu faterion a ddygir i'w sylw gan Adrannau eraill neu waith y mae Adrannau eraill yn gofyn i'r Adain Archwilio Mewnol ei wneud. Hefyd, mae'n bosib y bydd yr Archwiliwr Allanol yn gofyn iddynt am wybodaeth neu am gymorth i ddarparu gwybodaeth. Yn sgil rhai o'r cyfeiriadau hyn, cyhoeddir adroddiadau archwilio ffurfiol a bydd eraill yn cael eu cofnodi mewn Nodiadau Ffeil (e.e. pan fo'r haeriad yn anghywir ac o'r herwydd does dim byd i'w adrodd yn ôl, neu pan nad yw swm a sylwedd y gwaith yn ddigon i gyfiawnhau adroddiad archwilio llawn neu pan fo'r mater wedi cael sylw mewn adroddiad gan yr Archwiliwr Allanol).

**4.2** Mae nifer o Nodiadau Ffeil wedi cael eu cynhyrchu hyd yma yn 2014/15. Nid oes unrhyw ddarn o waith a arweiniodd at gynhyrchu Nodyn Ffeil wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o dwyll neu afreoleidd-dra.

DRAFT

**4.3** Fel y dywedyd yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Archwilio, mae'r Heddlu wrthi'n ymchwilio i un cyfeiriad o 2012/13. Derbyniodd y Tîm Archwilio Mewnol ddatganiad drafft gan yr Heddlu a gwblhawyd ac a ddychwelwyd ym mis Awst 2014. Rhoddir gwybod yn y man i'r Pwyllgor am ganlyniad yr achos hwn.

## 5. TRACIO ARGYMHELLION

5.1 Mae argymhellion a wnaed ers 01-04-2012 wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad tracio argymhellion er gwybodaeth y Pwyllgor hwn yn unig.

5.2 Cofnodwyd bod 67% o'r holl argymhellion 'Uchel' a 'Chanolig ' wedi cael eu gweithredu ar 28 Awst 2014. Mae'r perfformiad o ran yr argymhellion ac eithrio'r rhai sy'n berthnasol i Addysg yn 88% (Ffigyrau fel yr oeddynt ar 01-09-14).

5.3 Yn Atodiad A, ceir graff yn dangos manylion yr argymhellion a weithredwyd fesul Gwasanaeth.

## 6. PRYDERON CYFREDOL YR ADAIN ARCHWILIO

6.1 Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â meysydd yr adroddwyd arnynt eisoes fel rhai a oedd yn peri pryder i'r Uned Archwilio Mewnol.

**RHEOLWR ARCHWILIO**
**5 MEDI 2014**

DRAFT

**ATODIAD A**

## Tabl Tracio Argymhellion - yr Holl Argymhellion Uchel a Chanolig (dim yn cynnwys Addysg) sydd wedi cael eu creu ers 01-04-2012

**Tabl Cynnydd:** % Argymhellion yn y categorïau uchel a chanolig a weithredwyd / na weithredwyd fesul Gwasanaeth lle gwnaed mwy na 10 o Argymhellion heb gynnwys Addysg, a oedd ar ddiwedd y cyfnod, yn **88%** o'r holl argymhellion a wnaed**.**

Yn ein barn ni felly ac yn seiliedig ar y data hunanasesu yn y Tabl Cynnydd uchod, mae'r Cyngor wedi gwneud **'cynnydd dal'** yn y cyfnod o ran gweithredu'r argymhellion Archwilio Mewnol a oedd yn y categori Uchel a Chanolig.

***SYLWER: dylid nodi bod y cynnydd yn y gyfradd weithredu i'w briodoli i argymhellion ynghylch glanhau data a wnaed gan Archwilio Mewnol a diwygio nifer o ddyddiadau targed ar gyfer gweithredu oherwydd bod argymhellion 'wedi eu gweithredu'n rhannol' gyda rhywfaint o'r gwaith yn parhau i fynd rhagddo lle mae'r 'swyddog cyfrifol' dynodedig ar gyfer gweithredu wedi newid.***

